Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2024

## Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)

- Y Taliad Ailddosbarthu
- Y Taliad i Ffermwyr Ifanc
- Hawliau'r Gronfa Genedlaethol

## Cynlluniau Buddsoddi Gwledig

- Cynllun Cynefin Cymru (HWS)
- Cynllun Troi'n Organig (OCS)
- Cymorth Ogranig (OS)
- Cynnal Creu Coetir (WCM)
- Premiwm Creu Coetir (WCP)

## Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig

- Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP)
- Taliad Cynnal Creu Coetir Glastir (GCM)
- Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP)

“”







**Neges Bwysig:**
Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen ac yn deall y Llyfryn hwn os ydych yn bwriadu ceisio am unrhyw rai o'r cynlluniau hyn yn 2024.

Chwefror 2024

**Ymwadiad**

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio rheolau Cais Sengl (sy'n ymgorffori Cynllun y Taliad Sylfaenol) a System Integredig Gweinyddu a Rheoli (IACS) ar gyfer 2024 yn ogystal â Chynlluniau Buddsoddi Gwledig: Cynllun Cynefin Cymru (HWS), Troi'n Organig (OCS), Cymorth Organig (OS), Cynnal Creu Coetir (WCM) a Premiwm Creu Coetir (WCP), Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig, Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP), Cynnal Creu Coetir Glastir (GCM) a Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP).

Mae rheolau'r Cais Sengl ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol yn seiliedig ar Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (c.2). Rheoliadau Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 rhif 91. Rheoliadau Cyllido, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol (Diwygio) 2020 rhif 90. Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 rhif 104 (w.17) a Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 rhif 1556 (cy.328).

Mae Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig yn seiliedig ar Reoliad y Cyngor 1305/2013, Rheoliad Dirprwyedig 807/2014 a Rheoliad Gweithredu 808/2014, Rheoliad y Cyngor 1303/2013; Rheoliad y Cyngor 1306/2013, Rheoliad Dirprwyedig 640/2014 a Rheoliad Gweithredu 809/2014. Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014/3222 ( W.327), Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014/3223 ( W.328) fel y'u cadwyd a'u diwygiwyd o dro i dro, gan gynnwys gan Reoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021/400 (W.129).

Gan fod y rheolau'n newid o dro i dro, ni all Llywodraeth Cymru warantu bod y llyfryn hwn yn rhoi datganiad cwbl gywir o'r gyfraith ac ni all y llyfryn hwn gymryd lle cyngor penodol ar broblemau cyfreithiol unigol.

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru.

ISBN Digidol 978-1-83504-444-5

© Hawlfraint y Goron 2024

# CYNNWYS

**Prif Newidiadau** **1**

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) 2014-2020 1

Cynlluniau Buddsoddi Gwledig 1

Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig 2

Hawliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol ar dir a roddwyd y gorau i gynhyrchu neu goedwigo arno 2

Trosglwyddo a Phrydlesu Hawliau BPS ar gyfer 2025 3

Trawsgydymffurfio 3

Manylion Deiliadaeth Tir 3

**Adran A: Pwyntiau Pwysig** **4**

A1 Diffiniad o Ffermwr 4

A2 Cynnal Caeau a Throsglwyddo Tir 4

A3 Ffurflen Cais Sengl (SAF) 5

A4 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Dogfennau Ategol BPS 5

A5 Tir mewn mwy nag un wlad 5

A6 Archwiliadau cychwynnol 6

A7 Cosbau am orddatgan 6

A8 Datgan dim ond y tir sydd ar gael i chi ar y SAF 6

A9 Creu amodau artiffisial 7

A10 Cymryd Hawliau BPS yn ôl 7

A11 Taliadau BPS 7

A12 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig 7

A13 Ymddygiad Annerbyniol 8

**Adran B: Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)** **9**

B1 Cyflwyniad i'r BPS 9

B2 BPS 9

**CYNNWYS**

B3 Ffermwyr a Gweithgarwch Amaethyddol 10

B4 Beth yw’r diffiniad o Ffermwr? 10

B5 Tir sydd ar gael ichi ei defnyddio 11

B6 Beth mae ‘ar gael i’w ddefnyddio / o dan reolaeth ffermwr’ yn ei olygu? 12

B7 Tir Comin 14

B8 Cyd-ddefnyddio tir 15

B9 Ffermwyr cyfran 15

B10 Dau yn defnyddio’r un tir – tir sy’n cael ei hawlio gan ddau ffermwr neu fwy o dan gynlluniau gwahanol 15

B11 Anghydfodau ynghylch pwy sy’n berchen ac yn meddiannu’r tir 16

B12 Tir sy’n gymwys am y BPS 16

B13 Mathau o Dir sy’n Gymwys am y BPS 17

B14 Tir âr 18

B15 Cnydau Parhaol 18

B16 Tir â Choed neu Nodweddion Anghymwys eraill 19

B17 Nodweddion y Dirwedd sy’n cael eu diogelu o dan Drawsgydymffurfio 20

B18 Cnydau amaethyddol nad ydynt yn cael eu defnyddio at bwrpas amaethyddol 20

B19 Amodau arbennig ar gyfer tir sy’n cael ei ddefnyddio i hyfforddi milwyr 21

B20 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig, Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig neu o dan gytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru 21

B21 Tir sydd ddim yn gymwys am y BPS 21

B22 Tir y rhoddir gorau i gynhyrchu arno oherwydd gwaith cwmnïau trydan, dŵr a nwy 22

B23 Gweithgareddau anamaethyddol ar dir BPS 22

B24 Sut mae’r cyfyngiadau’n gweithio 23

B25 Tir â phaneli solar 24

B26 Rheolau Arbennig ar gyfer Cywarch 24

B27 Trwydded y Swyddfa Gartref 24

**CYNNWYS**

B28 Labeli had cywarch 24

B29 Samplo a phrofi cywarch 25

B30 Y Gronfa Genedlaethol 25

B31 Yn gymwys am y Gronfa Genedlaethol 25

B32 Pwy sy'n gymwys? 25

B33 Sut i wneud cais am Hawliau BPS 26

B34 O ble mae'r Gronfa Genedlaethol yn cael ei hawliau hithau? 26

B35 Pwy sy'n gymwys am hawliau'r Gronfa Genedlaethol – Categori'r Newydd-ddyfodiaid 26

B36 Faint o hawliau BPS ga' i o'r Gronfa Genedlaethol fel Newydd-ddyfodiad? 27

B37 Pwy sy'n gymwys am hawliau'r Gronfa Genedlaethol – Categori Ffermwr Ifanc 27

B38 Faint o hawliau BPS ga' i o'r Gronfa Genedlaethol fel Ffermwr Ifanc? 29

B39 A fydd modd fy ystyried ar gyfer mwy nag un categori? 30

B40 Hawliau o'r Gronfa Genedlaethol 30

B41 Rhoi hawliau yn ôl os ydynt wedi'u rhoi ar gam 30

B42 Ildio hawliau 30

B43 Trosglwyddo hawliau 30

B44 Rheolau defnyddio hawliau BPS 31

B45 Taliad Ffermwyr Ifanc 32

B46 Beth yw'r oed ifancaf ar gyfer Taliad y Ffermwr Ifanc? 32

B47 Pwy sy'n gymwys am Daliad y Ffermwr Ifanc? 32

B48 Pa dystiolaeth ddogfennol y bydd gofyn imi ei darparu? 32

B49 Sut bydd y taliad Ffermwyr Ifanc yn cael ei gyfri? 33

B50 Taliad Ailddosbarthu 33

B51 Taliadau BPS (yn cynnwys taliadau Ailddosbarthu a Ffermwyr Ifanc) 33

B52 Sut byddwn ni'n cyfri'r taliadau? 34

B53 Capio taliadau mwy 34

B54 Tir mewn mwy nag un wlad 35

## CYNNWYS

B55 Maint yr hawliad lleiaf gan ffermwr sy'n hawlio mewn mwy nag un wlad 35

**Adran C: Cynlluniau Buddsoddi Gwledig 36**

C1 Cyflwyniad 36

C2 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig i'w hawlio bob blwyddyn ar y SAF 36

C3 Gofynion hawlio taliadau arwynebedd blynyddol ar y SAF 36

C4 Taliadau 37

C5 Hysbysiad am amgylchiadau sy'n effeithio ar eich ymrwymiadau 43

**Adran D – Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig 44**

D1 Cyflwyniad 44

D2 Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig i'w hawlio ar y SAF 44

D3 Hysbysu am amgylchiadau sy'n effeithio ar eich ymrwymiadau Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig 44

D4 Y gofynion ar gyfer hawlio taliad arwynebedd blynyddol ar y SAF 44

D5 Taliad 45

D6 Cynlluniau nad ydych yn eu hawlio ar y SAF 46

**Adran E – Trawsgydymffurfio 47**

E1 Cyflwyniad 47

E2 Effaith Trawsgydymffurfio 47

E3 Cosbau am dorri amodau Trawsgydymffurfio 48

E4 Gwybodaeth am Drawsgydymffurfio 48

E5 Tabl yn dangos yr SMR a'r GAEC 49

**Adran F – Newidiadau'r Busnes a'r Tir 50**

F1 Manylion y busnes 50

F2 Diweddaru'ch Cofnodion 51

F3 Defnyddio Rhifau Yswiriant Gwladol 51

F4 Taliadau 51

F5 Newidiadau i'r tir 51

F6 Newid tir sydd ag angen rhif cae newydd 52

F7 Tir sydd heb ei gofrestru 52

F8 Trosglwyddo tir 53

F9 Lleoliad Tir 53

F10 Diweddaru mapiau tir amaethyddol yng Nghymru 53

F11 Brasfapiau 54

F12 Manylion Deiliadaeth Tir 55

**Adran G – Gostyngiadau, Gwaharddiadau a Chywiro Camgymeriadau 56**

G1 Cyflwyniad 56

G2 Ceisiadau hwyr am daliad 56

G3 Ceisiadau hwyr am hawliau BPS o’r Gronfa Genedlaethol 56

G4 Dogfennau ategol hwyr 56

G5 Peidio â datgan yr holl tir amaethyddol sydd ar y daliad 57

G6 Anghysonderau o ran y tir sydd wedi’i ddatgan ar gyfer BPS, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig’ 57

G7 Anghysonderau o Fewn Grwpiau Cnydau 58

G8 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig 59

G9 Taliad Ffermwr Ifanc: Torri’r amodau cymhwysedd 60

G10 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig: Torri amodau cynlluniau 60

G11 Gostyngiadau am dorri rheolau Trawsgydymffurfio 61

G12 Bwriad 62

G13 Asesu cosbau 63

G14 Crynhoi gostyngiadau 63

G15 Amgylchiadau pan na chaiff taliadau eu lleihau na’u hatal 64

G16 Camgymeriadau amlwg 65

G17 Newid ac ychwanegu 65

G18 Rhoi gwybod am gamgymeriad 66

G19 Tynnu’r SAF yn ôl 66

**Adran H – Archwiliadau 67**

H1 Archwiliadau 67

## CYNNWYS


H2 Beth yw'r archwiliadau? 67

H3 Pam mae angen ymweld â chi? 68

H4 Beth byddwn yn ei wneud? 68

H5 Sut gallwch baratoi ar gyfer archwiliad? 68

H6 Sut gallwch chi ein helpu ni? 69

H7 Sut gallwn ni eich helpu chi? 69

H8 Cynlluniau Tir 69

H9 Archwiliadau Adnabod Gwartheg 71

H10 Archwiliadau Adnabod Defaid a Geifr 71

H11 Archwiliadau Trawsgydymffurfio 72

H12 Cadw cofnodion 74

H13 Beth sy'n digwydd ar ôl archwiliad? 74

H14 Y camgymeriadau mwyaf cyffredin – sy'n arwain at gosbau ariannol 75

H15 Rhestr i ffermwyr o bethau i'w gwneud cyn archwiliad 76

**Adran I – Y Drefn Apelio a Chwyno 78**

I1 Y drefn apelio 78

I2 Y drefn gwyno 79

**Adran J – Datgelu Data 80**

J1 Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Preifatrwydd 80

J2 Rhesymau dros rannu data personol 81

J3 Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth 82

J4 Hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 82

**Adran K – Ffurflen y Cais Sengl 84**

K1 Cyfarwyddyd a help i lenwi'ch SAF 84

K2 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF 84

K3 Pwy sy'n cael cyflwyno'ch SAF? 85

K4 Hawlio taliadau ar y SAF 85

K5 Datgan tir ar y SAF 86

K6 Datgan Tir Comin ar y SAF 87

## CYNNWYS

K7 Gwybodaeth sydd wedi'i llenwi ar eich rhan ar eich SAF 87

K8 Dogfennau ategol 89

K9 Cyflwyno'ch SAF 92

K10 Ymateb i ymholiadau 93

**Atodiad 1: Datgan a Thynnu Nodweddion Anghymwys 94**

**Atodiad 2 – Codau Datgan a Defnydd Tir 111**

**Atodiad 3 – Cynlluniau Coedwigo a Chytundebau Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 121**

**Atodiad 4: Dyddiadau Pwysig 124**

**Atodiad 5: Rhestr Termau 125**

**Atodiad 6: Rhestr o Ddogfennau Cyfeirio 129**

**Atodiad 7: Manylion Cysylltu 130**

## Prif Newidiadau

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) 2014-2020

Mae RDP wedi cau. Daeth yr holl gontractau Glastir Mynediad ac Uwch, Glastir - Tir Comin a Glastir Organig i ben ar 31 Rhagfyr 2023. Ni ellir gwneud unrhyw geisiadau pellach ar gyfer y cynlluniau hyn.

### Cynlluniau Buddsoddi Gwledig

Mae cyfres o Gynlluniau Buddsoddi Gwledig domestig wedi'u datblygu i gefnogi'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Gellir hawlio'r Cynlluniau Buddsoddi Gwledig canlynol ar y tir ar SAF 2024:

- **Cynllun Cynefin Cymru** – Os oes gennych Dyfarniad Grant Cynllun Cynefin Cymru, rhaid hawlio taliadau ar y SAF. Gweler Adran C am ragor o wybodaeth.

  **Noder:** Cynllun Cynefin Cymru – Nid yw Tir Comin yn cael ei hawlio ar SAF 2024. Mae ffurflen hawlio ar wahân ar gael drwy RPW Ar-lein i Gymdeithasau Pori i hawlio am Gynllun Cynefin Cymru – Tir Comin.

- **Cynllun Troi'n Organig** – os oes gennych gontract Cynllun Troi'n Organig, rhaid hawlio taliadau ar y SAF.

- **Cymorth Organig -** Taliad fesul hectar ar dir cymwys i gynhyrchwyr sydd eisoes yn organig ac a fydd â thystysgrif organig lawn gydol 2024. Rhaid hawlio'ch taliad Cymorth Organig ar eich SAF. Gweler Adran C am ragor o wybodaeth.

- **Premiwm Creu Coetir a Thaliad Cynnal a Chadw Creu Coetir** – mae taliadau arwynebedd blynyddol ar gael ar ôl plannu coetir newydd o dan y Grant Creu Coetir newydd neu'r cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir.

  Ni chewch hawlio blwyddyn gyntaf y Premiwm Creu Coetir na'r Taliad Cynnal a Chadw Creu Coetir nes bod gwaith plannu/ffensio'r Grant Creu Coetir neu'r Grantiau Bach – Creu Coetir wedi'i gwblhau a'i hawlio yn y flwyddyn galendr flaenorol.

**Os gwnaethoch chi gwblhau'r gwaith plannu/ffensio newydd a'i hawlio ar ôl 31 Rhagfyr 2023, ni chewch hawlio taliadau blwyddyn gyntaf y Taliad Cynnal a Chadw Creu Coetir na'r Premiwm Creu Coetir tan 2025.**

Gweler Adran C am ragor o wybodaeth ar Gynllun Buddsoddi Gwledig.

## Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig

Os oes gennych gontract Creu Coetir Glastir, yn dibynnu ar pryd y crewyd y goedwig, mae'n ofynnol i chi gynnal y coetir hwnnw am 12 neu 15 mlynedd.

Er bod RDP cau, bydd contractau Glastir Creu Coetir yn parhau i weithredu yn 2024 o dan Gyfraith yr UE a Ddargedwir (a elwir bellach yn Gyfraith a Gymathwyd) ac fe'i hariennir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.

Gellir parhau i hawlio'r taliadau blynyddol canlynol ar Ffurflen Cais Sengl 2024 (SAF):

**Premiwm Creu Coetir Glastir - (GWCP)** – cynllun 15 mlynedd gyda'r bwriad o wneud yn iawn am golli incwm ar gyfer coetiroedd a sefydlwyd ers 2010.

**Premiwm Creu Glastir (GCP)** – cynllun 12 mlynedd gyda'r bwriad o wneud iawn am golli incwm am goetir a sefydlwyd ers 2015.

**Cynnal a Chadw Creu Coetir Glastir (GCM)** – Cynllun 12 mlynedd gyda'r bwriad o gynnal plannu newydd ar gyfer coetir a sefydlwyd ers 2015.

Os ydych yn bwriadu hawlio taliad unrhyw un o'r cynlluniau hyn ar SAF 2024, gofalwch eich bod yn darllen ac yn deall Llyfryn Rheolau'r Cais Sengl.

Gweler Adran D am ragor o wybodaeth ar Gynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig.

## Hawliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol ar dir a roddwyd y gorau i gynhyrchu neu goedwigo arno

Ni fydd unrhyw dir a neilltuwyd yn flaenorol o dan gytundeb Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru 2014-2020 bellach yn gymwys ar gyfer BPS trwy ddatgan codau cnydau BW1 neu CW1. Rhaid datgan y tir hwn gyda chod defnydd tir priodol a restrir yn Atodiad 2 Tabl 1a/neu Tabl 3.

Gall tir a goedwigir o dan gynllun creu coetir barhau i fod yn gymwys ar gyfer BPS, yn amodol ar y meini prawf cymhwysedd a nodir yn Adran B20 ac Atodiad 3.

**Nid yw'r codau cnydau canlynol bellach yn gymwys ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol ond gellir eu datgan:**

| Cod y Cnwd | Disgrifiad o'r Cnwd |
|---|---|
| GC1 | Coridor glan nant (Glastir yn Flaenorol) |
| GC2 | Llain clustogi pwll (Glastir yn Flaenorol) |
| GS1 | Prysgwydd/eithin/mieri di-stoc (Glastir yn Flaenorol) |
| GC3 | Corneli caeau neu ymylon coetir di-stoc |
| GR9 | Porfa di-stoc |
| HE6 | Gweundir di-stoc |
| RE3 | Cors / gwely cyrs di-stoc |
| SM1 | Morfa Heli di-stoc |
| SC2 | Coridor glan nant |

## Trosglwyddo a Phrydlesu Hawliau BPS ar gyfer 2025

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ar bontio o BPS i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. O ganlyniad, bydd cyfnod trosglwyddo hawl y BPS yn cau ar ôl 15 Mai 2024 hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynurheolau ynghylch a throsglwyddo a phrydlesu hawliau ar gyfer blwyddyn cynllun 2025.

Bydd deiliaid hawliau BPS yn cael eu hysbysu pan fydd cyfnod trosglwyddo hawl y BPS ar gyfer 2025 yn agor a byddant hefyd yn cael eu hysbysu o reolau trosglwyddo a phrydlesu hawliau.

## Trawsgydymffurfio

Cafodd newidiadau eu gwneud i Daflenni Ffeithiau a Safonau Dilysadwy Trawsgydymffurfio 2024. Cafodd SMR1 Diogelu Dŵr ei newid i adlewyrchu gofynion Rheoliadau 2021 Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) fydd yn effeithio ar bob tir o 1 Ionawr 2024.

Cewch ragor o fanylion a fersiynau diweddara'r dogfennau ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Manylion Deiliadaeth Tir

Rydym yn cynnal adolygiad ac yn diweddaru manylion deiliadaeth yr holl barseli tir sydd ar ein cofnodion. **Rhaid** i chi gadarnhau bod y manylion rydym wedi'u llenwi ymlaen llaw ar gyfer eich parseli yn gywir, gan gynnwys y dyddiadau rhentu, a'u newid lle bo angen yn yr adran 'Data Caeau'. Cofiwch, nid yw amodau'r BPS wedi newid, felly i gael hawlio BPS, rhaid bod gennych reolaeth lwyr ar y caeau hyn ar 15 Mai.

# Adran A: Pwyntiau Pwysig

## A1 Diffiniad o Ffermwr

**A1.1** Er mwyn cael hawlio BPS, Cynllun Troi'n Organig a/neu Cymorth Organig rhaid ichi fod yn ffermwr sy'n cynnal gweithgareddau amaethyddol bob blwyddyn y byddwch yn hawlio taliad o dan y cynlluniau hyn. Er mwyn hawlio Cymorth Organig rhaid i chi fod yn gynhyrchudd cynradd o gynnyrch amaethyddol. Bydd gofyn ichi gyflwyno Dogfennau Ategol i brofi'ch bod wedi cynnal gweithgareddau amaethyddol os nad ydych yn datgan da byw neu gnydau âr neu barhaol ar eich SAF.

**A1.2 Ar gyfer BPS, bydd angen cyflwyno Dogfennau Ategol erbyn 31 Rhagfyr 2024.** Ni chaiff unrhyw daliad (gan gynnwys Rhagdaliad BPS) ei wneud tan y bydd tystiolaeth wedi dod i law eich bod yn cynnal gweithgarwch amaethyddol yn 2024. Os na fydd tystiolaeth wedi cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2024, caiff eich hawliad ei wrthod.

**A1.3 Ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig, bydd angen cyflwyno Dogfennau Ategol erbyn 31 Rhagfyr 2024.** Os na fyddwch wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2024, caiff eich hawliad ei wrthod.

**A1.4 Ar gyfer y Cymorth Organig, bydd angen cyflwyno Dogfennau Ategol erbyn 31 Rhagfyr 2024.** Os na fyddwch wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2024, caiff eich hawliad ei wrthod.

## A2 Cynnal Caeau a Throsglwyddo Tir

**A2.1** Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i barseli tir ac unrhyw drosglwyddiadau tir o fewn 30 niwrnod ar ôl i'r newidiadau ddigwydd. Llenwch gais **'Rheoli fy Nhir'** gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein i roi gwybod inni os yw perchennog neu denant y tir yn newid. Rhaid defnyddio '**Rheoli fy Nhir**' hefyd i gofrestru tir newydd ac i roi gwybod inni am newidiadau i nodweddion parhaol ac i ffiniau caeau.

**A2.2** Bydd angen prawf arnom mai chi sy'n berchen ar y tir neu fod gennych hawl i'w feddiannu pan fyddwch yn cofrestru neu'n cymryd tir newydd.

Os ydych yn berchen ar y tir rydych yn ei gofrestru, rhaid ichi gyflwyno'r canlynol;

- **Gweithred Teitl neu**
- **Copi o Gofrestr Teitl.**

**Rhaid** i'r dogfennau hyn gynnwys y map cysylltiedig.

Os ydych yn denant neu'n borwr ar y tir, rhaid ichi gyflwyno naill ai llythyr oddi wrth y perchennog i gadarnhau ei fod wedi rhoi caniatâd ichi ddefnyddio'r tir at ddiben amaethyddol, gan gynnwys dyddiadau, neu gytundeb tenantiaeth wedi'i arwyddo gan bob parti. Ni fydd tystiolaeth arall yn ddigon a chaiff ei gwrthod.

**A2.3** Gall adeiladau ac iardiau ond gael eu rhannu os oes ffin rwystrol yn bodoli a bod mynediad ar wahân ar gyfer y ddwy ardal. Os nad oes ffin rwystrol a mynediad ar wahân ni chaniateir i chi rannu'r parsel tir presennol.

## A3 Ffurflen Cais Sengl (SAF)

**A3.1** Dylech ddarllen y llyfryn hwn *'Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2024'* a'r *'Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl 2024 (SAF) Ar-lein'* cyn llenwi'ch SAF 2024. Mae'r Llyfryn hwn yn drech nag unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi.

**A3.2** Cais ar-lein yw SAF 2024 fydd ar gael ichi ei lenwi trwy'ch cyfrif RPW ar-lein. Gallwch fynd i'ch cyfrif RPW Ar-lein trwy'r ddolen ar wefan Llywodraeth Cymru. Os nad ydych wedi cofrestru eto gydag RPW Ar-lein neu os oes angen helpu arnoch i lenwi'ch cais ar-lein, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid (fe welwch fwy o fanylion yn Atodiad 7 y llyfryn hwn).

**A3.3** Rhaid llenwi SAF 2024 gan ddefnyddio RPW Ar-lein i hawlio taliad o dan y cynlluniau a restrir isod:

- Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) gan gynnwys y Taliad Ailddosbarthu a'r Taliad Ffermwyr Ifanc.
- Cynllun Cynefin Cymru (HWS)
- Troi'n Organig (OCS)
- Cymorth Organig (OS)
- Premiwm Creu Coetir (WCP)
- Cynnal Creu Coetir (WCM)
- Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP)
- Taliad Cynnal Creu Coetir Glastir (GCM)
- Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP).

**A3.4** Rhaid ichi lenwi SAF 2024 os ydych am wneud cais am Hawliau o'r Gronfa Genedlaethol fel 'Newydd-ddyfodiad' neu fel 'Ffermwyr Ifanc'.

**A3.5** Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch SAF 2024 yw canol nos, Dydd Mercher 15 Mai 2024.

## A4 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Dogfennau Ategol BPS

**A4.1** Y dyddiad cau i hawlwyr BPS i gyflwyno dogfennau ategol yw 31 Rhagfyr 2024.

## A5 Tir mewn mwy nag un wlad

**A5.1** Os oedd hawlydd BPS â thir mewn mwy nag un wlad yn dibynnu ar dir y tu allan i Gymru yn 2020 i fodloni'r rheol ar yr hawliad lleiaf o 5ha o dir, bydd yn dal i fod

yn gymwys o dan y rheol 5ha o dir yn 2024. Ond bydd RPW dim ond yn talu BPS ar dir yng Nghymru fydd wedi'i hawlio gan ddefnyddio Hawliau BPS Cymru.

## A6 Archwiliadau cychwynnol

**A6.1** Bydd RPW yn cynnal archwiliadau cychwynnol o'r SAF y byddwch wedi'i chyflwyno i weld a oes gwahaniaethau rhwng eich datganiad a'r wybodaeth sydd gennym am y caeau sydd wedi'u mapio. Bydd RPW yn edrych hefyd i weld a oes unrhyw dir rydych wedi'i gynnwys yn eich SAF wedi'i ddatgan gan hawlydd arall. Hefyd, os ydych yn cynnal Opsiwn Rheoli o dan Gontract Creu Coetir Datblygu Gwledig mewn parsel tir, bydd RPW yn edrych i weld a ydych wedi datgan cnwd yn y cae i gefnogi'r opsiwn. Os gwelwn unrhyw broblemau, rhown wybod ichi, gan roi manylion y tir perthnasol. Cewch wedyn gyfle i ofyn am gael newid eich datganiad ar y SAF yn unol â hynny.

**A6.2** Byddwn yn anfon llythyrau o dan 'Archwiliadau Cychwynnol', ar RPW Ar-lein yn unig, cyn gynted ag y medrwn ar ôl 15 Mai 2024. Os cewch lythyr o dan 'Archwiliadau Cychwynnol' a'ch bod am newid eich datganiad SAF ynghylch y caeau a nodir yn y llythyr, bydd gennych tan 19 Mehefin 2024 i ymateb. Os bydd ateb yn cyrraedd RPW **ar ôl** 19 Mehefin 2024, caiff ei wrthod a gallech gael eich cosbi am orddatgan (Gweler Adran G y llyfryn hwn am fwy o fanylion).

**A6.3** Y cyfan y mae llythyr 'Archwiliad Cychwynnol' yn ei wneud yw rhoi cyfle ichi osgoi tramgwyddo neu dorri rheol. Ni chewch ddefnyddio'r dyddiad cau, 19 Mehefin 2024, i gynyddu'ch hawliad. Bydd dyddiadau cau arferol y SAF, sef 31 Mai 2024 heb gosb, yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer gwneud pob math arall o newid i'ch SAF Rhoddir cosb am bob diwrnod gwaith y bydd yn hwyr wedi hynny tan a chan gynnwys 10 Mehefin 2024. Gwrthodir pob newid arall sy'n cyrraedd ar ôl 10 Mehefin 2024.

## A7 Cosbau am orddatgan

**A7.1** Os ydych chi'n hawlio ar dir nad yw ar gael ichi ei ddefnyddio neu nad yw'n gymwys am daliad, mae'n bosib y cewch eich cosbi am orddatgan. Mae Adran G yn esbonio sut y bydd cosbau am orddatgan yn cael eu cyfrif.

## A8 Datgan dim ond y tir sydd ar gael i chi ar y SAF

**A8.1** Dim ond y tir sydd ar gael i chi ei ddefnyddio ar 15 Mai 2024 y dylech ei ddatgan. Ni ddylech ddatgan tir rydych yn berchen arno ond yn ei rentu i ffermwr arall (gan nad yw'r tir hwn ar gael i chi a dim ond y ffermwr sy'n ei rentu ddylai ei ddatgan). Mae'n bwysig eich bod yn darllen y data am gaeau sydd wedi'u llenwi ymlaen llaw ar eich rhan ar y SAF yn ofalus iawn oherwydd efallai y bydd angen eu newid. Darllenwch baragraff B5 y llyfryn hwn.

**A8.2** Peidiwch â datgan tir rydych yn ei feddiannu os ydy'ch tenantiaeth wedi dod i ben neu os ydy'ch hysbysiad ymadael yn golygu daw'ch tenantiaeth i ben cyn 15 Mai 2024. Os ydych yn hawlio ar dir nad oes hawl cyfreithiol gennych i'w feddiannu, gallai'ch hawliadau 2024 gael ei gosbi.

**A8.3** Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y tir yn parhau i gydymffurfio â gofynion y cynllun am y flwyddyn galendr honno. Felly os ildiwch eich reolaeth ar y tir ar ôl 15 Mai 2024 a'n bod yn dod i wybod nad yw'r tir bellach yn cydymffurfio â rheolau'r

cynllun, efallai y cewch eich cosbi am orddatgan os nad yw'r tir bellach yn gymwys. Os ydych yn torri'r safonau Trawsgydymffurfio ar y tir hwn, cewch eich cosbi am hynny hefyd, oni bai bod rhywun arall sy'n hawlio BPS 2024 wedi cymryd y tir hwnnw.

**A8.4** Dylech gadw tystiolaeth fod neu y bu tir ar gael ichi ei ddefnyddio ar 15 Mai 2024. Os gofynnwn am dystiolaeth ac nad ydych yn gallu dangos tystiolaeth foddhaol, caiff eich hawliad BPS 2024 ei wrthod ac ni chewch daliad. Hefyd, rhaid ichi adael i archwilwyr RPW fynd i'r holl dir a hawlir. Os na chaiff archwilwyr fynd i'r tir hwnnw, gallai'ch hawliad gael ei gosbi a gallwn ystyried gofyn ichi ad-dalu'r taliadau a wnaed ichi mewn blynyddoedd cynt.

## A9 Creu amodau artiffisial

**A9.1** Os gwelwn eich bod wedi creu amgylchiadau artiffisial i gael mantais o'r rheolau sy'n ymwneud â thalu'r BPS, gan gynnwys osgoi cael eich capio, byddwn yn ymchwilio i'r mater ac mae'n bosibl y cadwn daliadau'n ôl, gofyn am ad-daliad neu wrthod eich talu. Mae hyn yn cynnwys y Taliad Ffermwyr Ifanc, y Taliad Ailddosbarthu a hawliau o'r Gronfa Genedlaethol.

## A10 Cymryd Hawliau BPS yn ôl

**A10.1** Os na wnewch chi ddefnyddio'ch holl Hawliau BPS o leiaf unwaith bob dwy flynedd, fe gollwch chi rai yn yr ail flwyddyn.

**A10.2** Os bydd gennych hawliau fydd heb eu defnyddio am ddwy flynedd o'r bron, fe gollwch nifer yr hawliau sydd heb eu defnyddio. Mae hynny'n golygu na fydd ffermwr yn gallu cadw ei afael ar hawliau trwy 'gylchdroi' (cyfnewid) y rhai mae'n eu defnyddio o flwyddyn i flwyddyn.

**A10.3** Os ydych yn berchen neu'n lesio hawliau, caiff yr hawliau sy'n eiddo ichi eu cymryd yn ôl gyntaf. Felly, fe ddylech feddwl yn ofalus beth yw effaith lesio'ch hawliau i fusnes arall.

## A11 Taliadau BPS

**A11.1** Cyn belled â bod hawliad cymwys a'r holl ddogfennau ategol yn ein cyrraedd, byddwn yn rhagdalu i fyny i 70% o werth amcangyfrifedig eich hawliad BPS 2024 o 14 Hydref 2023. Caiff y gweddill ei dalu o 12 Rhagfyr 2023 (Gweler Adran B51).

## A12 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig

**A12.1** Gofalwch eich bod yn datgan y codau defnyddio tir priodol i gynnal y gofynion rheoli a ddisgrifir yn eich contract. Gallai peidio â datgan codau defnyddio tir sy'n cyfateb i Opsiynau Rheoli arwain at leihau'ch taliad a/neu gosbi'ch hawliad. Fe welwch restr lawn o'r codau yn Atodiad 3.

## A13 Ymddygiad Annerbyniol

**A13.1** Ni ddylai swyddogion RPW orfod dioddef iaith ymosodol neu sarhaus nac ymddygiad bygythiol gan ymgeiswyr/hawlwyr na'u cynrychiolwyr. Mae dogfen Rheoli Ymddygiad Annerbyniol Cwsmeriaid Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n esbonio'r hyn yr ydym yn ei ystyried yn ymddygiad annerbyniol.

**Gall ymddygiad annerbyniol arwain at ddileu taliadau a/neu wrthod ceisiadau neu hawliadau.**

# Adran B: Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)

## B1 Cyflwyniad i'r BPS

**B1.1** I allu cael taliad BPS, rhaid:

- bod gennych o leiaf 5 hectar o dir amaethyddol yng Nghymru cymwys ar gael ichi ei ddefnyddio ar 15 Mai 2024,
- os oes gennych lai na 5 hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru ond eich bod yn ffermio bob ochr y ffin ac yn dibynnu ar dir y tu allan i Gymru i fodloni'r rheol hawlio ar o leiaf 5 hectar o dir yn 2020, byddwch yn dal i fod yn gymwys am 2024.
- bod yn berchen neu'n lesio i mewn o leiaf 5 o hawliau BPS.

**B1.2** Rhaid eich bod hefyd yn:

- **Ffermwr** sy'n cynnal gweithgareddau amaethyddol.

## B2 BPS

**B2.1** Y Taliadau Uniongyrchol yw'r taliad BPS, y taliad Ailddosbarthu a'r taliad i Ffermwyr Ifanc.

**B2.2** Bydd blwyddyn cynllun y BPS yn rhedeg o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr. Os ydych yn hawlio taliad ar dir, rhaid ichi fod yn gymwys am flwyddyn gyfan y cynllun. Chi sy'n gyfrifol am gadw at y safonau Trawsgydymffurfio am flwyddyn gyfan y cynllun ac am drefnu bod archwilwyr RPW yn gallu mynd ar y tir gydol y flwyddyn. O beidio â chyflawni'r naill ymrwymiad, gallai'ch hawliad gael ei gosbi neu gallech gael eich gwahardd o'r Cynllun.

**B2.3** Mae'r BPS yn cael ei reoli o dan y System Integredig Gweinyddu a Rheoli (IACS), sy'n pennu amodau ar gyfer:

- adnabod ffermwyr a thir
- cynnal archwiliadau gweinyddol, ar y fferm a synhwyro o bell i gadarnhau bod arwynebedd a defnydd y tir yn bodloni Rheoliadau DU.

**B2.4** Er mwyn cael hawlio BPS, rhaid ichi ddatgan ar eich SAF bob blwyddyn yr holl dir sydd ar gael ichi ei ddefnyddio/o dan eich rheolaeth (yn eiddo ichi neu wedi'i rentu) ar 15 Mai, pa un a ydych am hawlio taliad ar y tir neu beidio. Mae hyn yn cynnwys pob coetir/coedwigaeth, trac, buarth ac arwyneb caled ac ati a'r holl dir ddaw o dan ymrwymiad Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig. Mae'n bwysig nad ydych yn datgan tir rydych wedi'i osod ar rent ac nad yw felly ar gael ichi ei ddefnyddio/o dan eich rheolaeth. Gweler paragraff B5 y llyfryn hwn am esboniad o ystyr 'tir sydd ar gael ichi ei ddefnyddio/o dan eich rheolaeth'.

**B2.5** Caiff pob busnes ffermio hawlio BPS pa un a yw'n unig fasnachwr, yn bartneriaeth neu'n endid cyfreithiol (ond nid Cymdeithasau Tir Comin). Fodd bynnag,

os gwelwn eich bod wedi creu amodau artiffisial i gael mantais o'r rheolau sy'n ymwneud â thalu'r BPS, gan gynnwys osgoi cael eich capio, neu hawlio BPS ar dir i ddefnyddio hawliau heb fagu, tyfu cynnyrch amaethyddol ar y tir hwnnw, byddwn yn ymchwilio i'r mater ac mae'n bosibl y gallwn gadw taliadau'n ôl, gofyn am ad-daliad neu wrthod eich talu. Mae hyn yn cynnwys y Taliad Ffermwyr Ifanc, y Taliad Ailddosbarthu a hawliau o'r Gronfa Genedlaethol.

## B3 Ffermwyr a Gweithgarwch Amaethyddol

**B3.1** Er mwyn cael hawliau BPS a thaliadau BPS, rhaid eich bod yn ffermwr sy'n cynnal gweithgarwch amaethyddol. Rhaid ichi fod yn ffermwr sy'n cynnal gweithgarwch amaethyddol bob blwyddyn rydych yn hawlio BPS.

## B4 Beth yw'r diffiniad o Ffermwr?

**B4.1** Mae **Ffermwr** yn berson naturiol neu gyfreithiol neu'n grŵp o bersonau naturiol neu gyfreithiol, pa bynnag statws cyfreithiol sydd wedi'i roi i bersonau neu grwpiau o'r fath dan gyfraith genedlaethol, sydd â daliad yn y DU ac sy'n cynnal **gweithgarwch amaethyddol**.

**B4.2** Ystyr **Daliad** yw'r holl unedau yn y DU sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau amaethyddol a'u rheoli (hynny yw, sydd ar gael i'w defnyddio) gan Ffermwr.

**B4.3** Ystyr **gweithgarwch amaethyddol** yw:

- cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion amaethyddol. Mae hynny'n cynnwys cynaeafu cnydau neu cadw anifeiliaid ar gyfer eu godro, eu bridio neu at bwrpas amaethyddol arall.
- cadw tir amaethyddol mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer ei bori neu ei drin ond heb ei baratoi yn fwy na thrwy ddulliau neu â pheiriannau amaethyddol arferol. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu rheoli chwyn estron goresgynnol a phrysgwydd.
- cynnal gweithgarwch sy'n bodloni gofynion sylfaenol ar dir amaethyddol sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei bori neu ei drin. Yng Nghymru, morfeydd heli a thwyni tywod yw'r rheini. Rhaid ichi o leiaf bori'r tir hwn gyda 0.01 i 0.05 uned da byw yr hectar y flwyddyn ar gyfartaledd, neu reoli chwyn estron goresgynnol a phrysgwydd.

**B4.4** Os nad ydych yn datgan da byw ac os nad ydych yn datgan cnydau âr neu gnydau parhaol ar eich SAF, rhaid ichi gyflwyno dogfennau ategol (e.e. cofnodion symud anifeiliaid, anfonebau torri, plygu a chynnal perthi neu gontractau silwair) erbyn 31 Rhagfyr 2024 i brofi'ch bod yn bodloni'r gofynion uchod ac yn cynnal gweithgarwch ffermio yn 2024.

**B4.5** Ni chaiff unrhyw daliad (gan gynnwys Rhagdaliad BPS) ei wneud tan y bydd tystiolaeth wedi dod i law eich bod yn cynnal gweithgarwch amaethyddol yn 2024. Os na cheir tystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2024, caiff eich hawliad ei wrthod.

**B4.6** Os oes mwy na hanner eich tir amaethyddol yn perthyn i'r categori 'ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a'i bori' h.y. twyni tywod a morfeydd heli, rhaid ichi gynnal o leiaf un o'r gweithgareddau canlynol ar y tir hwnnw hefyd:

- tyfu neu fagu cynhyrchion amaethyddol
- cynnal o leiaf y lefel pori ofynnol (o leiaf 0.01 i 0.05 Uned Da Byw yr hectar y flwyddyn ar gyfartaledd)
- rheoli planhigion estron goresgynnol.

## B5 Tir sydd ar gael ichi ei defnyddio

**B5.1** Er mwyn cael Hawliau BPS o'r Gronfa Genedlaethol a hawlio taliadau'r BPS, rhaid ichi allu dangos bod y tir sy'n cael ei ddatgan i gefnogi'ch hawliad ar gael i chi/o dan eich rheolaeth ar 15 Mai 2024.

**B5.2** Chi fydd yn gyfrifol am gwrdd â'r gofynion Thrawsgydymffurfio sy'n ymwneud â'r tir drwy gydol y flwyddyn galendr (gweler Adran E y llyfryn hwn am ragor o fanylion am Drawsgydymffurfio), ac am sicrhau hefyd bod y tir yn parhau'n gymwys am y BPS. Er enghraifft: ni fydd cae sy'n cael ei droi at weithgaredd anamaethyddol e.e. maes parcio, bellach yn gymwys am y BPS.

**B5.3** Oni bai bod tir yn dir comin/yn cael ei gyd-ddefnyddio (gweler paragraffau B7 – B8 y llyfryn hwn), dim ond unwaith mewn blwyddyn y cewch ddefnyddio parsel o dir i hawlio taliad BPS ac ni chaiff dau ffermwr ddefnyddio'r un cae yr un pryd i hawlio taliad BPS. Felly os bydd dau ffermwr gwahanol yn hawlio taliad BPS ar yr un darn o dir, ni chaiff y naill na'r llall daliad nes cadarnhau pwy sydd â'r hawl i ddefnyddio'r tir i gefnogi ei gais am BPS. Efallai y caiff y ffermwr nad oes ganddo'r hawl i hawlio taliad ar y tir ei gosbi am orddatgan. Mae'n bwysig felly fod ffermwyr yn gwybod i bwy y mae'r tir ar gael neu o dan ei reolaeth a phwy sy'n ei ddefnyddio i hawlio taliad ar Hawliau BPS. (Fel arfer ni fydd ffermwr â thrwydded bori yn cael hawlio am nad yw'r tir ar gael iddo.)

**B5.4** Rhaid ichi allu profi bod gennych hawl cyfreithiol i feddiannu'r tir rydych yn hawlio arno e.e. yn achos tir nad ydych yn berchen arno, bod gennych denantiaeth gan y landlord sy'n eich galluogi i ffermio'r tir fel y gwelwch orau ac mai chi sy'n gyfrifol am ei gadw mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. Bydd cytundebau ysgrifenedig yn gallu roi tystiolaeth ichi ac i RPW fod gennych gytundeb.

**B5.5** Os bydd hectar sy'n gymwys o dan y cynllun yn cael ei ddatgan gan ddau neu ragor o ffermwyr, y ffermwr sy'n penderfynu ar y gweithgarwch amaethyddol ar y tir hwnnw, sy'n cael yr elw ac yn ysgwyddo'r risgiau ariannol o'r gweithgarwch hwnnw fydd y sawl sydd â rheolaeth ar y tir hwnnw.

## B6 Beth mae 'ar gael i'w ddefnyddio / o dan reolaeth ffermwr' yn ei olygu?

**B6.1** Wrth ddatgan eich tir ar SAF 2024 rhaid ichi ddatgan dim ond y tir sydd ar gael i chi ac o dan eich rheolaeth ar 15 Mai 2024. Mae'r tir 'ar gael i chi':

- os mai chi sy'n berchen arno ac nad ydych wedi'i roi ar rent
- os ydych yn denant â 'meddiannaeth egsgliwsif' o dan naill ai Denantiaeth Busnes Fferm o dan Ddeddf Tenantiaethau 1995 neu denantiaeth lawn o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
- os ydych yn denant â thenantiaeth lafar â'r un lefel o reolaeth â'r uchod
- os ydych wedi caniatáu trwydded o dan drefniant trwyddedu penodol ar gyfer pori, tyfu cnwd neu ladd gwair/silwair dros gyfnod penodedig a chyfyngedig o amser o fewn y flwyddyn ond eich bod wedi cadw rheolaeth ar y tir.

### B6.2 Pwy sydd â'r tir ar gael iddo ei ddefnyddio i hawlio Taliad Sylfaenol (BPS)?

| **Senario sy'n disgrifio natur y meddiant ar y tir** | **Pwy sy'n cael hawlio?** | |
|---|---|---|
| | **Tenant** Codau statws A, B neu C | **Perche-nnog** Cod statws O |
| Rydych yn pori'ch defaid neu'n lladd gwair/silwair ar yr adegau a nodir yn y drwydded (lafar neu ysgrifenedig). Nid ydych yn cael cynnal gweithgarwch amaethyddol arall ar y tir heb ganiatâd y trwyddedwr. **Dydych chi ddim yn cael hawlio.** | | ✓ |
| Chi sy'n ffermio'r tir a chi sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da ond nid oes gennych denantiaeth. Mae'ch cytundeb â pherchennog (neu denant) y tir yn golygu nad oes angen ichi ofyn caniatâd i gynnal a ffermio'r tir fel y gwelwch yn dda neu fel y gwelwch ei angen. Nid yw'r trwyddedwr yn cynnal nac yn contractio unrhyw weithgarwch amaethyddol ar y tir. **Chi ddylai hawlio, fel tenant.** | ✓ | |
| Chi sy'n cynnal (neu'n talu contractwr i gynnal) y tir a chi sy'n gyfrifol am ei gyflwr, ond rydych yn gosod y tir sy'n eiddo ichi i ffermwr arall o dan drwydded. Mae'r drwydded yn nodi'r cyfnod penodol pan gaiff y trwyddedai ddefnyddio'r tir a'r cyfyngiadau/terfynau ar yr hyn y caiff ei wneud ar y tir**. Chi sy'n hawlio, fel y perchennog.** | | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Chi sy'n cynnal (neu'n talu contractwr i gynnal) y tir a chi sy'n gyfrifol am ei gyflwr. Mae gennych denantiaeth ffurfiol ar y tir rydych yn ei is-osod i ffermwr arall o dan drwydded. Mae'r drwydded yn nodi cyfnod penodol pan gaiff y trwyddedai ddefnyddio'r tir a chyfyngiadau/terfynau ar yr hyn y caiff ei wneud ar y tir. **Chi ddylai hawlio, fel tenant.** | ✓ | |
| Nid ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch amaethyddol ar y tir (ac eithrio fel contractwr). Chi sy'n berchen ar y tir ac rydych yn ei osod i ffermwr arall o dan drwydded. Mae'r drwydded yn caniatáu'r ffermwr arall i gynnal (neu dalu am) gynnal y tir a bod yn gyfrifol am ei gyflwr. **Dydych chi ddim yn cael hawlio.** | ✓ | |
| Nid ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch amaethyddol ar y tir (ac eithrio fel contractwr). Mae gennych denantiaeth ffurfiol ar y tir ac rydych yn ei is-osod i ffermwr arall o dan drwydded. Mae'r drwydded yn caniatáu'r ffermwr arall i gynnal (neu dalu am) gynnal y tir a bod yn gyfrifol am ei gyflwr. **Dydych chi ddim yn cael hawlio a dylai'ch trwyddedai hawlio fel tenant.** | ✓ | |
| Nid ydych yn cynnal gweithgarwch amaethyddol ar eich tir ond mae'r tir ar gael ichi ar 15 Mai am gyfnod byr. Weddill y flwyddyn, rydych yn ei osod o dan drwydded neu denantiaeth a'r tenant/trwyddedai sy'n ei gynnal mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da yn ogystal â'i bori. Er bod gennych y tir ar 15 Mai, nid chi sy'n ffermio'r tir. Y tenant/trwyddedai sydd ar y tir ond nid yw'r tir ar gael iddynt ar 15 Mai. **Chaiff neb felly hawlio BPS.** | | |

**B6.3** Y peth pwysig i'w gofio o'r tabl hwn yw os mai chi yw deiliad y drwydded ac mai chi sy'n ffermio'r tir ac yn ei gadw mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da, chi sy'n cael hawlio arno a hynny fel tenant.

**B6.4** Os yw tir wedi'i osod i denant o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 neu Denantiaeth Busnes Fferm (h.y. tenantiaeth ffurfiol), mae ar gael i'r tenant, nid y landlord. Felly rhaid peidio â chynnwys y tir hwn ar SAF y landlord.

**B6.5** Os ydych yn caniatáu i rywun dan drwydded fynd ar eich tir yn benodol i bori neu ladd gwair/silwair dros gyfnod penodedig a chyfyngedig o amser; ac nad yw'r drwydded honno yn trosglwyddo rheolaeth am y tir yn ôl rheolau'r BPS i'r trwyddedai, mae'r tir hwnnw ar gael i chi fel y trwyddedwr. Os ydych yn ffermwr (perchennog/tenant) o dan gytundeb ffermio ar Gontract, mae'r tir ar gael ar eich cyfer chithau (y perchennog/tenant) hefyd.

**B6.6** Os oes gennych drwydded i feddiannu tir yn benodol i bori neu ladd gwair / silwair dros gyfnod penodedig o amser, nid yw'r tir ar gael i chi ac ni chewch hawlio taliadau BPS ar y tir hwnnw ac ni ddylech ei ddatgan ar y SAF. Yr hyn sy'n digwydd ar y tir fydd yn pennu beth yw'r trefniant. Felly, os mai chi sy'n gwneud yr holl waith ffermio a gwaith cadw'r tir ac yn ei bori a lladd gwair/silwair dros gyfnod amhenodol neu ddi-dor, yna mae'n debygol, beth bynnag yw'r disgrifiad o'r trefniant gan y

partïon cysylltiedig, mewn termau cyfreithiol, mai tenant ydych chi. Mewn sefyllfa o'r fath, rydych chi'n denant i bob pwrpas ac mae'r tir ar gael ichi ei ddefnyddio a chi ddylai hawlio fel y tenant.

**B6.7** Dylai trwyddedwyr ofalu eu bod yn diffinio'r cyfnod penodol a'r gweithgareddau a ganiateir o dan y trefniant yn glir fel na fydd dryswch ynghylch i bwy y mae'r tir ar gael. Fel yr un sy'n hawlio taliad, mae hefyd yn bwysig eich bod yn gallu cynnig tystiolaeth o'ch gweithgarwch amaethyddol ar y tir dan sylw (e.e. cofnodion symud anifeiliaid, anfonebau am dorri perthi (gwrychoedd), ffensio neu gontractau silwair).

**B6.8** Mae'r rheolau hyn yn gymwys i denantiaethau ysgrifenedig a llafar. Rydym yn sylweddoli bod trefniadau o bob math ar waith, ond bydd o fantais i chi fel hawlydd sicrhau'n fuan bod gennych ddigon o dystiolaeth i ateb unrhyw amheuon ynghylch pwy sy'n gymwys am y BPS, gan y gallai peidio â gwneud arwain at gosbau am orddatgan.

## B7 Tir Comin

**B7.1** Rydych yn cael defnyddio hawliau pori tir comin i gadarnhau a chefnogi'ch hawl i daliad BPS os oes gennych hawl gyfreithiol i roi anifeiliaid i bori ar y tir comin hwnnw. Byddwch yn ffermwr actif, yn cynnal gweithgarwch amaethyddol a rhaid ichi gwrdd â gofynion eraill y BPS os ydych am ddefnyddio tir comin i hawlio BPS. Rhaid cadw at yr amodau Trawsgydymffurfio ar bob tir comin sy'n cael ei ddatgan ar gyfer y BPS.

**B7.2** Os caiff y gofynion Trawsgydymffurfio eu torri unrhyw le ar y tir comin, mae'n bosibl y gallai'r ffermwr neu ffermwyr sy'n gyfrifol am eu torri golli ei daliad neu ran ohono. Nid yw'r BPS yn effeithio ar hawliau cyfreithiol y cominwyr.

**B7.3** Bydd faint o dir comin y bydd Llywodraeth Cymru yn ei neilltuo ar gyfer BPS yn 2024 yn dibynnu ar faint o hawliau pori fydd wedi'u cofrestru i hawlwyr BPS ar y tir comin hwnnw a bydd yr hectarau gaiff eu neilltuo i ffermwyr unigol yn dibynnu ar yr hawliau pori y byddant wedi'u datgan ar eu SAF. Gallai'r arwynebedd porthiant sydd ar gael ar gyfer BPS gael ei leihau os bydd yr arwynebedd na ellir ei bori ar y tir comin yn cynyddu neu gallai gael ei leihau neu ei gynyddu yn ôl faint o dir comin sy'n cael ei ddatgan ar ffurflenni SAF bob blwyddyn.

**B7.4** O dan Orchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2014, gellir rhoi hawliau i bori anifeiliaid ar dir comin ar les neu drwydded (hollti hawliau fel y'i gelwir) am hyd at 5 mlynedd ac i hynny fod yn gyfreithlon, rhaid cadw at reolau llym. Mae'r rheolau hynny'n cynnwys hysbysu'r bobl neu'r sefydliadau canlynol am unrhyw gytundebau lesio neu drwyddedu newydd (gan gynnwys cael hawliau ar fenthyg) o fewn 28 niwrnod:

- yr Awdurdod Cofrestru Tir Comin sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r tir
- perchennog y comin lle ceir defnyddio'r hawliau pori
- ysgrifennydd unrhyw Gymdeithas Gominwyr, Cyngor Cominwyr (o'i sefydlu) neu unrhyw gorff lleol arall sy'n gyfrifol am reoli'r tir comin lle ceir defnyddio'r hawliau pori

- Cyfoeth Naturiol Cymru, os yw'r tir comin lle ceir defnyddio'r hawliau pori yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

**B7.5** Dylech wybod y bydd y tir porthiant fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer yr hawliau pori fydd wedi'u datgan ar eich SAF yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Ni fydd modd gwarantu y bydd y tir porthiant y gwnaeth Llywodraeth Cymru ei neilltuo yn y gorffennol ar gael ichi ddefnyddio Hawliau BPS.

**B7.6** Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych ddigon o dir i allu cefnogi'ch ceisiadau/hawliau BPS.

## B8 Cyd-ddefnyddio tir

**B8.1** Os bydd dau ffermwr neu fwy yn cyd-bori tir nad yw'n dir comin (a heb gytundeb ffermio cyfran), yna caiff y ddau nodi'r cae yn yr adran Data Caeau/Parseli Tir ar eu SAF a hawlio ar ran boradwy benodol o'r cae sydd ar gael iddynt (h.y. y mae ganddynt yr hawl i'w defnyddio). Mae'n bwysig bod y ddau gais yn datgan arwynebedd cyfan y cae rhyngddynt h.y. gan gynnwys tir cymwys ac anghymwys, ond rhaid gofalu nad yw cyfanswm yr arwynebedd sy'n cael ei ddatgan gan bob porwr yn fwy na chyfanswm arwynebedd y cae gan y byddai hynny'n arafu proses dilysu'r cais a gallai arwain at gosbau am orddatgan. Mae'n bwysig felly bod ffermwyr sy'n cyd-bori tir nad yw'n dir comin yn gofalu nad ydynt yn cyflwyno data anghywir na data sy'n croesddweud.

**Enghraifft:** mae cae 20 hectar o faint yn cael ei rannu rhwng dau ffermwr. Bydd y ddau ffermwr yn datgan eu cyfran o'r cae ar un llinell o'i SAF (os nad oes tir anghymwys). Os oes tir anghymwys, rhaid i'r naill ffermwr neu'r llall ei ddatgan neu gallent ei ddatgan rhyngddynt.

## B9 Ffermwyr cyfran

**B9.1** Os oes gan ddau ffermwr neu fwy gytundeb ffermio cyfran, dim ond un fydd yn cael hawlio BPS. Rhaid cynnwys yr holl dir sydd o dan y cytundeb ar SAF y ffermwr sy'n hawlio'r BPS a rhaid i'r hawliau sy'n cael eu defnyddio fod yn eiddo iddo fe/hi. Dim ond y ffermwr sydd â hawliau'r cytundeb ar (15 Mai) sy'n cael eu defnyddio i hawlio taliad.

**B9.2** Y ffermwr sy'n hawlio taliad sy'n gyfrifol am rannu'r taliad (neu am ofyn am ad-daliad). Os oes gan aelodau eraill y cytundeb ffermio cyfran dir nad yw'n rhan o'r cytundeb, dylent gyflwyno'u SAF eu hunain ar gyfer y tir hwnnw.

**B9.3** Dylai pob aelod o'r cytundeb ystyried yn ofalus sut mae'r busnes yn cael ei drefnu i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â rheolau'r Cynllun. Efallai y dylech ofyn am gyngor arbenigwr ar hyn, yn enwedig os cafodd y cytundeb ei wneud sawl blwyddyn yn ôl.

## B10 Dau yn defnyddio'r un tir – tir sy'n cael ei hawlio gan ddau ffermwr neu fwy o dan gynlluniau gwahanol

**B10.1** Er mwyn bodloni gofynion Cynllun Buddsoddi Gwledig a/neu Gynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig rhaid i ffermwr ddarparu tystiolaeth bod ganddo reolaeth lwyr dros y tir y mae'n ei ymrwymo i'r cynllun. Os yw un ffermwr wedi datgan y tir ar

gyfer y BPS, ni fydd ffermwr arall yn gallu ymrwymo'r tir hwnnw i gontract cynllun arall. Byddai hyn yn golygu bod dau yn defnyddio'r un tir.

**B10.2** Os oes anghydfod, gyda mwy nag un ffermwr yn hawlio bod ganddo reolaeth lwyr ar yr un darn o dir yr un pryd, ni chaiff y naill na'r llall daliad nes y cadarnheir pwy sy'n gymwys. Dyma fydd y drefn os bydd y naill ffermwr e.e. yn hawlio Cynllun Cynefin Cymrua'r llall yn hawlio'r BPS.

**B10.3** Os gwelwn fod ffermwyr wedi hawlio ar yr un tir, bydd gofyn iddyn nhw gadarnhau sut mae trefniadau eu busnes yn caniatáu i ddau fodloni'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun.

**B10.4** Ac eithrio o dan amgylchiadau prin, bydd cosbau'n debygol o gael eu rhoi ar naill ai'ch taliadau BPS neu'ch taliadau Cynllun Buddsoddi Gweldig neu Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig os byddwch yn cyflwyno SAF 2024 ar gam gan ddatgan bod gennych dir ar gael ichi ei ddefnyddio ar 15 Mai 2024.

## B11 Anghydfodau ynghylch pwy sy'n berchen ac yn meddiannu'r tir

**B11.1** Nid yw Llywodraeth Cymru'n gallu dyfarnu ynghylch pwy sy'n berchen y tir a phwy sy'n ei feddiannu, yn enwedig os ydy'r ddau barti'n cyflwyno tystiolaeth i gefnogi eu hawliad. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fydd y naill barti na'r llall yn cael taliad, gan fod yn rhaid dangos bod SAF yn ddilys i gael gwneud taliad.

## B12 Tir sy'n gymwys am y BPS

**B12.1** Rhaid ichi hawlio ar 5 hectar o leiaf o dir cymwys - dyma'r arwynebedd lleiaf felly y gallwch hawlio a derbyn taliadau'r BPS arno yn 2024. Arwynebedd cymwys lleiaf parsel o dir yw 0.10 hectar.

**B12.2** Ar gyfer y BPS, hectar cymwys yw unrhyw dir amaethyddol yn y daliad sy'n borfa barhaol, yn dir âr neu'n dir o dan gnydau parhaol sy'n cael ei ddefnyddio i gynnal gweithgarwch amaethyddol neu cyn belled â bod y tir yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gynnal gweithgareddau amaethyddol arno ym mlwyddyn berthnasol y cynllun, gall peth ohono gael ei ddefnyddio hefyd i gynnal gweithgareddau anamaethyddol sydd wedi'u rhestru ym mharagraff B21 y llyfryn hwn. Mae hynny'n cynnwys hefyd, o dan rai amgylchiadau, beth tir y rhoddwyd y gorau i gynhyrchu arno neu sydd wedi'i goedwigo o dan Gynllun Buddsoddi Gwledig, Cynlluniau Creu Coetir DG neu gytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru (darllenwch baragraff B20 y llyfryn hwn).

**B12.3** Bydd o leiaf 5 hectar o dir cymwys ar gael i chi ar 15 Mai 2024 os ydych am geisio am Hawliau BPS a hawlio taliad BPS.

**B12.4** Os na fyddwch wedi defnyddio o leiaf 5 o hawliau BPS bob blwyddyn, ni fyddwch wedi defnyddio'ch hawliau, ni chewch daliad ac efallai y cymerwn eich Hawliau BPS oddi arnoch a throsglwyddo'u gwerth yn ôl i'r Gronfa Genedlaethol (gweler paragraff B34 yn y llyfryn hwn).

## B13 Mathau o Dir sy'n Gymwys am y BPS
### Tir pori parhaol

**B13.1** Tir pori parhaol yw tir sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu porfa neu borthiant glas, boed hwnnw'n dyfiant sydd wedi aildyfu'n naturiol neu'n dyfiant sydd wedi'i hau. Ni fydd wedi bod yn rhan o gylchdro cnydau'r daliad am bum mlynedd neu fwy; gall gynnwys rhywogaethau eraill fel llwyni a/neu goed y gellir eu pori cyn belled ag mai'r borfa neu'r porthiant glas arall yw'r brif dyfiant o hyd. Hefyd, gall gynnwys tir y gellir ei bori lle mae'n hen arfer lleol nad porfa a phorthiant glas arall yn draddodiadol yw'r prif dyfiant mewn ardaloedd pori.

**B13.2** Mae porfa neu borthiant glas yn golygu pob planhigyn glas sydd yn draddodiadol yn tyfu ar dir pori naturiol neu sydd fel arfer yn cael ei gynnwys mewn cymysgedd hadau i'w hau ar dir pori neu ddôl, boed ar gyfer ei bori gan anifeiliaid pori neu beidio e.e. meillion neu ffawlys (sainfoin).

**B13.3** Yng Nghymru, mae porfa barhaol yn cynnwys hefyd fannau sydd gan fwyaf o dan gorlwyni brodorol gan gynnwys y rheini o deulu'r Ericaceae (grug) a'r rhywogaeth Ulex gallii (eithin mân) a/neu rywogaethau brodorol y teulu Juncaceae (brwyn) a Cyperaceae (hesg) ac y gellir eu pori.

**B13.4** Bydd tir sydd wedi bod o dan borfa ers 15 Mai 2019 heb fod yn rhan o gylchdro cnydau, yn troi'n borfa barhaol ar 15 Mai 2024.

**B13.5** Bydd tir sydd wedi'i ail-hau â phorfa neu borthiant glas arall o fewn cyfnod o bum mlynedd yn dal i gyfrif fel tir pori parhaol. Fodd bynnag, bydd tir pori parhaol sydd wedi'i ail-hau'n borfa dros dro ar ôl cnwd 'rhwng cnydau' fel sofl maip yn y pum mlynedd diwethaf, yn cael ei ystyried yn dir âr.

**B13.6** Mae'r codau cnydau canlynol yn cael eu hystyried yn borfa barhaol:

- BG1 – Lludanddail – pori
- CG1 – Conwydd – pori
- GR2 – Porfa (porfa barhaol 5 oed neu fwy)
- GR8 – Porfa (parhaol – wedi'i ail – hau yn y 12 mis diwethaf)
- GT1 – Traciau pori
- HE7 – Gweundir (pori)
- HE9 – Grug
- SD1 – Twyni Tywod
- SM2 – Morfa heli (pori).

## B14 Tir âr

**B14.1** Ystyr tir âr yw:

- tir sy’n cael ei drin i dyfu cnydau – gan gynnwys tir ar gyfer cnydau combein, cnydau sy’n cael eu tyfu am ffibr, gwreiddgnydau, cnydau porthi anifeiliaid fel indrawn porthiant neu rêp porthiant, llysiau maes, blodau wedi’u torri a bylbiau a ffrwythau meddal (ond nid cnydau parhaol*).  Cynhwysir cnydau a dyfir mewn tai gwydr neu o dan orchudd ar bridd neu borfa
- tir sydd wedi’i hau â chodlysiau/porthiant glas pur (dim cymysgeddau o hadau ar gyfer tir pori neu ddôl) fel alffalffa neu feillion
- porfa dros dro (gan gynnwys porthiant glas), sef tir a fu’n rhan o gylchdro cnydau’r fferm ac a fu o dan borfa neu borthiant glas am lai na phum mlynedd. Porthiant glas yw’r planhigion traddodiadol a dyfir ar borfeydd naturiol neu a gynhwysir fel arfer mewn cymysgeddau hadau ar gyfer tir pori neu ddolydd, gan gynnwys planhigion fel liwsern, ffawlys, pupys porthiant a meillion
- tir sydd ar gael ar gyfer cynhyrchu cnydau arno, ond sydd yn awr yn wyndwn. Gwyndwn yw tir heb gnwd nad yw chwaith yn cael ei bori (hynny yw, nid oes cnwd parhaol na phorfa barhaol arno).  Rhaid ei gadw mewn cyflwr addas ar gyfer ei bori neu ei drin.

*Nid yw cnydau parhaol yn cael eu hystyried yn dir âr, ond maen nhw’n gymwys am BPS.

## B15 Cnydau Parhaol

**B15.1** Cnydau parhaol yw cnydau, heblaw am borfa barhaol, nad ydynt yn rhan o gylchdro, sy’n tyfu am bum mlynedd neu fwy ac sy’n cael eu cynaeafu flwyddyn ar ôl blwyddyn.  Maent yn cynnwys meithrinfeydd a Choedlannau Cylchdro Byr.

**B15.2** Mae meithrinfeydd yn golygu tir lle mae’r planhigion prennaidd ifanc canlynol yn cael eu tyfu yn yr awyr agored er mwyn eu trawsblannu’n ddiweddarach.  Maent yn cynnwys:

- meithrinfeydd gwreiddgyff a chyffion gwinwydd
- meithrinfeydd coed ffrwythau ac aeron
- meithrinfeydd coed addurnol
- meithrinfeydd coed coedwig heb gynnwys y rheini sy’n cael eu tyfu o fewn coedlannau i’w plannu ar y daliad
- meithrinfeydd coed a llwyni i’w plannu mewn gerddi, parciau, ar ymyl ffyrdd ac ar gloddiau (e.e. coed perthi, coed rhosod a llwyni addurnol eraill, coed conwydd addurnol) gan gynnwys gwreiddgyff a glasbrennau.

**B15.3** Coedlan Cylchdro Byr yw coedlan sydd wedi’i phlannu â choed i gynhyrchu cnydau pren lluosflwydd lle mae’r gwreiddgyff a’r boncyffion yn cael eu gadael yn y

pridd ar ôl cynaeafu'r pren iddynt gael ailegino yn y tymor canlynol a lle mae'r cylch cynaeafu hiraf yn 20 mlynedd:

- Gwernen (Alnus spp)
- Bedwen Arian (Betula pendula)
- Collen (Corylus avellana)
- Onnen (Fraxinus excelsior)
- Pisgwydden (Tilia cordata)
- Castanwydden Bêr (Castanea sativa)
- Masarnen (Acer pseudoplatanus)
- Helygen (Salix spp)
- Poplysen (Populus spp)

**B15.4** Bydd angen ichi ddangos tystiolaeth yn yr archwiliad neu'r apêl eich bod yn bondocio'ch coed. Gallai prawf gwerthu brofi'ch bod yn gymwys.

## B16 Tir â Choed neu Nodweddion Anghymwys eraill

**B16.1** Ar gyfer pob parsel tir sy'n cynnwys coed neu nodweddion anghymwys eraill, rhaid tynnu'r arwynebeddau canlynol o'r arwynebedd cymwys:

- pethau a wnaed gan ddyn (e.e. adeiladau, wynebau caled, ffyrdd a thraciau nad ydynt yn cael eu pori) a phyllau dŵr, afonydd a nentydd anghymwys sy'n 100m² neu fwy
- darnau di-dor o graig a sgri sy'n 100m² neu fwy
- darnau di-dor o brysgwydd a rhedyn sy'n 100m² neu fwy
- clystyrau o goed sy'n 100m² neu fwy.

**B16.2** Ar ôl tynnu'r arwynebeddau hyn, rhaid ichi hefyd nodi unrhyw nodweddion gwasgaredig anghymwys, h.y. sgri a chraig, prysgwydd a rhedyn, a thynnu arwynebedd sy'n eu cynrychioli.

**B16.3** Ar ôl tynnu arwynebedd y nodweddion gwasgaredig anghymwys, bydd angen ichi asesu faint o goed gwasgaredig sydd yn y parsel sy'n weddill. Os oes mwy na 100 o goed yr hectar, bydd y parsel tir cyfan yn anghymwys. Os oes 100 neu lai o goed yr hectar, byddwch yn tynnu arwynebedd i gynrychioli boncyffion y coed.

**B16.4** Mae coed mewn perllan a choed ffrwythau gwasgaredig yn cael eu hystyried yn gymwys am BPS gan eu bod wedi'u cynnwys yn y diffiniad o Gnwd Parhaol. Rhaid ichi roi tystiolaeth i archwilwyr RPW fod y coed yn cael eu defnyddio i gynhyrchu bwyd; gallai hynny gynnwys derbynebau gwerthu. O beidio â bodloni'r RPW bod y coed yn cael eu defnyddio i gynhyrchu bwyd, gallai gosbi'ch hawliad neu'ch gwahardd o'r cynllun.

**B16.5 I** ddeall sut i asesu'r arwynebeddau hyn, darllenwch Atodiad 1 y llyfryn hwn.

## B17 Nodweddion y Dirwedd sy'n cael eu diogelu o dan Drawsgydymffurfio

**B17.1** Mae nodweddion canlynol y dirwedd yn cael eu diogelu o dan amod Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da 7 (GAEC 7) Trawsgydymffurfio ac felly maent yn gymwys am daliad BPS. Ni fydd angen tynnu arwynebedd y nodweddion hyn o'r arwynebedd cymwys mewn parseli tir:

- perthi (gwrychoedd) a rhimynnau o goed
- ffosydd
- waliau cerrig traddodiadol
- cloddiau cerrig
- ffensys llechi
- Henebion Rhestredig
- pyllau dŵr naturiol neu byllau oedd wedi'u creu o dan Gynllun amaeth-Amgylcheddol blaenorol Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru yr UE – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020 ag iddynt arwynebedd o hyd at 0.10 hectar.
- coed sydd wedi'u diogelu gan Orchymyn Cadw Coed
- parthau 1 metr nad ydynt yn cael eu trin
- lleiniau clustogi o 2 fetr
- Porfa Barhaol Amgylcheddol Sensitif (PBAS).

**B17.2** Os ydych chi'n hawlio taliad o dan y BPS ar gyfer Coed sy'n cael eu diogelu gan Orchymyn Cadw Coed, bydd gofyn ichi ddangos tystiolaeth ategol i gadarnhau bod y Gorchymyn Cadw Coed yn dal mewn grym. I'r perwyl hwn, bydd angen ichi gysylltu â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol i gael naill ai copi o'r Gorchymyn Cadw Coed neu lythyr sy'n dangos bod gorchymyn yn bod i warchod y coed dan sylw. **Pwysig:** rhaid i'r dystiolaeth ategol ein cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2024. Ni chaiff unrhyw daliad (gan gynnwys Rhagdaliad BPS) ei wneud tan y bydd tystiolaeth wedi dod i law. Gwrthodir tystiolaeth ategol sy'n cyrraedd ar ôl 31 Rhagfyr 2024.

## B18 Cnydau amaethyddol nad ydynt yn cael eu defnyddio at bwrpas amaethyddol

**B18.1** Mae tir o dan gnydau amaethyddol nad ydynt yn cael eu defnyddio at bwrpas amaethyddol, e.e. i'w rhoi mewn treulydd anaerobig, yn gymwys o hyd am y BPS.

## B19 Amodau arbennig ar gyfer tir sy’n cael ei ddefnyddio i hyfforddi milwyr

**B19.1** Mewn rhai achosion, bydd tir amaethyddol cymwys yn cael ei ddefnyddio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn at bwrpas hyfforddiant milwrol. Ystyrir bod hyn yn fater er budd y wlad a bydd yn cael ei ganiatáu heb effeithio ar eich gallu i hawlio BPS. Bydd yn dal gofyn cadw at y gofynion Trawsgydymffurfio.

## B20 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig, Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig neu o dan gytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru

**B20.1** Gellir defnyddio tir amaethyddol cymwys sydd wedi'i goedwigo o dan Gynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig (Creu Coetir Glastir) neu gytundeb creu coetir Cynllun Buddsoddi Gwledig (Grant Creu Coetir neu Grantiau Bach – Creu Coetir) gan y ffermwr yn y cynllun plannu coetir i actifadu Hawliadau'r BPS yn 2024 dim ond os defnyddiwyd y tir hwnnw i ysgogi hawliau talu SPS yn 2008.

**B20.2** Os oes amod o dan gytundeb rheoli sydd wedi’i wneud â Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn rhoi’r Gyfarwyddeb Cynefinoedd neu’r Gyfarwyddeb Adar ar waith, sy’n golygu bod tir amaethyddol cymwys bellach yn anghymwys, caiff y ffermwr ddefnyddio’r tir hwnnw i gefnogi ei Hawliau BPS yn 2024 os cafodd y tir hwnnw ei ddefnyddio i gefnogi Hawliau SPS yn 2008.

**B20.3** Os bydd y cytundeb rheoli cymwys yn dod i ben, bydd yn rhaid i’r tir fodloni gofynion y BPS os ydych am ei ddefnyddio i gefnogi Hawliau BPS a rhaid ichi fynd yn ôl i ddefnyddio’r cod cnydau / defnyddio tir priodol. Gweler Atodiad 2 y Llyfryn hwn am restr o godau cnydau a defnyddio tir.

**B20.4** Os nad yw’r tir yn bodloni gofynion y BPS, ond eich bod wedi’i ddatgan er mwyn cefnogi Hawliau BPS, cewch eich cosbi am orddatgan.

**B20.5** Rhaid rheoli tir sy’n gymwys o dan y darpariaethau hyn yn unol â’r rheolau Trawsgydymffurfio perthnasol.

**B20.6** Darllenwch Adran C y llyfryn hwn am ragor o fanylion y Cynlluniau Buddsoddi Gwledig perthnasol.

**B20.7** Darllenwch Adran D y llyfryn hwn am fwy o wybodaeth am Gynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig.

## B21 Tir sydd ddim yn gymwys am y BPS

### Tir anamaethyddol at bwrpas y BPS

**B21.1** Os ydych yn ansicr a yw’ch tir yn gymwys, holwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

**B21.2** Nid yw’r canlynol yn dir amaethyddol: gerddi, parciau hamdden, tir comin mewn trefi, gerddi swolegol, pyllau dŵr anghymwys, adeiladau, wynebau caled, peilonau wedi’u ffensio a thir â mwy na 100 o goed yr hectar, prysgwydd, rhedyn,

clystyrau o goed (gweler Atodiad 1 y llyfryn hwn). Nid ydynt felly'n gymwys am y BPS. Er hynny, rhaid ichi ddatgan y tiroedd hyn ar eich SAF a bydd dal gofyn ichi gadw at y gofynion Trawsgydymffurfio ar y tiroedd hyn os ydynt yn cael eu defnyddio at bwrpasau amaethyddol.

## B22 Tir y rhoddir gorau i gynhyrchu arno oherwydd gwaith cwmnïau trydan, dŵr a nwy

**B22.1** Os ydych yn cael eich gorfodi gan gorff sydd â phwerau statudol i roi'r gorau i gynhyrchu ar dir, er enghraifft gan un o'r cyfleustodau i osod pibell, fe all fod yn anodd ichi gwrdd â'r amodau ar gyfer cael Hawliau BPS a hawlio taliad ar eich Hawliau BPS.

**B22.2** Os ydych wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu am gyfnod ac felly'n methu â bodloni'r amodau ar gyfer cael Hawliau BPS neu daliad, efallai y gellid ystyried bod Force Majeure wedi effeithio arnoch. Cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid gan esbonio'ch sefyllfa er mwyn iddi allu ei hystyried.

**B22.3** Os ydych wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu'n barhaol ac felly'n methu â bodloni'r amodau ar gyfer hawlio taliad BPS, gan gynnwys gorfod cadw'r tir yn unol â gofynion Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr ofynnol, dylech wneud cais i'r cwmni cyfleustodau neu'r asiantaeth statudol am iawndal.

## B23 Gweithgareddau anamaethyddol ar dir BPS

**B23.1** Os ydych yn hawlio BPS ac am gynnal gweithgareddau anamaethyddol, rydym yn eich cynghori i gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Nid yw'r categorïau isod yn gyflawn ond maent yn rhoi syniad o'r math o weithgareddau sy'n perthyn i bob categori.

**B23.2** Categori 1 - Gweithgareddau a ganiateir heb gyfyngiadau:

- pysgota
- cystadlaethau plygu perthi, cystadlaethau aredig lleol ac arddangosfeydd trin tir os ydynt yn gyson â rheolau GAEC cymwys (ond nid digwyddiadau lle byddai yno stondinau gwerthu - byddai'r rheini'n perthyn i Gategori 2)
- teithiau natur gan ysgolion a phrifysgolion ac ymweliadau fferm
- merlota ar hyd llwybrau ceffyl*
- beicio ar hyd llwybrau neu lwybrau ceffyl penodol*
- cerdded*
- gwylio adar
- saethu (cig gwyllt)
- hela ceirw
- hela gydag abwyd
- paragleidio

- barcuta.

* Byddai llwybrau neu lwybrau ceffylau ag wyneb arnynt yn cael eu hystyried yn dir anghymwys p'run bynnag.

**B23.3** Categori 2 - Gweithgareddau hyd at derfyn o 28 diwrnod:

- saethu (colomennod clai)
- arwerthiannau cist ceir
- gwyliau a digwyddiadau
- ffeiriau a sioeau gwledig
- ocsiynau ac arwerthiannau fferm
- gweithgareddau gyda cheffylau (heblaw'r rheini a ddisgrifir yng Nghategori 1)
- balwnio
- parcio ceir (p'un a yw'n gysylltiedig ag un o'r gweithgareddau a restrir neu beidio)
- gwersylloedd Sgowtiaid a Geidiaid a'u tebyg
- safleoedd carafanau a gwersylla (ar gyfer cyfnodau o 28 diwrnod neu fwy, ni ddylid defnyddio'r tir hwnnw i gefnogi cais.  Nid oes raid iddo effeithio ar gae cyfan)
- lleoliadau teledu a ffilm
- chwaraeon moduro.

**B23.4** Categori 3 - Gweithgareddau y byddai'n amhosibl eu hystyried yn weithgareddau amaethyddol ac sydd felly'n anghymwys.  Lleoliadau felly sydd â'r prif bwrpas o gynnal gweithgareddau hamdden neu weithgareddau anamaethyddol eraill arnynt, fel cyfleusterau chwaraeon parhaol, cyrsiau carlamu, paneli solar a meysydd awyr.

## B24 Sut mae'r cyfyngiadau'n gweithio

**B24.1** Ym mhob achos, bydd y cyfyngiadau'n para am y flwyddyn galendr.

**B24.2** O ran y cyfyngiadau ar nifer y diwrnodau y gellir cynnal gweithgaredd anamaethyddol arnynt, bydd rhan o ddiwrnod yn cyfrif fel diwrnod llawn.  Os ydych yn cynnal gweithgareddau anamaethyddol, dylech gyfrif hefyd y diwrnodau y mae'r tir yn cael ei gadw neu ei baratoi ar gyfer y gweithgaredd, nid y diwrnodau pan fydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal yn unig.  Os eir dros y terfyn, yr arwynebedd yr effeithir arno yn hytrach na'r daliad cyfan neu, fel ag sy'n briodol, y cae cyfan, fydd yn cael ei ystyried yn anghymwys.  Cynghorion at bwrpas y BPS yn unig yw'r rhain.  Gallai fod cyfyngiadau eraill e.e. cynllunio.

**B24.3** Cofiwch y bydd gofyn ichi gadw at amodau Trawsgydymffurfio ar eich holl dir amaethyddol gydol y flwyddyn galendr.

## B25 Tir â phaneli solar

**B25.1** Ni fydd caeau â phaneli solar arnynt yn gymwys am y BPS. Mae hyn yn cynnwys y tir sydd rhwng, o dan ac o gwmpas y paneli, hyd yn oed os yw'n cael ei bori, neu os yw ar gael i'w bori. Nid yw'n bosibl yn ein barn ni gan ystyried mai amaethyddol yw prif bwrpas y tir hwn o dan reolau'r BPS.

**B25.2** Os ceir y paneli solar yn un rhan yn unig o'r cae (e.e. mewn cornel neu mewn un pen) a'ch bod am hawlio taliad ar weddill y tir, bydd yn rhaid ichi ffensio'r tir o gwmpas y paneli i greu 2 gae ar wahân.

## B26 Rheolau Arbennig ar gyfer Cywarch

**Cyflwyniad**

**B26.1** Rhaid ichi ddatgan ar eich SAF unrhyw dir sydd gennych sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu cywarch, ar gyfer gwneud ffeibr neu at bwrpas arall. Gellir defnyddio'r tir hwnnw i gefnogi'ch cais am BPS.

## B27 Trwydded y Swyddfa Gartref

**B27.1** Os ydych yn bwriadu tyfu cywarch, rhaid gofyn i'r Swyddfa Gartref am drwydded cyn hau'r cywarch. Mae'n drosedd tyfu cywarch ym Mhrydain at unrhyw bwrpas heb drwydded. Oni bai'ch bod wedi gwneud trefniadau gwahanol gyda'r Swyddfa Gartref, dylech wneud cais am drwydded i: Hemp Growing Licence.

Mae canllaw ymgeisio ar gael i'ch helpu i lenwi'r cais ar gael ar-lein yn: Industrial hemp: licensing guidance.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: Controlled drugs licences fees and returns.

neu cysylltwch â:

Home Drugs and Firearms Licensing Unit

Ffôn: 0300 105 0248
drwy e-bostio nhw: DFLU.dom@homeoffice.gov.uk

**B27.2** Dylech wneud cais am drwydded cyn gynted ag y medrwch ar ôl penderfynu'ch bod am dyfu cywarch. Nid yw'r Swyddfa Gartref yn rhoi trwyddedau i bawb yn ddiwahân. Wrth ystyried pob cais, bydd yn pwyso a mesur pethau fel cefndir yr ymgeisydd, pwrpas y cywarch a lleoliad y caeau gan gynnwys manylion yr Arolwg Ordnans. Bydd yn rhaid cael tystiolaeth bod gennych Gontract i werthu'r cywarch i brosesydd sydd wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref.

## B28 Labeli had cywarch

**B28.1** Os ydych yn tyfu cywarch, rhaid defnyddio had ardystiedig un o'r mathau cymwys o gywarch. Rhaid anfon y labeli had swyddogol, sy'n cadarnhau'r math o gywarch, at Lywodraeth Cymru gyda'r SAF. **Rhaid** ichi gyflwyno'r holl dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer hyn erbyn 15 Mai 2024 fan hwyraf. Os byddwch yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar ôl 15 Mai 2024 ond erbyn 10 Mehefin, byddwch yn cael

eich cosbi am gyflwyno'r hawliad yn hwyr. Ni fydd tystiolaeth ysgrifenedig sy'n cael ei chyflwyno ar ôl 10 Mehefin yn cael ei hystyried.

**B28.2** Os byddwch yn hau ar ôl 15 Mai, rhaid datgan y cnwd ar y SAF yn yr adran Data Caeau/Parseli Tir yn y golofn Ail Gnwd. Rhaid cyflwyno labeli'r had cyn 30 Mehefin.

**B28.3** Os na fydd y gwaith prosesu yn cael ei wneud neu os na fyddwch wedi cadw at y rheolau arbennig ar gyfer cywarch, gallech gael eich cosbi'n ariannol am beidio â chadw at yr amodau ar gyfer hawlio'r BPS.

## B29 Samplo a phrofi cywarch

**B29.1** Rhaid i'r Deyrnas Unedig samplo o leiaf 20% o gyfanswm yr arwynebedd o gywarch sy'n cael ei dyfu i sicrhau bod lefel tetrahydrocannabinol (THC) y cnwd o dan y lefel a bennwyd. Rhaid ichi felly, ar gyfer pob math o gywarch rydych yn ei hau, rannu pob cae yn eich cais yn dair a chadw o leiaf 4,000 o blanhigion ym mhob rhan, am o leiaf 10 niwrnod ar ôl i'r planhigion flodeuo, rhag ofn y bydd angen cymryd sampl.

**B29.2** Rhaid ichi beidio â chynaeafu'r rhannau hyn tan y bydd y gwaith samplo wedi'i wneud neu tan y byddwch wedi cael llythyr i gadarnhau na fydd angen cynnal gwaith samplo.

## B30 Y Gronfa Genedlaethol

**B30.1** Y Gronfa Genedlaethol yw'r enw a roddir i gronfa o arian a gymerir o'r holl arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer BPS yng Nghymru.

## B31 Yn gymwys am y Gronfa Genedlaethol

**B31.1** Mae dau gategori o ffermwr yn gymwys am Hawliau BPS newydd:

- Newydd-ddyfodiaid
- Ffermwr Ifainc.

## B32 Pwy sy'n gymwys?

**B32.1** Byddwch yn Ffermwr Actif sy'n cynnal 'gweithgarwch amaethyddol' a bydd gennych o leiaf 5 hectar o dir cymwys i gefnogi'ch cais am Hawliau BPS yn 2024 a'u defnyddio.

| Categori o'r Gronfa Genedlaethol | Amodau i fod yn gymwys | Amodau i fod yn gymwys |
|---|---|---|
| **Newydd-ddyfodiad** | Heb gynnal gweithgarwch amaethyddol yn eich enw eich hun /ar eich menter eich hun yn y 5 mlynedd cyn dechrau'ch | Byddwch wedi dechrau'ch gweithgarwch amaethyddol yn 2022 neu wedi hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithgarwch ffermio presennol. | |
| **Ffermwr Ifanc** | Yn 40 oed neu lai yn 2024. | Wedi sefydlu'ch hun am y tro cyntaf fel pennaeth daliad neu reolwr partneriaeth/Person Cyfreithiol (e.e. Cwmni Cyfyngedig) ar 1 Ionawr 2019 neu wedi hynny. Gall hynny olygu sefydlu busnes newydd neu gymryd busnes sy'n bod eisoes. Gallai Cyfarwyddwr cwmni cyfreithiol fod yn gymwys fel partneriaeth ond rhaid bod gan y 'Ffermwr Ifanc' gyfalaf yn y busnes ac ni chaiff aelod arall o'r bartneriaeth roi feto ar ei benderfyniadau. |

## B33 Sut i wneud cais am Hawliau BPS

**B33.1 Rhaid** llenwi SAF 2024 erbyn 15 Mai 2024 i ofyn am ddyraniad o Hawliau BPS. Rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod yn gymwys am Hawliau BPS erbyn 31 Rhagfyr 2024.

## B34 O ble mae'r Gronfa Genedlaethol yn cael ei hawliau hithau?

**B34.1** Bydd y Gronfa Genedlaethol yn cael ei hawliau o sawl ffynhonnell bob blwyddyn:

- unrhyw hawliau BPS sydd heb gael eu defnyddio mewn dwy flynedd o'r bron. Gallai hynny fod oherwydd: dim digon o dir i ddefnyddio'r holl hawliau; methu'r prawf gweithgarwch amaethyddol; heb ddatgan 5 hectar o dir cymwys; neu os gwelir bod ffermwr yn osgoi'r 'cap'
- unrhyw hawliau BPS sydd wedi'u dychwelyd o wirfodd
- hawliau BPS sydd wedi'u neilltuo ar gam
- lleihau gwerth yr hawliau BPS sydd eisoes wedi'u neilltuo i sicrhau bod digon o gyllideb i gwrdd â'r galw gan Ffermwyr Ifanc neu newydd-ddyfodiaid sy'n gwneud cais i'r Gronfa Genedlaethol neu ddyfarniad gan Lys.

## B35 Pwy sy'n gymwys am hawliau'r Gronfa Genedlaethol – Categori'r Newydd-ddyfodiaid

**B35.1** Mae'r categori hwn ar gael i unig fasnachwyr, partneriaethau neu Bersonau Cyfreithiol, e.e. Cwmni Cyfyngedig, a **ddechreuodd ffermio yn 2022 neu wedi hynny**.

**B35.2** Os ydych am hawliau fel unig fasnachwr, **ni fyddwch** wedi cynnal gweithgarwch amaethyddol yn eich enw eich hun nac ar eich menter eich hun yn y pum mlynedd cyn dechrau'ch gweithgarwch ffermio presennol.

**B35.3** Os ydych am hawliau fel partneriaeth, **ni fydd yr un** partner wedi cynnal gweithgarwch amaethyddol yn ei enw ei hun nac ar ei fenter ei hun nac fel person sydd â rheolaeth ar e.e. Cwmni Cyfyngedig (h.y. Person Cyfreithiol) yn y pum mlynedd cyn i'r bartneriaeth ddechrau'r gweithgarwch amaethyddol presennol.

**B35.4** Ar gyfer Personau Cyfreithiol, **ni fydd** yr aelod(au) sy'n rheoli wedi cynnal gweithgarwch amaethyddol yn eu henw nac ar eu menter eu hunain nac wedi rheoli Person Cyfreithiol sy'n cynnal gweithgarwch amaethyddol, yn y pum mlynedd cyn i'r Person Cyfreithiol ddechrau'r gweithgarwch amaethyddol.

**B35.5** Nid yw gweithio ar fferm e.e. fel rheolwr fferm neu was fferm yn cael ei ystyried yn weithgarwch amaethyddol.

**B35.6** Byddwch hefyd wedi cyflwyno'ch cais cyntaf am y BPS ddim mwy na 2 flynedd ar ôl y flwyddyn galendr pan ddechreuoch chi'r gweithgarwch amaethyddol presennol.

**B35.7 Rhaid** ichi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau pryd ddechreuoch chi'r gweithgarwch amaethyddol. Gallai fod yn un neu fwy o'r canlynol:

- papur i gadarnhau dyddiad cofrestru'r daliad
- cofrestru gyda Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)/System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid (AMLS)
- cofnodion anifeiliaid
- cofnodion plaladdwyr.

## B36 Faint o hawliau BPS ga' i o'r Gronfa Genedlaethol fel Newydd-ddyfodiad?

**B36.1** Os bydd eich cais i'r Gronfa Genedlaethol yn llwyddiannus a'ch bod wedi cyflwyno SAF 2024 yn gofyn am hawliau, cewch yr un faint o Hawliau BPS â nifer yr hectarau cymwys rydych yn eu datgan ar eich SAF 2024 ac a fydd 'ar gael' ichi eu defnyddio ar 15 Mai 2024.

**B36.2** Pennir eu gwerth yn ôl y gyfradd a delir yn 2024.

**B36.3** Ni chewch hawliau ychwanegol os oes gennych hawliau eisoes o'r Gronfa Genedlaethol.

## B37 Pwy sy'n gymwys am hawliau'r Gronfa Genedlaethol – Categori Ffermwr Ifanc

**B37.1** Mae'r categori hwn ar gael i unig fasnachwyr ac aelodau partneriaethau neu gwmnïau cyfyngedig, sy'n 40 oed neu lai ym mlwyddyn eu cais am y BPS ac a sefydlodd eu hunain am y tro cyntaf fel pennaeth daliad neu reolwr partneriaeth/Person Cyfreithiol (e.e. Cwmni Cyfyngedig) yn y 5 mlynedd cyn cyflwyno'u cais cyntaf am BPS. Gallai hynny olygu sefydlu busnes newydd neu gymryd busnes drosodd.

**B37.2** Yr ifancaf y caiff Ffermwr Ifanc ddod yn bennaeth daliad neu i reoli fel unig fasnachwr neu bartneriaeth yw 18 oed ar yr adeg pan ddaw'n bennaeth daliad neu i reoli partneriaeth.

**B37.3** Yr ifancaf y caiff Ffermwr Ifanc ddod yn bennaeth daliad neu i reoli Person Cyfreithiol e.e. Cwmni Cyfyngedig yw 16 oed ar yr adeg pan ddaw'n bennaeth daliad neu i reoli Person Cyfreithiol.

**B37.4** Os ydych am gael hawliau fel unig fasnachwr, yn ogystal â bod yn 40 oed neu lai ym mlwyddyn eich cais cyntaf am BPS, **rhaid** eich bod wedi sefydlu daliad newydd ac mai chi yw pennaeth y daliad hwnnw.

**B37.5** Os ydych am gael hawliau o dan y categori Ffermwyr Ifanc a'ch bod yn bartneriaeth, rhaid bod y bartneriaeth yn cael ei rheoli gan Ffermw(y)r Ifanc sy'n 40 oed neu lai ym mlwyddyn cyflwyno'r cais cyntaf am BPS. Rhaid bod yr aelod hwnnw'n berchen ar gyfran o'r busnes a bydd ganddo reolaeth wirioneddol a thymor hir ar y bartneriaeth o safbwynt penderfyniadau sy'n ymwneud â'i rheoli, ei buddiannau a'i risgiau ariannol. Gallai'r rheolaeth honno fod yn nwylo un person neu ar y cyd ag aelod arall o'r bartneriaeth (nad oes gofyn i hwnnw fod yn 40 oed neu lai). Lle ceir rheolaeth ar y cyd, rhaid i'r Ffermwr Ifanc allu dangos mai ef/hi sy'n gwneud y penderfyniadau a ddisgrifir uchod. Ni chaiff pobl nad ydynt yn Ffermwyr Ifanc roi feto ar benderfyniad y Ffermwr Ifanc.

**B37.6** Bydd angen i bartneriaethau ddangos tystiolaeth ddogfennol sy'n profi bod y person sy'n 40 oed neu lai yn berchen ar gyfran o'r busnes a bod ganddo reolaeth wirioneddol a thymor hir ar y bartneriaeth, gan gynnwys tystiolaeth na chaiff aelodau eraill y bartneriaeth roi feto ar ei benderfyniadau, yn unol â'r uchod. Os bydd Ffermwr Ifanc yn cymryd drosodd fel pennaeth daliad neu'n dod i reoli partneriaeth sy'n bodoli eisoes, rhaid darparu tystiolaeth ddogfennol sy'n dangos sut y mae'n rheoli'r bartneriaeth. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys dogfen sy'n dangos strwythur y perchenogion neu fod ganddo hawl i'r rhan fwyaf o'r elw. Yn yr achos hwnnw, bydd angen llythyr cyfreithiwr/cyfrifydd arnom i gadarnhau strwythur y bartneriaeth neu sut mae'r elw'n cael ei rannu ymhlith y partneriaid. Os na fydd y dogfennau hyn yn dangos bod y Ffermwr Ifanc yn berchen ar gyfran o'r busnes neu sut na chaiff aelodau eraill roi feto ar benderfyniadau'r Ffermwr Ifanc, caiff y cais ei wrthod.

**B37.7** Ar gyfer Personau Cyfreithiol e.e. Cwmni Cyfyngedig, bydd gofyn fod gan aelod o'r cwmni sy'n 40 oed neu lai ym mlwyddyn cyflwyno'r cais cyntaf am BPS reolaeth wirioneddol ar y cwmni o safbwynt penderfyniadau sy'n ymwneud â'i reoli, ei fuddiannau a'i risgiau ariannol. Os bydd aelodau'r Cwmni Cyfyngedig yn amrywiol eu hoed, **rhaid** fod gan yr aelod sy'n 40 oed neu lai wir reolaeth ar y cwmni, e.e. fel rheolwr gyfarwyddwr. Fel y disgrifir uchod, gallai'r rheolaeth honno fod yn nwylo un person neu ar y cyd ag aelod arall o'r cwmni (nad oes gofyn i hwnnw fod yn 40 oed neu lai).

**B37.8** Bydd Tŷ'r Cwmnïau'n cynnal archwiliadau i weld pwy yw aelodau'r cwmni cyfyngedig. Lle na fydd yr archwiliadau hynny'n esgor ar atebion pendant, efallai y gofynnir am dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cais.

**B37.9** Rhaid darparu tystiolaeth ffotograffig bob tro i brofi dyddiad geni, trwy un o'r canlynol:

- pasbort
- trwydded yrru
- trwydded dryll.

**B37.10** Ym mhob achos, rhaid cyflwyno tystiolaeth ddogfennol i brofi bod y Ffermwr Ifanc yn berchen ar gyfrannau yn y bartneriaeth, yn bennaeth y daliad neu fod ganddo reolaeth ar bartneriaeth/Cwmni Cyfyngedig ac na chaiff aelodau eraill roi feto ar ei benderfyniadau.  Gellid gwneud hynny trwy un o'r dulliau canlynol, er mai'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y dogfennau yr ydych yn eu darparu yn profi heb unrhyw amheuon eich bod yn gymwys:

- Erthyglau Cwmni; llythyr gan gyfrifydd neu gyfreithiwr i gadarnhau cyfansoddiad y bartneriaeth
- cyfrifon banc neu lythyr gan gyfrifydd i gadarnhau sut y rhennir yr elw
- llythyr gan y cyfrifydd i ddangos pwy sy'n berchen ar ba gyfran o'r bartneriaeth
- llythyr gan y banc i gadarnhau pwy sydd â'r awdurdod i lofnodi sieciau
- neu unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall allai fod yn briodol.

**Ar gyfer partneriaeth, byddant yn cynnwys:**

- cytundeb partneriaeth sy'n dangos y partneriaid a chanran eu cyfrannau/pleidlaisiau ac os bu newid, y gwahaniaeth rhyngddo â'r ddogfen bartneriaeth flaenorol gan ddangos y newidiadau i'r ddogfen wreiddiol
- cytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol sy'n dangos cyfrannau'r busnes
- cyfrifon y bartneriaeth os ydyn nhw'n dangos cyfrannau'r busnes
- cyfrifon blynyddol sy'n enwi'r ymgeiswyr a nifer eu cyfrannau/pleidleisiau.

## B38 Faint o hawliau BPS ga' i o'r Gronfa Genedlaethol fel Ffermwr Ifanc?

**B38.1** Os bydd eich cais i'r Gronfa Genedlaethol yn llwyddiannus a'ch bod wedi cyflwyno SAF 2024 sy'n bodloni gofynion y BPS ac yn gofyn am hawliau, cewch yr un faint o hawliau BPS â nifer yr hectarau cymwys rydych yn eu datgan ar eich SAF 2024 ac a fydd 'ar gael' ichi eu defnyddio ar 15 Mai 2024.

**B38.2** Pennir eu gwerth yn ôl y gyfartalog yn 2024.

**B38.3** Ni chewch hawliau ychwanegol os oes gennych hawliau eisoes o'r Gronfa Genedlaethol.

## B39 A fydd modd fy ystyried ar gyfer mwy nag un categori?

**B39.1** Gallwch gael eich ystyried ar gyfer mwy nag un categori cyn belled â'ch bod yn cwblhau'r adrannau perthnasol ar y cais ac yn rhoi'r dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol, ond dim ond o dan un categori y cewch chi hawliau.

## B40 Hawliau o'r Gronfa Genedlaethol

**B40.1** Os ydych am gael hawliau o'r Gronfa Genedlaethol fel newydd-ddyfodiad, **rhaid** llenwi'r adrannau 'Hawlio a Hawliau' a 'Chronfa Genedlaethol y BPS – Newydd-ddyfodiaid' SAF 2024.

**B40.2** Os ydych am gael hawliau o'r Gronfa Genedlaethol fel Ffermwr Ifanc, rhaid llenwi'r adrannau 'Hawlio a Hawliau' a 'Manylion Ffermwr Ifanc y BPS – Y Gronfa Genedlaethol a Thaliad' SAF 2024.

## B41 Rhoi hawliau yn ôl os ydynt wedi'u rhoi ar gam

**B41.1** Os yw ffermwyr wedi cael hawliau ar gam am ba bynnag reswm, bydd yn rhaid iddynt eu rhoi yn ôl i'r Gronfa Genedlaethol.

**B41.2** Os oes gormod o hawliau wedi'u rhoi, bydd yr hawliau dros ben yn cael eu rhoi yn ôl i'r Gronfa Genedlaethol. Os digwyddodd hyn o ganlyniad i gamgymeriad gweinyddol, neu os na allai'r ffermwr fod wedi sylwi ar y camgymeriad, bydd gwerth yr hawliau sy'n weddill yn cael ei addasu.

**B41.3** Os bydd ffermwr yn gwerthu neu'n lesio hawliau y mae wedi'u cael ar gam, bydd disgwyl iddo roi yn ôl nifer yr hawliau a gafodd ar gam. Os na fydd ganddo ddigon o hawliau i'w rhoi yn ôl, y ffermwr fydd wedi prynu neu lesio'r hawliau fydd yn gorfod rhoi'r nifer gofynnol o hawliau yn ôl.

**B41.4** Os byddwn yn gweld, ar ôl neilltuo hawliau BPS, fod gwerth yr hawliau SPS a oedd gennych ar 15 Mai 2014 yn anghywir neu fod gwerth yr hawliau ychwanegol a neilltuwyd o'r Gronfa Genedlaethol yn anghywir, bydd gwerth yr hawliau a oedd wedi'u seilio ar y ffigur uwch yn cael ei gyfrif eto. Byddwn hefyd yn ailgyfrif gwerth yr hawliau sydd wedi'u gwerthu neu eu lesio. Bydd y gwerth dros ben yn mynd yn ôl i'r Gronfa Genedlaethol.

**B41.5** Bydd yn rhaid ad-dalu taliadau sydd wedi'u gwneud mewn blynyddoedd blaenorol ar hawliau sydd wedi cael eu rhoi ar gam.

## B42 Ildio hawliau

**B42.1** Ar ôl neilltuo hawliau i chi, cewch ildio'ch Hawliau BPS i'r Gronfa Genedlaethol ar unrhyw adeg.

## B43 Trosglwyddo hawliau

**B43.1** Gallwch drosglwyddo Hawliau BPS trwy eu gwerthu, eu rhoi fel rhodd neu eu lesio ar gyfer blwyddyn y cynllun 2024 tan ganol nos 15 Mai 2024.

**B43.2** Cewch fwy o wybodaeth trwy ddarllen y llyfryn *'Canllaw Masnachu Hawliau BPS'* sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

**B43.3** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ar bontio o BPS i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. O ganlyniad, bydd cyfnod trosglwyddo hawl y BPS yn cau ar ôl 15 Mai 2024 hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rheolau ynghylch a throsglwwyddo a phrydlesu hawliau ar gyfer blwyddyn cynllun 2025. .

Bydd deiliaid hawliau BPS yn cael eu hysbysu pan fydd cyfnod trosglwyddo hawl y BPS ar gyfer 2025 yn agor a byddant hefyd yn cael eu hysbysu o reolau drosglwyddo a phrydlesu hawliau.

## B44 Rheolau defnyddio hawliau BPS

**B44.1** Mae'ch holl Hawliau BPS gan gynnwys hawliau o'r Gronfa Genedlaethol yn dod o dan y rheol defnyddio 2 flynedd.

**B44.2** Dros unrhyw gyfnod o ddwy flynedd, rhaid ichi ddefnyddio'ch holl Hawliau BPS mewn o leiaf un flwyddyn, felly ni fyddwch yn cael cylchdroi hawliau trwy ddefnyddio rhai ym mlwyddyn 1 a'r gweddill ym mlwyddyn 2. Bydd ffermwr wedi peidio â defnyddio ei hawliau trwy:

- beidio â datgan digon o dir i allu defnyddio'r holl hawliau
- methu'r prawf gweithgarwch amaethyddol
- heb ddatgan 5 hectar o dir cymwys; neu
- os gwelwn ei fod wedi creu amodau artiffisial er mwyn osgoi'r cap.

**B44.3** Os byddwch yn lesio'ch hawliau BPS i ffermwr arall, byddwch yn dibynnu ar y ffermwr hwnnw i gwrdd â'r rheol defnyddio 2 flynedd. Os na fydd hawliau BPS sydd wedi'u lesio'n cael eu defnyddio yn ystod unrhyw gyfnod o ddwy flynedd, byddwch yn eu colli i'r Gronfa Genedlaethol.

**Enghraifft:** mae ffermwr wedi cael 50 o Hawliau BPS ac wedi defnyddio'r 50 yn 2020. Y mae wedyn yn defnyddio 30 ohonynt yn 2021 ac yna'n defnyddio'r 50 cyfan yn 2022. Mae'r ffermwr yn yr enghraifft hon wedi defnyddio'i holl hawliau o leiaf unwaith yn y cyfnod o ddwy flynedd. Ond os bydd yn defnyddio dim ond 40 o hawliau yn 2022, ni fydd wedi defnyddio pob un o'i 50 o hawliau o leiaf unwaith yn cyfnod o ddwy flynedd a chaiff y 10 hawl na fydd wedi'u defnyddio eu cymryd oddi arno a'u rhoi yn ôl i'r Gronfa Genedlaethol.

**B44.4** Yr hawliau isaf eu gwerth (sy'n eiddo i chi neu wedi'u lesio gennych) fydd yn cael eu rhoi yn ôl i'r Gronfa Genedlaethol gyntaf.

**B44.5** Efallai na fydd yn rhaid ichi gadw at y rheol defnyddio dwy flynedd os gallwch brofi ichi (neu'ch busnes) ddioddef oherwydd amgylchiadau eithriadol neu force majeure a'ch bod wedi'ch rhwystro rhag defnyddio'ch hawliau ym mlwyddyn berthnasol y BPS.

## B45 Taliad Ffermwyr Ifanc

**B45.1** Er mwyn cael y taliad, bydd gofyn ichi nodi'ch bod am hawlio'r taliad Ffermwyr Ifanc ar eich SAF.

## B46 Beth yw'r oed ifancaf ar gyfer Taliad y Ffermwr Ifanc?

**B46.1** Yr ifancaf y caiff Ffermwr Ifanc ddod yn bennaeth daliad neu i reoli fel unig fasnachwr neu bartneriaeth yw 18 oed ar yr adeg pan ddaw'n bennaeth daliad neu i reoli Partneriaeth.

**B46.2** Yr ifancaf y caiff Ffermwr Ifanc ddod yn bennaeth daliad neu i reoli Person Cyfreithiol e.e. cwmni cyfyngedig yw 16 oed ar yr adeg pan ddaw'n bennaeth daliad neu i reoli Person Cyfreithiol.

## B47 Pwy sy'n gymwys am Daliad y Ffermwr Ifanc?

**B47.1 Unig fasnachwr:** rhaid ichi fod yn 40 oed neu lai ym mlwyddyn eich hawliad cyntaf am BPS, a **rhaid** ichi fod wedi sefydlu daliad newydd fel pennaeth daliad neu wedi cymryd busnes drosodd fel pennaeth daliad.

**B47.2 Partneriaeth**: rhaid bod y bartneriaeth yn cael ei rheoli gan Ffermwr/wyr Ifanc 40 oed neu lai ym mlwyddyn cyflwyno'r cais cyntaf am y BPS. Bydd yr aelodau hynny o'r bartneriaeth yn berchen ar gyfran o'r busnes a bydd ganddynt reolaeth wirioneddol a thymor hir ar y bartneriaeth o safbwynt gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'i rheoli, ei buddiannau a'i risgiau ariannol. Gallai'r rheolaeth honno fod yn nwylo un person neu ar y cyd ag aelod arall o'r bartneriaeth (nad oes gofyn i hwnnw fod yn 40 oed neu lai). Lle ceir rheolaeth ar y cyd, rhaid i'r Ffermwr Ifanc allu dangos mai ef/hi sy'n gwneud y penderfyniadau a ddisgrifir uchod. Ni chaiff pobl nad ydynt yn Ffermwyr Ifanc roi feto ar benderfyniad y Ffermwr Ifanc. Ni ellir ystyried aelod nad yw'n bartner fod yn bennaeth daliad.

**B47.3 Personau Cyfreithiol e.e. Cwmni Cyfyngedig:** bydd gofyn fod gan gyfranddalwr neu gyfarwyddwr o'r cwmni sy'n 40 oed neu lai ym mlwyddyn cyflwyno'r cais cyntaf am BPS wir reolaeth ar y cwmni o safbwynt penderfyniadau sy'n ymwneud â'i reoli, ei fuddiannau a'i risgiau ariannol. Os bydd aelodau'r Cwmni Cyfyngedig yn amrywiol eu hoed, **rhaid** fod gan yr aelod sy'n 40 oed neu lai wir reolaeth ar y cwmni e.e. fel rheolwr gyfarwyddwr. Fel y disgrifir uchod, gallai'r rheolaeth honno fod yn nwylo un person neu ar y cyd ag aelod arall o'r cwmni (nad oes gofyn i hwnnw fod yn 40 oed neu lai). Ni ellir ystyried staff cyflog nad ydynt yn gyfarwyddwyr fel pennaeth daliad.

**B47.4** Bydd Tŷ'r Cwmnïau'n cynnal archwiliadau i weld pwy yw aelodau'r cwmni cyfyngedig. Lle na fydd yr archwiliadau hynny'n esgor ar atebion pendant, efallai y gofynnir am dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cais.

## B48 Pa dystiolaeth ddogfennol y bydd gofyn imi ei darparu?

**B48.1** Rhaid darparu tystiolaeth ffotograffig bob tro i brofi dyddiad geni, trwy un o'r canlynol: pasbort, trwydded yrru neu drwydded dryll.

**B48.2** Ym mhob achos, rhaid cyflwyno tystiolaeth ddogfennol hefyd i brofi mai'r Ffermwr/Ffermwyr Ifanc yw pennaeth y daliad neu fod ganddo reolaeth ar y bartneriaeth/person cyfreithiol a phryd y dechreuodd y rheolaeth honno, hynny drwy un neu ragor o'r dulliau canlynol: Erthyglau Cwmni; llythyr gan gyfrifydd neu gyfreithiwr i gadarnhau cyfansoddiad y bartneriaeth; cyfrifon banc neu lythyr gan gyfrifydd i gadarnhau sut y rhennir yr elw neu unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall allai fod yn briodol neu y gall RPW ofyn yn rhesymol amdani wrth ystyried eich cais am daliad Ffermwyr Ifanc.

**B48.3** Bydd angen i bartneriaethau ddangos tystiolaeth ddogfennol sy'n profi bod y person sy'n 40 oed neu lai yn berchen ar gyfran o'r busnes a bod ganddo reolaeth wirioneddol a thymor hir ar y busnes, gan gynnwys tystiolaeth na chaiff aelodau eraill y bartneriaeth roi feto ar ei benderfyniadau, yn unol â'r uchod. Os bydd Ffermwr Ifanc yn cymryd drosodd fel pennaeth daliad neu'n dod i reoli partneriaeth sy'n bodoli eisoes, rhaid darparu tystiolaeth ddogfennol sy'n dangos sut y mae'n rheoli'r bartneriaeth. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys dogfen sy'n dangos strwythur y perchenogion neu fod ganddo hawl i'r rhan fwyaf o'r elw. Yn yr achos hwnnw, bydd angen llythyr cyfreithiwr/cyfrifydd arnom i gadarnhau strwythur y bartneriaeth neu sut mae'r elw'n cael ei rannu ymhlith y partneriaid. Os na fydd y dogfennau hyn yn dangos bod y Ffermwr Ifanc yn berchen ar gyfran o'r busnes neu sut na chaiff aelodau eraill roi feto ar benderfyniadau'r Ffermwr Ifanc, caiff y cais ei wrthod.

**B48.4 Rhaid** cyflwyno'r dystiolaeth ddogfennol erbyn 31 Rhagfyr 2024. Ni chaiff unrhyw daliad (gan gynnwys Rhagdaliad BPS) ei wneud tan y bydd tystiolaeth wedi dod i law. Caiff tystiolaeth sy'n cyrraedd ar ôl 31 Rhagfyr 2024 ei gwrthod a chaiff eich hawliad am daliad Ffermwr Ifanc ei wrthod.

## B49 Sut bydd y taliad Ffermwyr Ifanc yn cael ei gyfri?

**B49.1** Bydd y taliad yn 25% o werth un o hawliau BPS Cymru yn 2024, wedi ei luosi â nifer yr hawliau BPS rydych wedi eu defnyddio yn 2024 hyd at 25 hectar.

**B49.2** Gellir talu'r taliad Ffermwyr Ifanc am hyd at bum mlynedd ar ôl i'r busnes hawlio'r taliad Ffermwr Ifanc y tro cyntaf.

**B49.3** Ar gyfer hawlwyr newydd yn 2024, ni ddefnyddir mwyach y blynyddoedd rhwng dod yn bennaeth daliad a chyflwyno'r hawliad cyntaf yn 2024 i gyfrif faint o amser y byddwch yn cael taliad.

## B50 Taliad Ailddosbarthu

**B50.1** Mae Taliad Ailddosbarthu yn cael ei dalu i bob hawlydd sy'n gymwys am daliad BPS. Telir y Taliad Ailddosbarthu ar gyfradd fesul hectar, ar gyfer hyd at uchafswm o 54 hectar.

## B51 Taliadau BPS (yn cynnwys taliadau Ailddosbarthu a Ffermwyr Ifanc)

**B51.1** Yn yr adran hon, mae taliadau BPS yn golygu taliadau sy'n cael eu gwneud o dan y BPS, y taliad Ailddosbarthu a'r taliad Ffermwyr Ifanc (os yw'n gymwys i chi).

**B51.2** Bydd Gweinidogion Cymru yn gosod terfyn ariannol ar gyfanswm taliadau'r BPS bob blwyddyn. Os telir mwy na'r terfyn, bydd yr holl daliadau'n cael eu gostwng at lefel y terfyn ariannol.

**B51.3** Mae'n bosibl y bydd gwerth hawliau'n cynyddubob blwyddyn i adlewyrchu gwerth yr hawliau fydd heb eu hawlio yn 2024 a'r rhannau hynny o gyllideb y Gronfa Genedlaethol na fydd wedi cael ei neilltuo yn 2024. Bydd y cynnydd hwn yng ngwerth yr hawliau yn 2024 yn digwydd yn 2024 yn unig a chaiff ei ailgyfrif bob blwyddyn i adlewyrchu gwerth yr hawliau fydd heb eu hawlio a'r Gronfa Genedlaethol na fydd wedi'i neilltuo yn y flwyddyn honno.

**B51.4** Ein nod fydd talu Rhagdaliad i fyny i 70% o'r amcangyfrif o werth eich hawliad BPS o 14 Hydref 2024. Bydd y taliad hwn yn dibynnu ar gael hawliad BPS cymwys a'r dogfennau ategol angenrheidiol. Mae'n bosibl na fydd modd inni dalu Rhagdaliad BPS i chi, er enghraifft, os bydd anghydfod ynghylch eich tir, bod archwiliad wedi dangos ichi dorri'r rheolau neu bod problem gyda'r profiant.

Byddwn yn talu'r gweddill sy'n ddyledus i chi o 12 Rhagfyr 2024 cyn belled â bod eich hawliad wedi'i ddilysu'n llwyr.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol y cewch Ragdaliad nag y caiff y balans ei dalu'n gynnar i chi yn y cyfnod talu. Gallech gael eich talu unrhyw bryd yn y cyfnod talu, unwaith y bydd yr holl archwiliadau wedi'u gwneud.

**B51.5** Fydd taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol 2024 ond yn cael eu gwneud mewn punnoedd sterling.

**B51.6** Mae'r trefniadau ar gyfer tynnu arian o'r taliadau yn cael eu disgrifio yn Adran G y llyfryn hwn. Bydd gwerth net pob taliad yn cael ei nodi yn y llythyr talu ar RPW Ar-lein pan fyddwch yn cael eich talu. Bydd y llythyrau hynny'n nodi'r holl ostyngiadau.

**B51.7** Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i ddarganfod ceisiadau twyllodrus ac i ddal y rheini sy'n gyfrifol amdanynt. Bydd yn awyddus hefyd i ddal y rheini sydd wedi creu amodau ffug ar gyfer cael taliad. Ni fydd yn talu ymgeisydd oni bai ei fod yn siŵr y tu hwnt i bob amheuaeth resymol fod yr ymgeisydd yn gymwys amdano.

## B52 Sut byddwn ni'n cyfri'r taliadau?

**B52.1** Bydd nifer yr hectarau cymwys sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer BPS yn cael eu lluosi â gwerth yr Hawliau BPS i gyfrif gwerth y taliad BPS bob blwyddyn.

**B52.2** Byddwn yn cyfri'r y taliad Ailddosbarthu a'r taliad Ffermwyr Ifanc yn ôl nifer yr hectarau sy'n cael eu defnyddio i gefnogi Hawliau BPS.

## B53 Capio taliadau mwy

**B53.1** Bydd taliadau BPS yng Nghymru – ond nid taliadau Ffermwyr Ifanc – yn cael eu capio.

**B53.2** Dyma fydd y cyfraddau capio:

| | |
|---|---|
| Hyd at £150,000 | 0% |
| £150,000 i £200,000 | 15% |
| £200,000 i £250,000 | 30% |
| £250,000 i £300,000 | 55% |
| Dros £300,000 | 100% |

**B53.3** Ni fydd cap ar gyfer costau cyflogau.

**B53.4** Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal i wneud yn siŵr na fydd ffermwyr wedi creu amodau artiffisial er mwyn osgoi'r cap. Os gwelwn eich bod wedi rhannu'ch busnes yn artiffisial er mwyn cael mantais, gallech golli'ch taliad.

## B54 Tir mewn mwy nag un wlad

**B54.1** Nid yw'r tir rydych yn ei ffermio yn y DU i gyd yn dod o dan un cais BPS mwyach. Os ydych yn ffermio tir yng Nghymru a bod gennych Hawliau BPS o Gymru, dylech barhau i hawlio ar eich SAF Cymru. Os ydych yn ffermio tir mewn gwlad arall yn y DU, yna rhaid ichi hawlio'r BPS ar ffurflen y wlad honno.

**B54.2** Os ydych yn hawlio BPS 2024 mewn mwy nag un wlad, cewch fwy nag un taliad BPS. Er enghraifft, os ydych yn hawlio BPS yng Nghymru ac yn hawlio BPS yn Lloegr, cyn belled â'ch bod yn bodloni amodau'r ddwy wlad, byddwch yn cael dau daliad BPS ar wahân.

**B54.3** Ni fydd cosbau gweinyddol neu Drawsgydymffurfio yn un o wledydd eraill y DU yn effeithio ar eich hawliad Cymreig.

## B55 Maint yr hawliad lleiaf gan ffermwr sy'n hawlio mewn mwy nag un wlad

**B55.1** Yng Nghymru, rhaid hawlio BPS ar o leiaf 5 hectar. Os oes gennych lai na 5 hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru ond eich bod yn Ffermwr Trawsffiniol ac ichi ddibynnu ar dir y tu allan i Gymru yn 2020 i ffurfio 5 hectar yr hawliad lleiaf, byddwch yn dal i fod yn gymwys yn 2024.

**Enghraifft:** Os oedd gennych 3 hectar o dir cymwys yng Nghymru a 2 hectar o dir cymwys yn Lloegr yn 2020 a bod gennych 3 hectar o dir cymwys yng Nghymru yn 2024, byddwch yn dal i fod yn gymwys am y BPS yng Nghymru yn 2024.

**Enghraifft:** Os oedd gennych 7 hectar o dir cymwys yng Nghymru a 4 hectar o dir cymwys yn Lloegr yn 2020 a bod gennych 2 hectar o dir yng Nghymru yn 2024, ni fyddwch yn gymwys i hawlio BPS yng Nghymru yn 2024.

# Adran C: Cynlluniau Buddsoddi Gwledig

## C1 Cyflwyniad

**C1.2** O dan ddeddfwriaeth Datblygu Gwledig ddomestig, mae cyfreso Gynlluniau Buddsoddi Gwledig domesting wedi'u datblygu i gefnogi'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Fe welwch ragor o wybodaeth am y cynlluniau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

## C2 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig i'w hawlio bob blwyddyn ar y SAF

**C2.1** Rhaid hawlio'r cynlluniau canlynol bob blwyddyn ar y SAF:

- **Cynllun Cynefin Cymru (HWS)** – cynllun amaeth-amgylchedd blwyddyn o hyd dros dro sydd â'r nod o ddiogelu a chynnal tir cynefin cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

  **Sylwer:** Nid yw Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin yn cael ei hawlio ar SAF 2024. Mae ffurflen hawlio ar wahân ar gael drwy RPW Ar-lein i Gymdeithasau Pori i hawlio ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin

- **Cynllun Troi'n Organig (OCS)** – cynllun cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol sydd am droi o ffermio confensiynol i ffermio organig. Mae'n gontract 5 mlynedd a hawlir yr arian yn y 2 flynedd gyntaf.

- **Cymorth Organig (OS)** – Yn darparu taliad fesul hectar ar dir cymwys i gynhyrchwyr sydd eisoes yn organig ac a fydd â thystysgrif organig lawn yn ystod 2024.

- **Cynnal a Chadw Creu Coetir (WCM) –** cynllun 12 mlynedd ar gyfer cynnal a chadw coetir newydd sydd wedi'i blannu o dan y **Grant Creu Coetir** neu'r cynllun **Grantiau Bach – Creu Coetir**.

- **Premiwm Creu Coetir (WCP)** – cynllun 12 mlynedd i ddigolledu rheolwyr tir sydd wedi colli incwm yn sgil creu coetir o dan y **Grant Creu Coetir** neu'r cynllun **Grantiau Bach – Creu Coetir**.

**C2.2** Cewch ragor o fanylion ar wefan Llywodraeth Cymru a chaiff diweddariadau eu cyhoeddi ar e-newyddlen Gwlad.

## C3 Gofynion hawlio taliadau arwynebedd blynyddol ar y SAF

**C3.1** Mae'r adran hon yn ymdrin â hawlio taliadau'r cynlluniau a restrir ym mharagraff C2 ar y SAF.

**C3.2** Dylech gyflwyno SAF bob blwyddyn i hawlio'r cynlluniau a restrir ym mharagraff C2.

**C3.3** Mae gofyn ichi ddatgan eich holl dir amaethyddol yn yr adran Data Caeau ar eich SAF. Wrth ddatgan tir sy'n rhan o gontract Cynllun Troi'n Organig neu Grant

Creu Coetir/Grantiau Bach – Creu Coetir, bydd angen ichi ddefnyddio'r codau defnyddio tir sydd yn y tabl yn Atodiad 2 a/neu Atodiad 3 y llyfryn hwn.

**C3.4** Yn ôl y Rheoliadau sy'n rheoli'r cynlluniau, rhaid cymharu'r holl ddata ar System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru â'r wybodaeth sydd wedi'i datgan ar bob SAF. Gwneir hyn i sicrhau bod y taliadau'n cael eu gwneud ar y darnau tir cywir, na chaiff ffermwr ei dalu ddwywaith am yr un peth ac nad yw'r categori defnyddio tir yn groes i'r defnydd tir y gofynnir amdano fel rhan o'ch Contract. Rhaid ichi ddarllen eich Contract a'ch mapiau i sicrhau'ch bod yn datgan yr arwynebeddau a'ch codau defnyddio tir/cnydau yn gywir ar eich SAF. O beidio â rhoi gwybodaeth ddigon manwl am barseli unigol ar eich SAF, gallai hynny arafu'ch taliad wrth inni gadarnhau cywirdeb yr hawliad. Gallai olygu lleihau'ch taliad (gweler Adran G) neu'ch cosbi.

**C3.5** Os nad yw'r cod cnydau/defnyddio tir sydd wedi'i nodi ar eich SAF ar eich rhan yn cyfateb i god cnydau/defnyddio tir sydd ei angen i fodloni amodau'ch contract, efallai y bydd angen ichi newid y cod cnydau/defnyddio tir sydd wedi'i nodi er mwyn iddo adlewyrchu'r defnydd tir cywir fel ag y mae ar 15 Mai.

## C4 Taliadau

**C4.1** Rhaid ichi hawlio'ch taliad blynyddol ar gyfer y cynlluniau a restrir ym mharagraff C2.1 y llyfryn hwn yn yr adran Hawlio ar eich SAF ac ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig, yn yr adran data Caeau ar eich SAF, a chyflwyno'r ffurflen erbyn 15 Mai neu, er y bydd cosb am ei chyflwyno'n hwyr, erbyn 10 Mehefin. Mae gofyn ichi ddatgan holl dir eich daliad amaethyddol a'r codau cnydau/defnyddio tir perthnasol i'w cadarnhau â'ch Contract.

**C4.2** I fod yn gymwys am daliad rheoli blynyddol, rhaid ichi:

- gyflwyno SAF bob blwyddyn gan ddatgan eich holl dir
- hawlio taliad ar y SAF a'i chyflwyno erbyn 15 Mai (neu 10 Mehefin 2024 o dalu cosb am ei chyflwyno'n hwyr) er mwyn cael eich talu yn unol â'ch Contract a/neu Ddyfarniad Grant
- bod yn gyfrifol am y tir sy'n rhan o'r Gontract a/neu Ddyfarniad Grant a bod â reolaeth lwyr arno
- bodloni gofynion eich Contract a/neu Ddyfarniad Grant
- ar ôl archwilio a chadarnhaw'ch hawliad(au) am Cynllun(iau) Buddsoddi Gwledig byddwn yn dechrau gwneud y taliadau o 31 Ionawr 2025.

### Cynllun Cynefin Cymru

Cyfrifir taliadau ar gyfer taliad Cynllun Cynefin Cymru gan ystyried eich datganiadau tir ar SAF 2024, gan gynnwys y mannau lle rydych wedi nodi ar yr SAF nad ydych wedi llwyddo i gydymffurfio â'r gofynion rheoli, eich dyfarniad grant Cynllun Cynefin Cymru ac unrhyw hysbysiadau a wneir mewn perthynas â'r tir.

Mae'r trefniadau ar gyfer tynnu arian o'r taliadau yn cael eu disgrifio yn Adran G y llyfryn hwn. Bydd gwerth net taliadau'n cael eu nodi mewn llythyr talu a anfonir atoch adeg eu talu ichi.

Os yw'r statws cyfreithiol ar gyfer eich busnes yn unrhyw beth heblaw unig fasnachwr, bydd gofyn i chi gwblhau Atodlen 6 Cynefin Cymru - Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu ar y ffurflen gais SAF i roi sicrwydd bod gweithdrefnau llywodraethu a gwrth-dwyll rhesymol a digonol ar waith yn y busnesau sydd wedi derbyn cyllid.

**Cynllun Troi'n Organig**

**C4.3** Byddwn yn cyfri taliadau'ch Cynllun Troi'n Organig ar sail yr holl dir y byddwch yn hawlio tâl arno ar y SAF ac sy'n rhan o'ch Contract yn unol â'r manylion yn eich Contract, ac sy'n ddilys ar 15 Mai 2024 ac ar sail unrhyw hysbysiadau fydd wedi'u gwneud ynghylch y tir. Os byddwch yn hawlio ar dir nad yw'n gymwys am daliad, gallech gael eich cosbi am orddatgan. Darllenwch Adran G i weld sut ydym yn cyfri'r cosbau am orddatgan.

**C4.4** Caiff unrhyw symiau sydd i'w tynnu o'r taliadau a threfn tynnu'r symiau hynny eu rhestru yn Adran G y llyfryn hwn. Bydd gwerth net taliadau'n cael eu nodi mewn llythyr talu a anfonir atoch adeg eu talu ichi. Bydd y llythyr yn nodi manylion yr holl ostyngiadau.

**C4.5** I fod yn gymwys am daliad y Cynllun Troi'n Organig, rhaid ichi hefyd:

- Sicrhau'ch bod yn bodloni'r diffiniad o ffermwr a'ch bod yn cynnal gweithgaredd amaethyddol ar eich daliad bob blwyddyn yr ydych yn hawlio taliad ar ei chyfer.

- Sicrhau bod yr holl dir sydd o dan y Contract wedi'i ardystio gyda Chorff Rheoli Organig cydnabyddedig yn ddi-dor am oes y Contract. Ni chaniateir bod parsel tir wedi dechrau troi'n organic cyn i'r contract gael ei gynnig.

- Os oes gennych fenter laeth ac yn hawlio Taliad Cyfradd 3, Glaswelltir Parhaol a Dros-dro gyda Menter Odro, bydd gofyn ichi barhau i gynhyrchu llaeth am gyfnod y contract.

- Rhaid cyflwyno'r dogfennau canlynol erbyn 31 Rhagfyr 2024:

    - Tystiolaeth o weithgaredd amaethyddol, os bydd angen
    - Copi o Dystysgrif a Rhestr Tir diweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB)

- Os na fyddwch yn hawlio ar barsel o dir sydd o dan gontract ar eich SAF, caiff y cae hwnnw ei dynnu o gontract y Cynllun Troi'n Organig ac ni chaiff taliad ei wneud. Gellir gofyn ichi ad-dalu taliadau blaenorol.

**Cymorth Organig**

**C4.6** Bydd taliadau Cymorth Organig yn cael eu talu ar gaeau cyfan sydd wedi'u datgan ar eich SAF ac wedi'u hardystio fel rhai cwbl organig gyda Chorff Rheoli Organig (OCB) cydnabyddedig o 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024. Bydd eich taliad

yn seiliedig ar y tir sydd wedi'i gynnwys yn y Rhestr Tir ddiweddaraf y byddwch wedi'i chael gan eich OCB.  Rhaid hawlio ar o leiaf 0.10 hectar.

**C4.7** Bydd y cyfraddau talu yn seiliedig ar y defnydd tir y byddwch wedi'i ddatgan ar eich SAF 2024.  Dyma gyfraddau talu'r Cymorth Organig:

| Cyfradd Dalu | Disgrifiad | Taliad |
|---|---|---|
| 1 | Garddwriaeth | £300 / ha |
| 2 | Tir wedi'i amgáu | £45 / ha |
| 3 | Tir wedi’i amgáu gyda menter laeth | £115 / ha |
| 4 | Tir sydd uwchben trothwy uchaf y tir amaethyddol sydd wedi’i amgáu a thir penodedig arall | £9 / ha |

**Diffinio’r cyfraddau talu**

**Cyfradd dalu 1: garddwriaeth**

Tir a ddefnyddir at ddibenion cynhyrchu garddwriaethol yn 2024.

Cnydau garddwriaethol i’w gwerthu.

Nid yw cnydau porthiant yn gymwys.

**Cyfradd dalu 2: tir wedi’i amgáu**

Glaswelltir a chaeau âr.

**Cyfradd dalu 3: tir wedi’i amgáu gyda menter laeth**

Glaswelltir yn bennaf, parhaol ac o fewn cylchdro.

Bydd arwynebedd y tir sy'n gymwys ar gyfer cyfradd dalu 3 yn cael ei gyfrifo ar sail nifer yr anifeiliaid godro ar y daliad gan ddefnyddio cyfrifiad uned da byw safonol (UDB).  Bydd yr anifeiliaid a ddatgelir ar eich SAF yn cael eu gwirio yn erbyn cofnodion EIDCymru a BCMS.

**Bydd unedau da byw yn seiliedig ar:**

| **Da Byw** | **Unedau Da Byw (UDB)** |
|---|---|
| Gwartheg godro (dros 24 mis) | 1 UDB |
| Gwartheg godro - stoc ifanc (6-24 mis) | 0.6 UDB |
| Geifr godro (6 mis neu fwy) | 0.16 UDB |
| Geifr godro – stoc ifanc  (llai na 6 mis) | 0.04 UDB |
| Defaid godro (6 mis neu fwy) | 0.11 UDB |
| Defaid godro – stoc ifanc (llai na 6 mis) | 0.04 UDB |

Bydd yr arwynebedd mwyaf y caiff cyfradd dalu 3 ei thalu arno yn cael ei gyfrif yn ôl nifer yr anifeiliaid godro organig sydd ar y daliad a lefel stocio uchaf o 1.3 LU / Ha. Er enghraifft, bydd fferm sydd â 100 o unedau da byw godro yn gymwys i gael cyfradd dalu 3 ar 76.9 ha (100 ÷ 1.3), cyn belled â bod 76.9ha o dir cymwys ar gael. Lle nad oes digon o dir cymwys, bydd y taliad yn cael ei gyfyngu i arwynebedd y tir cymwys sydd ar gael.

Bydd unrhyw dir sy'n fwy na'r uchafswm sydd ar gael i fenter odro yn cael cyfradd dalu 2 neu 4.

**Cyfradd dalu 4: Tir uwch i fyny na'r tir uchaf sydd wedi'i amgáu a thir penodedig arall**

Mae tir sy'n uwch i fyny na'r tir uchaf sydd wedi'i amgáu yn cael ei ddiffinio fel tir uwchlaw'r tir amaethyddol sydd wedi'i amgáu, sy'n agored ei natur ac nad yw wedi cael ei wella fawr at ddiben amaethyddol. (**Fel y nodwyd ar DataMapWales**)

Mae tir penodol arall yn cynnwys:

- tir comin sy'n cael ei bori a chi yw'r unig borwr cofrestredig (Tir Comin ag Un Porwr)
- parseli tir â 50% neu fwy o'r cae yn gorgorsydd pori, rhos arfordirol a llawr gwlad a morfa heli
- systemau da byw ucheldirol helaeth yn bennaf gyda dwysedd stocio isel

Byddwn yn nodi bod ucheldir heb ei amgáu a thir comin sy'n cael ei bori gan un porwr yn gymwys am Gyfradd Dalu 4.

**C4.8** Ardal o dir y gellir ei chynnwys yn Cymorth Organig 2024 a'r gyfradd dalu uwch.

Nid oes terfyn uchaf ar arwynebedd y tir y gellir ei gyflwyno ar gyfer Cymorth Organig 2024.

Bydd uchafswm y taliad yn cael ei leihau yn ôl y canlynol:

| Arwynebedd | Taliad |
|---|---|
| 0 – 200 ha o dir cynefin cymwys | 100% o'r gyfradd dalu |
| 200 – 400 ha o dir cymwys | 50% o'r gyfradd dalu |
| 400 ha + | 10% o'r gyfradd dalu |

Wrth gyrraedd unrhyw drothwy talu, byddwn yn ystyried y gyfradd dalu uchaf yn gyntaf, cyn dechrau tapro'r gyfradd dalu isaf.

**C4.9** Os oes nodweddion anghymwys parhaol wedi'u cyflwyno neu eu nodi ar dir sydd ar y rhestr tir Organig (e.e. coetir neu adeiladau) ni fyddwch yn gallu cael taliad arnyn nhw (gweler Atodiad 2).

**C4.10** Caiff unrhyw symiau sydd i'w tynnu o'r taliadau a threfn tynnu'r symiau hynny eu rhestru yn Adran G y llyfryn hwn. Bydd gwerth net taliadau'n cael eu nodi mewn llythyr talu a anfonir atoch adeg eu talu ichi. Bydd y llythyr yn nodi manylion yr holl ostyngiadau.

**C4.11** I gael taliad Cymorth Organig, rhaid ichi fodloni'r canlynol:

- Gwneud yn siŵr eich bod yn bodloni'r diffiniad o ffermwr a'ch bod yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol cynradd. Mae cynhyrchwyr cynnyrch amaethyddol cynradd yn cynnwys y sectorau ffermio canlynol; âr, cig eidion, godro, geifr, garddwriaeth, moch, dofednod, defaid, gwenyna.

- Mae gennych o leiaf 3 hectar o dir amaethyddol cymwys, neu os nad oes gennych 3ha o dir amaethyddol cymwys, eich bod yn gallu profi'ch bod yn gwneud dros 550 o oriau o lafur safonol bob blwyddyn.

- Ni fyddwch yn gwsmer sy'n cadw ceffylau (gan gynnwys ceffylau pori), yn gwsmer coedwigaeth (gan gynnwys perchen ar goetir yn unig) nac yn grŵp o ffermwyr (gan gynnwys cymdeithasau cynhyrchwyr).

- Bydd gennych rheolaeth lwyr ar y tir dros y cyfnod 1 Ionawr 2024 – 31 Rhagfyr 2024. Mae rheolaeth lwyr fel arfer yn golygu:

  - bydd y tir yn eiddo ichi ac o dan eich meddiant
  - tenant â chytundeb tenantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, Tenantiaeth Busnes Fferm neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
  - tenant â thenantiaeth lafar â'r un lefel o reolaeth â'r uchod

- trwyddedwr

**C4.12** Nid yw'r tir canlynol yn gymwys i dderbyn taliad Cymorth Organig:

- Tir sydd heb dystysgrif organig lawn o 1 Ionawr 2024 – 31 Rhagfyr 2024
- Tir sydd wrthi'n cael ei droi'n organig
- Rhan o gae
- Tir comin, gyda nifer o borwyr cofrestredig yn pori'r comin
- Tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai amaethyddol.

**C4.13** Rhaid cyflwyno'r dogfennau canlynol erbyn 31 Rhagfyr 2024:

- Tystysgrif ddiweddaraf yr OCB a'r rhestr dir.
- Ar gyfer mentrau garddwriaethol sy'n hawlio cyfradd dalu 1, tystiolaeth bod cynnyrch garddwriaethol organig o'r daliad yn cael ei werthu'n fasnachol ac nid fel porthiant anifeiliaid. Er enghraifft, derbyniadau gwerth ar gyfer llysiau.
- Ar gyfer mentrau godro sy'n hawlio cyfradd dalu 3, bydd angen tystiolaeth bod llaeth o'r daliad yn cael ei werthu gydol blwyddyn galendr 2024. Er enghraifft, copi o gontract llaeth ar gyfer blwyddyn galendr 2024. Os ydych yn prosesu llaeth ar y daliad, rhaid cadarnhau hynny ac esbonio'n ysgrifenedig sut rydych chi'n gwerthu'ch cynnyrch llaeth wedi'i brosesu.
- Tystiolaeth o weithgarwch amaethyddol a chynhyrchu cynradd (os yw'n berthnasol).
- Tystiolaeth eich bod yn gwneud dros 550 o oriau o lafur safonol bob blwyddyn (os yw'n berthnasol).

Os na fyddwch wedi cyflwyno'r dogfennau rydym wedi gofyn amdanyn nhw erbyn 31 Rhagfyr 2024, gallem wrthod eich hawliad Cymorth Organig.

### Taliad Cynnal a Chadw Creu Coetir a'r Premiwm Creu Coetir

**C4.14** Taliadau arwynebedd blynyddol yw'r Premiwm Creu Coetir a'r Taliad Cynnal a Chadw Creu Coetir sydd ar gael ar ôl plannu coetir newydd o dan y Grant Creu Coetir neu'r cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir.

**C4.15** Mae'r taliad cynnal a chadw yn talu am gynnal a chadw coetir newydd ac mae'r premiwm blynyddol yn daliad i'ch digolledu am incwm a gollwyd o ganlyniad i gwblhau gwaith plannu newydd. Mae'r ddau daliad ar gael am 12 mlynedd.

**C4.16** Ni chewch hawlio blwyddyn gyntaf y Premiwm Creu Coetir na'r Taliad Cynnal a Chadw Creu Coetir nes bod gwaith plannu/ffensio'r Grant Creu Coetir neu'r Grantiau Bach – Creu Coetir wedi'i gwblhau, a'i hawlio yn y flwyddyn galendr flaenorol.

**C4.17** Os gwnaethoch chi gwblhau'r gwaith plannu/ffensio newydd a'i hawlio ar ôl 31 Rhagfyr 2023, ni chewch hawlio taliadau blwyddyn gyntaf y Taliad Cynnal a Chadw Creu Coetir na'r Premiwm Creu Coetir tan 2025.

**C4.18** Byddwn yn cyfri taliadau'ch Premiwm Creu Coetir a'r Taliad Cynnal a Chadw Creu Coetir bob blwyddyn gan ystyried eich datganiadau tir ar eich SAF, y Contract a'r hysbysiadau sydd wedi'u gwneud.

**C4.19** Os rhoddir y gorau i gynhyrchu ar dir oherwydd y cynllun Grant Creu Coetir neu'r cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir, ni ellir defnyddio'r tir hwnnw i gefnogi hawliad am daliad BPS oni bai iddo gael ei ddefnyddio'n llwyddiannus i gefnogi hawliau talu SPS yn 2008. Cewch chi barhau i ddefnyddio'r tir hwnnw i gefnogi'ch hawliad am BPS tra'i fod o dan ymrwymiad coedwigo cymwys. Gweler Adran B20 y llyfryn hwn am ragor o wybodaeth ynghylch bodloni gofynion y BPS ac Atodiad 2 Tabl 2.

**C4.20** I gael parhau'n gymwys am y BPS, rhaid defnyddio'r codau cnydau/defnyddio tir cywir. Er enghraifft, dylech ddewis BW1 ar gyfer coetir llydanddail yn bennaf neu CW1 ar gyfer coetir conwydd yn bennaf. Am ragor o wybodaeth ynghylch bodloni gofynion y BPS, ewch i Adran B y Llyfryn hwn.

## C5 Hysbysiad am amgylchiadau sy'n effeithio ar eich ymrwymiadau

**C5.1** Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn pen 30 diwrnod calendr am unrhyw newidiadau yn eich tir ac am unrhyw amgylchiadau allai effeithio ar eich ymrwymiad i'r cynllun ac am unrhyw newidiadau i ymrwymiadau'ch Contract a/neu Ddyfarniad Grant. O beidio â gwneud, gallai'ch taliad gael ei leihau neu ei wrthod. Byddai peidio â chadw at y cyfnod amser yn gyfystyr â thorri un o reolau'r cynllun. Rhaid rhoi gwybod trwy 'Rheoli fy Nhir' ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

# Adran D – Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig

## D1 Cyflwyniad

**D1.1** Daeth Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru yr UE - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

**D1.2** Os oes gennych gontract **Creu Coetir Glastir**, yn dibynnu pryd y cafodd y coetir ei greu, mae'n ofynnol i chi gynnal y coetir hwnnw am 12 neu 15 mlynedd.

Er bod Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yr UE wedi cau, mae eich contract Creu Coetir Glastir yn parhau i weithredu yn 2024 o dan Gyfraith a Gymathwyd ac fe'i ariennir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.

## D2 Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig i'w hawlio ar y SAF

**D2.1** Yn dibynnu pryd y cafodd y coetir newydd ei greu, gellir hawlio taliadau arwynebedd blynyddol o dan y canlynol:

- **Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP)** – cynllun 15 mlynedd i ddigolledu hawlwyr sy'n colli incwm am sefydlu coetir ers 2010
- **Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP)** – cynllun 12 mlynedd i ddigolledu hawlwyr sy'n colli incwm am sefydlu coetir ers 2015
- **Taliad Cynnal Creu Coetir Glastir (GCM)** – cynllun 12 mlynedd i gynnal gwaith plannu newydd mewn coetiroedd a sefydlwyd ers 2015.

## D3 Hysbysu am amgylchiadau sy'n effeithio ar eich ymrwymiadau Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig

**D3.1** Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn pen 30 diwrnod calendr am unrhyw newidiadau yn eich tir ac am unrhyw amgylchiadau allai effeithio ar eich ymrwymiad i'r cynllun ac am unrhyw newidiadau i ymrwymiadau'ch Contract. O beidio â gwneud, gallai'ch taliad gael ei leihau neu ei wrthod. Byddai peidio â chadw at y cyfnod amser yn gyfystyr â thorri un o reolau'r cynllun. Rhaid rhoi gwybod trwy 'Rheoli fy Nhir' ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

## D4 Y gofynion ar gyfer hawlio taliad arwynebedd blynyddol ar y SAF

**D4.1** Dylech gyflwyno SAF bob blwyddyn i hawlio'r cynlluniau a restrir ym mharagraff D2.

**D4.2** Mae gofyn ichi ddatgan eich holl dir amaethyddol yn yr adran Data Caeau ar eich SAF. Rhaid cofrestru tir newydd trwy ddefnyddio 'Rheoli fy Nhir' ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

**D4.3** Yn ôl y Gyfraith a Gymathwyd, rhaid cymharu'r holl ddata ar System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru â'r wybodaeth sydd wedi'i datgan ar bob SAF. Gwneir hyn i sicrhau bod y taliadau'n cael eu gwneud ar y darnau tir cywir, na chaiff ffermwr ei dalu ddwywaith am yr un peth ac nad yw'r categori defnyddio tir yn groes i'r

defnydd tir y gofynnir amdano fel rhan o'ch Contract.  O beidio â rhoi gwybodaeth ddigon manwl am barseli unigol ar eich SAF, gallai hynny arafu'ch taliad wrth inni gadarnhau cywirdeb yr hawliad.  Gallai olygu lleihau'ch taliad (gweler Adran G) neu'ch cosbi.

**D4.4** Os oes gennych contract Cynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig, gofalwch eich bod yn defnyddio'r codau defnyddio tir cywir.  Rhestrir y codau hynny yn Atodiad 3 y llyfryn hwn.  Gallai peidio â datgan codau defnyddio tir sy'n cyfateb i opsiynau rheoli Glastir arwain at leihau'ch taliad a/neu gosbi'ch hawliad.

## D5 Taliad

**D5.1** Rhaid ichi hawlio'ch taliad rheoli blynyddol ar gyfer y cynlluniau a restrir ym mharagraff D2.1 y llyfryn hwn yn yr adran Hawlio a'r adran Data Caeau ar eich SAF a chyflwyno'r ffurflen erbyn 15 Mai neu, er y bydd cosb am ei chyflwyno'n hwyr, erbyn 10 Mehefin er mwyn cael eich talu yn unol â'ch Contract Creu Coetir Datblygu Gwledig.  Mae gofyn ichi ddatgan holl dir eich daliad amaethyddol a'r codau cnydau/defnyddio tir perthnasol i'w cymharu â'ch Contract.

**D5.2** I fod yn gymwys am daliad blynyddol, rhaid ichi:

- gyflwyno SAF bob blwyddyn gan ddatgan eich holl dir (gan gynnwys eich hawliau pori tir comin)
- hawlio taliad ar y SAF a'i chyflwyno erbyn 15 Mai (neu 10 Mehefin 2024 o dalu cosb am ei chyflwyno'n hwyr) er mwyn cael eich talu yn unol â'ch Contract
- bod yn gyfrifol am y tir sydd wedi eu hawlio a bod â reolaeth lwyr arno
- bodloni gofynion eich Contract Creu Coetir Datblygu Gwledig.

**D5.3** Byddwn yn cyfri'ch taliadau ar sail yr holl dir y byddwch yn hawlio tâl arno ar y SAF ac sy'n rhan o'ch Contract yn unol â'r manylion yn eich Contract, ac sy'n ddilys ar 15 Mai 2024 ac ar sail unrhyw hysbysiadau fydd wedi'u gwneud ynghylch y tir.  Os byddwch yn hawlio ar dir nad yw'n gymwys am daliad, gallech gael eich cosbi am orddatgan.  Darllenwch Atodiad G i weld sut ydym yn cyfri'r cosbau am orddatgan.

**D5.4** Ar ôl archwilio a chadarnhau'ch cais Cynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig byddwn yn dechrau gwneud y taliadau o 31 Ionawr 2025.

**D5.5** Caiff unrhyw symiau sydd i'w tynnu o'r taliadau a threfn tynnu'r symiau hynny eu rhestru yn Adran G y llyfryn hwn.  Bydd gwerth net taliadau'n cael eu nodi mewn llythyr talu a anfonir atoch.  Bydd y llythyr yn nodi manylion yr holl ostyngiadau.

**D5.6** Os ydych wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu ar dir sydd o dan ymrwymiad Cynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig, caiff ffermwr / rheolwr tir ond ei ddefnyddio i hawlio BPS os cafodd y tir hwnnw ei ddefnyddio'n llwyddiannus i gefnogi hawliau talu SPS yn 2008.  Cewch chi barhau i ddefnyddio'r tir hwnnw i gefnogi'ch hawliad am BPS tra'i fod o dan ymrwymiad coedwigo cymwys.  Gweler Adran B20 y llyfryn hwn am ragor o wybodaeth ynghylch bodloni gofynion y BPS ac Atodiad 2 Tabl 2.

**D5.7** I gael parhau'n gymwys am y BPS, rhaid ichi ddefnyddio'r codau cnydau/defnyddio tir cywir.  Er enghraifft, dylech ddewis BW1 ar gyfer llydanddail yn bennaf neu CW1 ar gyfer conwydd yn bennaf.  Am ragor o wybodaeth ynghylch bodloni gofynion y BPS, ewch i Adran B y Llyfryn hwn.

## D6 Cynlluniau nad ydych yn eu hawlio ar y SAF

**D6.1** Nid ar y SAF y mae hawlio'r cynlluniau canlynol:

- Y Cynllun Coetir Ffermydd a'r cynlluniau Premiwm Coetir Ffermydd.

**D6.2** Bydd eich Contract yn esbonio sut i hawlio'r cynlluniau hyn ar RPW Ar-lein

# Adran E – Trawsgydymffurfio

## E1 Cyflwyniad

**E1.1** Mae Trawsgydymffurfio yn ofyniad rheoleiddiol y mae'n rhaid i ffermwyr gadw ati er mwyn cael taliadau'r BPS, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig a hawliwyd ar y SAF.

**E1.2** Chi sy'n gyfrifol am ofalu'ch bod yn deall ac yn cadw at y gofynion a safonau Trawsgydymffurfio sydd wedi'u seilio ar ddeddfau domestig a Ewropeaidd a'r Gyfraith Gymhathedig bresennol.

**E1.3** Mae dwy elfen i'r drefn Drawsgydymffurfio:

- Y Gofynion Rheoli Statudol (SMR) a
- Safonau ar gyfer cadw tir mewn 'Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da' (GAEC).

**E1.4** Maen nhw'n cynnwys rhwymedigaethau manwl o dan ddeddfau presennol y dylai ffermwyr fod yn eu cyflawni p'run bynnag, mewn perthynas ag:

- yr amgylchedd, y newid yn yr hinsawdd a GAEC
- iechyd cyhoeddus, iechyd anifeiliaid ac iechyd planhigion
- lles anifeiliaid.

## E2 Effaith Trawsgydymffurfio

**E2.1** Rhaid cadw at yr amodau Trawsgydymffurfio gydol y flwyddyn ar holl dir amaethyddol eich daliad a hefyd ar unrhyw dir anamaethyddol sy'n dod o dan Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig. Mae hynny'n cynnwys yr holl dir sydd ar gael i chi ar 15 Mai bob blwyddyn, p'un a ydych yn defnyddio Hawliau BPS ar y tir hwnnw neu beidio. Er enghraifft: os oes gennych sied ar eich tir sydd mewn cyflwr gwael ac a all felly greu problemau lles i'ch anifeiliaid, rydych wedi torri un o'ch amodau Trawsgydymffurfio er nad yw arwynebedd y sied ei hun yn cyfrannu at eich taliad BPS.

**E2.2** Os ydych yn rhentu tir i mewn neu allan yn ystod y flwyddyn, mae'n bwysig eich bod yn ystyried amodau'r cytundeb rhyngoch chi a'r sawl sy'n trosglwyddo neu sy'n derbyn y tir. Gofalwch eich bod yn diogelu'ch buddiannau rhag ichi gael y bai am dramgwydd sy'n cael ei wneud gan y ffermwr sy'n trosglwyddo neu sy'n derbyn y tir.

**E2.3** Mae ffermwyr sy'n hawlio BPS yn ymrwymo i gadw at yr amodau Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr gyfan. Os caiff tir ei rentu rhwng ffermwyr sy'n hawlio BPS, taliad y ffermwr sy'n gyfrifol am dorri'r amodau fydd yn cael ei leihau neu ei atal. Os nad yw meddiannydd newydd y tir yn hawlio BPS yn y flwyddyn honno (ar unrhyw dir), y meddiannydd gwreiddiol sydd wedi hawlio BPS yn y flwyddyn honno fydd yn cael ei gosbi os caiff amodau eu torri, hyd yn oed os cânt eu torri ar ôl i'r tir gael ei drosglwyddo.

**E2.4** Yn achos taliadau Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig , taliadau'r ffermwr sy'n eu hawlio fydd yn cael ei lleihau neu eu hatal. Os ydych yn gosod tir neu'n gwerthu tir i ffermwr arall nad yw'n hawlio arno am ran o'r flwyddyn ac os bydd yn torri amod Trawsgydymffurfio ar y tir hwnnw, eich taliad chi fydd yn cael ei gosbi gan mai'ch cyfrifoldeb chi yw cadw at yr amodau Trawsgydymffurfio.

**E2.5** Os bydd ffermwr yn torri'r rheolau tagio a chofrestru gwartheg a/neu ddefaid/geifr, ceidwad yr anifeiliaid fydd fel arfer yn cael ei gosbi. Fodd bynnag, os ydych yn gadael i anifeiliaid ffermwr arall bori'ch tir, gofalwch fod y ceidwad wedi'u cofrestru yn ôl y gofyn, gan gynnwys rhoi gwybod i BCMS yn achos gwartheg, EID Cymru yn achos defaid neu'r gwasanaeth AML2 ar gyfer moch, os caiff yr anifeiliaid eu symud i neu o'ch tir. Os na fyddwch chi neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan neu o dan eich rheolaeth yn cadw at y rheolau Trawsgydymffurfio, gallem leihau'ch taliadau mewn cysylltiad â cheisiadau a wnaethoch yn y flwyddyn galendr pan welwyd bod yr amod wedi'i dorri.

**E2.6** Os bydd yr amodau Trawsgydymffurfio yn cael eu torri unrhyw le ar dir comin, gallai'r ffermwr neu'r ffermwyr sy'n gyfrifol golli'u taliad neu ran ohono.

## E3 Cosbau am dorri amodau Trawsgydymffurfio

**E3.1** Darllenwch Adran G y llyfryn hwn am ragor o wybodaeth ynghylch sut i gyfrif a chymhwyso cosbau Trawsgydymffurfio. Yn ogystal, gallai torri SMR arwain at eich erlyn gan y corff gorfodi arbenigol priodol.

## E4 Gwybodaeth am Drawsgydymffurfio

**E4.1** Mae Taflenni Ffeithiau Trawsgydymffurfio i Ffermwyr yn rhoi disgrifiad manwl o'r gofynion Trawsgydymffurfio. Mae'r taflenni'n cynnwys hefyd gwybodaeth ynghylch beth i'w ddisgwyl mewn archwiliad, canllaw arferion da i helpu ffermwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio wrth eu gwaith a rhestr o gysylltiadau defnyddiol.

**E4.2** Mae'r canllaw '*Pan ddaw'r archwilydd'* yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl mewn archwiliad a chyngor ar arferion da i helpu ffermwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio wrth eu gwaith.

**E4.3** Fe welwch gopi o Daflenni Ffeithiau Trawsgydymffurfio i Ffermwyr, Safonau Dilysu Trawsgydymffurfio a Matrics Cosbi Taliadau Trawsgydymffurfio ar wefan Llywodraeth Cymru. Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

**E4.4** Chi sy'n gyfrifol am ofalu'ch bod yn deall gofynion a safonau Trawsgydymffurfio a chadw atyn nhw.

**E4.5** Byddwn yn cyhoeddi negeseuon pwysig a newidiadau a diweddariadau yn e-gylchlythyr Gwlad.

## E5 Tabl yn dangos yr SMR a'r GAEC

| **Gofynion Rheoli Statudol (SMR)** |
|---|
| SMR 1: Diogelu Dŵr |
| SMR 2: Adar Gwyllt |
| SMR 3: Gwarchod Ffawna a Fflora (Bioamrywiaeth) |
| SMR 4: Cyfraith Bwyd a Phorthiant |
| SMR 5: Cyfyngiadau ar Ddefnyddio Betaweithyddion a Sylweddau sy'n cael Effaith Hormonaidd neu Thyrostatig ar Anifeiliaid Fferm |
| SMR 6: Adnabod a Chofrestru Moch |
| SMR 7: Adnabod a Chofrestru Gwartheg |
| SMR 8: Adnabod Defaid a Geifr |
| SMR 9: Atal, Rheoli a Dileu Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) |
| SMR 10: Cyfyngiadau ar Ddefnyddio Cynnyrch Amddiffyn Planhigion |
| SMR 11: Safonau Lles i Amddiffyn Lloi |
| SMR 12: Safonau Lles i Amddiffyn Moch |
| SMR 13: Safonau Lles i Amddiffyn Anifeiliaid Fferm |

| **Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)** |
|---|
| GAEC: 1: Dŵr – Sefydlu Lleiniau Clustogi |
| GAEC 2: Dŵr – Defnyddio Dŵr i Ddyfrhau'r Tir |
| GAEC 3: Dŵr – Dŵr Daear |
| GAEC 4: Pridd a Stoc Garbon – sicrhau lefel ofynnol o orchudd ar y pridd |
| GAEC 5: Pridd a stoc garbon – Cyfyngu ar waith trin tir i ddiogelu pridd rhag erydiad |
| GAEC 6: Pridd a Deunydd Organig – Eu Diogelu |
| GAEC 7: Cadw Nodweddion y Tirlun |

# Adran F – Newidiadau'r Busnes a'r Tir

## F1 Manylion y busnes

**F1.1** I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, bydd angen ichi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. Darllenwch y canllaw ar sut i gofrestru i gael rhagor o fanylion. Gallwch newid y rhan fwyaf o fanylion eich busnes ar-lein. Ond os ydych am gofnodi newidiadau mawr, efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn ichi am ragor o fanylion. Ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am ragor o wybodaeth.

**F1.2** Os ydych yn gysylltiedig â mwy nag un busnes ffermio, peidiwch â chymryd yn ganiataol y caiff y busnesau hynny eu trin fel busnesau ar wahân wrth wneud cais am gyllid amaethyddol cyffredin , hyd yn oed os ydyn nhw'n gyrff ar wahân o safbwynt y gyfraith, fel partneriaethau neu gwmnïau cyfyngedig. Diben hyn yw sicrhau nad ydych yn creu amodau artiffisial i gael taliad.

**F1.3** Dim ond os ydy'r busnes yn cael ei redeg fel busnes ar wahân yn unol ag amodau penodol y dylech gyflwyno cais ar wahân ar ei gyfer. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried:

- statws cyfreithiol y busnes
- enwau a chyfrifoldebau'r bobl sy'n rhan o'r busnes (gan gynnwys canran eu cyfranddaliadau os oes angen)
- i ba raddau y mae'r busnes yn cael ei redeg ar wahân ar lefel ymarferol o ddydd i ddydd
- a oes ganddo gynlluniau a chyfrifon ar wahân
- i ba raddau y mae penderfyniadau ar y naill fferm yn annibynnol ar y llall
- pwy sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol y busnes a phwy sy'n cael yr elw.

**F1.4** Nid yw'r un o'r rhain yn ddigon ynddo'i hun i droi'r ddadl ac mae'n bosibl y gofynnwn i chi am fwy o wybodaeth, fel cytundeb partneriaeth, tystysgrif y cwmni, erthyglau'r cwmni a/neu gyfrifon. Eich cyfrifoldeb chi yn y pen draw yw profi i Lywodraeth Cymru fod y busnesau'n rhai ar wahân.

**F1.5** Bydd angen asesu busnesau fferm sy'n uno neu'n rhannu bob yn un yn ôl eu hamgylchiadau penodol a'r cyllid amaethyddol y ceisir amdano. Bydd Llywodraeth Cymru am ystyried y ffactorau canlynol:

- unrhyw drefniadau i drosglwyddo/lesio hawliau
- statws y busnes (h.y. a yw'n newydd/yn parhau/ar wahân).

**F1.6** Rhaid anfon manylion unrhyw uniadau neu raniadau trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein neu drwy lythyr i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid i'w hasesu.

## F2 Diweddaru'ch Cofnodion

**F2.1** Cofiwch hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau ym manylion eich busnes, gan gynnwys pan fydd strwythur y busnes yn newid e.e. partner yn gadael neu'n ymuno â'r busnes.  Os gwelwch wallau yn y manylion sydd wedi'u rhagbrintio ar ffurflenni a llythyrau e.e. rhif ffôn anghywir, camsillafu enw neu gyfeiriad, anfonwch y cywiriadau atom trwy'ch cyfrif Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein neu drwy lythyr i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.  Ni fydd angen i'ch partneriaid arwyddo'r llythyr hwnnw.  Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cofnodion sydd gennym am eich busnes ffermio yn gywir a chyfredol.  Mae hyn yn cynnwys eich dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) ar gyfer llythyru.

## F3 Defnyddio Rhifau Yswiriant Gwladol

**F3.1** Bydd angen inni gasglu rhifau Yswiriant Gwladol pob aelod o fusnes fferm er mwyn dilysu busnesau all hawlio ddwywaith ar yr un tir i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn briodol a hefyd i ddilysu ffermwyr ifanc a newydd.

**F3.2** Bydd hawlwyr newydd yn gallu ychwanegu eu rhif Yswiriant Gwladol yn ystod y broses gofrestru ar-lein.  Os nad ydych yn gwybod beth yw'ch rhif Yswiriant Gwladol, ewch i wefan Yswiriant Gwladol neu ffoniwch:

Llinell Cofrestru Yswiriant Gwladol
Ffôn: 0300 200 3500
Ffôn Testun: 0300 200 3519

## F4 Taliadau

**F4.1** Bydd holl daliadau'r cynllun yn cael eu gwneud trwy BACS.  Os bydd eich manylion bancio'n newid, rhaid ichi roi gwybod i Lywodraeth Cymru am hynny er mwyn i'r taliadau gael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc/cymdeithas adeiladu newydd.  Dylech roi gwybod am unrhyw newid yn ddi-oed i osgoi oedi wrth wneud taliadau.

## F5 Newidiadau i'r tir

**F5.1** Rhaid ichi roi gwybod i RPW, os ydych yn newid parsel tir neu'n trosglwyddo tir, cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.  Os na fyddwch wedi'n hysbysu o fewn 30 diwrnod, rhowch wybod i Lywodraeth Cymru am y newidiadau cyn gynted â phosibl.

**F5.2** Llenwch gais 'Rheoli fy Nhir', gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein, i:

- gofrestru parseli tir
- ychwanegu, dileu neu newid nodweddion parhaol
- rhoi gwybod inni'ch bod yn trosglwyddo tir (h.y. prynu / gwerthu / rhentu)
- newid dyddiad olaf rhentu

- rhoi gwybod am newid i'r ffin (uno / hollti / symud ffiniau).

Cewch gyngor llawn ar sut i ddefnyddio 'Rheoli fy Nhir' ar wefan Llywodraeth Cymru.

**F5.3** Mae'n bwysig bod ffermwyr sydd â chontract a/neu Ddyfarniad Grant Cynllun Buddsoddi Gwledig neu Chynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig yn cofio y byddan nhw'n cael eu cosbi am beidio â chadw at y terfyn 30 niwrnod.

## F6 Newid tir sydd ag angen rhif cae newydd

**F6.1** Rhaid gwneud cais am rif cae newydd yn 'Rheoli fy Nhir' ar RPW Ar-lein.

**F6.2** Bydd angen rhif cae newydd ar gyfer caeau sy'n perthyn i un o'r categorïau isod:

- caeau sydd heb eu cofrestru o'r blaen ar gyfer IACS
- caeau sydd wedi'u rhannu'n barhaol
- caeau sydd wedi'u cyfuno'n barhaol
- caeau sydd â ffin newydd.

**F6.3** Bydd 'Rheoli fy Nhir' yn rhoi rhif(au) caeau ichi ar gyfer y newidiadau hyn a dylech eu defnyddio wrth lenwi'ch SAF. Mae hynny'n golygu ychwanegu rhifau caeau newydd yn adran Data Caeau'ch SAF a dileu unrhyw rifau caeau nad ydyn nhw bellach yn bodoli.

Wrth lenwi'r SAF gofalwch nad ydych yn defnyddio rhif y cae newydd a rhif yr hen gae (os nad ydych yn ei ddefnyddio mwyach) i hawlio taliad rhag ichi gael eich cosbi'n ariannol. Cofiwch ychwanegu rhif y cae newydd yn adran Data Caeau'ch SAF a chlicio ar 'Dileer' i ddileu rhif yr hen gae os nad ydych yn ei ddefnyddio mwyach.

**F6.4** Ni fydd angen ichi wneud cais am rifau cae newydd os yw'r cae wedi'i rannu dros dro rhwng dau neu ragor o gnydau neu ddau neu ragor o ymgeiswyr. Dylech ddangos hyn ar eich SAF trwy roi pob un o rannau'r cae os ydyn nhw ar gael ichi eu defnyddio ar 15 Mai ar linellau gwahanol.

**F6.5** Ni all adeiladau ac iardiau ond gael eu rhannu os oes ffin rwystrol yn bodoli a bod mynediad ar wahân ar gyfer y ddwy ardal. Os nad oes ffin rwystrol a mynediad ar wahân ni chaniateir i chi rannu'r parsel tir presennol.

## F7 Tir sydd heb ei gofrestru

**F7.1** Os ydych yn bwriadu datgan tir sydd heb ei gofrestru ar eich SAF, rhaid ichi gyflwyno cais 'Rheoli fy Nhir' cyn pen 30 diwrnod ar ôl cael y tir.

**F7.2** Hefyd, pan fyddwch yn cofrestru tir newydd, bydd angen ichi roi prawf mai chi sy'n berchen arno neu fod gennych hawl i'w feddiannu. Os ydych yn berchen ar y tir rydych yn ei gofrestru, rhaid ichi gyflwyno'r canlynol;

- **Gweithred Teitl** neu
- **Copi o Gofrestr Teitl.**

**Rhaid** i'r dogfennau hyn gynnwys y map cysylltiedig.

Os ydych yn denant neu'n borwr ar y tir, rhaid ichi gyflwyno naill ai llythyr oddi wrth y perchennog i gadarnhau ei fod wedi rhoi caniatâd ichi ddefnyddio'r tir at ddiben amaethyddol, gan gynnwys dyddiadau, neu gytundeb tenantiaeth wedi'i arwyddo gan bob parti. Ni fydd tystiolaeth arall yn ddigon a chaiff ei gwrthod.

**F7.3** Cofiwch, ni fydd angen ichi gofrestru tir sydd eisoes wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru. Bydd 'Rheoli fy Nhir' yn dangos a yw'r tir wedi'i gofrestru eisoes neu beidio.

## F8 Trosglwyddo tir

**F8.1** Os ydych yn prynu neu'n gwerthu tir, neu'n ei rentu i mewn/allan, ac os bydd y tir hwnnw ar gael i chi ar 15 Mai, rhaid ichi roi gwybod i RPW cyn pen 30 diwrnod ar ôl trosglwyddo'r tir. Rhaid gwneud hynny ar gais 'Rheoli fy Nhir' ar RPW Ar-lein.

Bydd angen prawf arnom mai chi sy'n berchen ar y tir neu fod gennych hawl i'w feddiannu pan fyddwch yn cofrestru neu'n cymryd tir newydd. Os ydych yn berchen ar y tir rydych yn ei gofrestru, rhaid ichi gyflwyno'r canlynol;

- **Gweithred Teitl** neu
- **Copi o Gofrestr Teitl.**

**Rhaid** i'r dogfennau hyn gynnwys y map cysylltiedig.

Os ydych yn denant neu'n borwr ar y tir, rhaid ichi gyflwyno naill ai llythyr oddi wrth y perchennog i gadarnhau ei fod wedi rhoi caniatâd ichi ddefnyddio'r tir at ddiben amaethyddol, gan gynnwys dyddiadau, neu gytundeb tenantiaeth wedi'i arwyddo gan bob parti. Ni fydd tystiolaeth arall yn ddigon a chaiff ei gwrthod.

## F9 Lleoliad Tir

**F9.1** Mae gofyn i Lywodraeth Cymru neilltuo Rhifau CPH sy'n dangos lle mae pob parsel o dir.

## F10 Diweddaru mapiau tir amaethyddol yng Nghymru

**F10.1** Mae RPW yn diweddaru ei fapiau drwy'r amser gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf o MasterMap sy'n cael ei darparu gan yr Arolwg Ordnans.

**F10.2** Mae'n bosibl bod y parseli tir ar eich daliad wedi newid o ganlyniad i hyn, er enghraifft, trwy newid ffiniau cae a/neu nodweddion parhaol fel adeiladau, ffyrdd, afonydd a phyllau dŵr. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar eich hawliad fel rhan o broses ddilysu'ch SAF.

**F10.3 Mae'n bwysig iawn eich bod yn cadarnhau bod yr adran Data Caeau ar eich SAF 2024 wedi'i llenwi'n gywir.** Mae'n bwysig hefyd eich bod yn gofalu bod unrhyw newidiadau yn sgil archwiliad yn 2023 (fe welwch y manylion yn IACS 7A) neu yn sgil apêl, wedi'u gwneud i'ch SAF.

## F11 Brasfapiau

**F11.1** Mae gofyn i'r RPW fapio rhannau o barsel tir. Bydd y SAF yn gofyn ichi lenwi brasfap electronig lle bo gofyn gwneud hynny fel rhan o'ch cais. Os ydych yn llenwi cais 'Rheoli fy Nhir', darllenwch y llyfryn 'Sut i ddefnyddio Rheoli fy Nhir' am ragor o gyngor. Fe welwch gopi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd y SAF yn gofyn ichi am fap electronig pan:

- fydd dau god cnydau wedi'u nodi ar y ffurflen a bod BW1, CW1, GC1, GC2, GC3, GR9, GS1, GS2, HE6, RE3, SC2 yn un o'r codau hynny ac os yw'r arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar gyfer un o'r codau cnydau hyn yn wahanol i'r arwynebedd sydd wedi'i nodi. Er enghraifft, rydych wedi datgan GR2 ac SC2 ond bod yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar gyfer SC2 yn wahanol i'r arwynebedd sydd wedi'i nodi.

- na fydd y cnydau'n gymwys am rai cynlluniau e.e. mae rhan o'r cae o dan SC3 – Coridor Glan Nant (ddim yn gymwys am BPS) ac mae'r gweddill o dan GR2 – Porfa barhaol (cymwys am BPS)

- fydd newid wedi'i wneud i bwll sy'n gymwys am BPS (PD1) neu'ch bod yn datgan pwll newydd sy'n gymwys am BPS yn y cae

- fydd newid wedi'i wneud i Nodwedd Barhaol neu'ch bod yn datgan Nodwedd Barhaol newydd mewn cae, fel yr isod:

  ZZ10 – Coetir – conwydd – grŵp

  YY14 – Coetir – conwydd – gwasgaredig (> 100/Ha)

  ZZ11 – Coetir – llydanddail – grŵp

  YY15 – Coetir – llydanddail – gwasgaredig (> 100/Ha)

  YY16 – Coetir – boncyffion

  ZZ20 – Rhedyn – grŵp

  YY21 – Rhedyn – gwasgarog

  ZZ22 – Prysgwydd/eithin/mieri – grŵp

  YY23 – Prysgwydd/eithin/mieri – gwasgarog

  ZZ40 – Sgri/creigiau/cnycau/tywod – grŵp

YY41 – Sgri/creigiau/cnycau/tywod – gwasgarog

ZZ30 – Pyllau – anghymwys

ZZ31 – Afonydd a nentydd

TR2 – Coetir conwydd – heb ei bori (gan gynnwys coed Nadolig)

WS1 – Coetir llydanddail – heb ei bori

NO1 – Gweithgareddau anamaethyddol

ZZ89 – Adeiladau a buarthau

ZZ92 – Arwynebau caled

ZZ94 – Heolydd

ZZ97 – Traciau heb eu pori

O dan rai amgylchiadau, gofynnir am frasfapiau o barseli tir y cafodd Archwiliad Tir 2023 ei gynnal arnynt. Os yw'r datganiad tir yn cyd-fynd ag Archwiliad Tir 2023 ac nad oes unrhyw newid wedi'i wneud i'r parsel ers cynnal yr archwiliad, gallwch roi tic yn y blwch 'Newid oherwydd archwiliad' ar y parsel tir yn yr adran Data Caeau. Trwy roi tic yn y blwch hwn, ni fydd angen ichi gyflwyno brasfap o'r parsel. Byddwn yn defnyddio manylion Archwiliad 2023. Os oes unrhyw beth yn parsel wedi newid ers yr archwiliad h.y. newid i'r nodweddion parhaol ac ati, yna bydd angen ichi ddarparu brasfap, felly peidiwch â rhoi tic yn y blwch 'Newid oherwydd archwiliad'.

Os yw'r ffiniau wedi newid ers yr archwiliad, bydd angen ichi gyflwyno cais Rheoli fy Nhir. Gallwch wneud hynny ar eich cyfrif RPW Ar-lein os nad ydych eisoes wedi gwneud.

## F12 Manylion Deiliadaeth Tir

**F12.1** Rydym yn cynnal adolygiad ac yn diweddaru manylion deiliadaeth yr holl barseli tir sydd ar ein cofnodion. **Rhaid** i chi gadarnhau bod y manylion rydym wedi'u llenwi ymlaen llaw ar gyfer eich parseli yn gywir, gan gynnwys y dyddiadau rhentu, a'u newid lle bo angen yn yr adran 'Data Caeau'. Cofiwch, nid yw amodau'r BPS wedi newid, felly i gael hawlio BPS, rhaid bod gennych reolaeth lwyr ar y caeau hyn ar 15 Mai.

Rydym wedi ychwanegu math newydd o ddeiliadaeth sef Math 'D – Trwydded Bori' y dylech ei defnyddio os oes gennych drwydded bori ac mai chi yw'r trwyddedai.

## Adran G – Gostyngiadau, Gwaharddiadau a Chywiro Camgymeriadau

## G1 Cyflwyniad

**G1.1** Os bydd eich ffurflen SAF a/neu ddogfennau ategol yn ein cyrraedd yn hwyr neu os gwelir gwybodaeth anghywir arnynt neu'ch bod wedi torri rheolau'r cynlluniau, bydd eich taliad yn cael ei leihau a gallech gael eich gwahardd yn unol â rheolau'r cynllun.

## G2 Ceisiadau hwyr am daliad

**G2.1** Rydym yn barod i dderbyn y SAF hyd at 25 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad cau, 15 Mai 2024 h.y. erbyn canol nos 10 Mehefin 2024. Yn ôl rheoliadau rhaid i Lywodraeth Cymru wrthod ffurflenni SAF sy'n cyrraedd mwy na 25 diwrnod calendr yn hwyr (h.y. ar ôl 10 Mehefin 2024). Hynny, mewn cysylltiad â'r holl gynlluniau a hawliwyd ar y SAF.

**G2.2** Oni bai y bu achos o force majeure neu amgylchiadau eithriadol, os byddwch yn cyflwyno'ch SAF ar ôl y dyddiad cau, 15 Mai 2024, bydd eich taliad yn gostwng 1% am bob diwrnod gwaith y bydd yn hwyr dros y cyfnod o 25 diwrnod calendr hyd at a chan gynnwys 10 Mehefin 2024.

## G3 Ceisiadau hwyr am hawliau BPS o'r Gronfa Genedlaethol

**G3.1** Os yw'r SAF hefyd yn cynnwys cais am hawliau BPS o'r Gronfa Genedlaethol bydd 3% arall am bob diwrnod gwaith yn cael ei dynnu oddi ar y taliad BPS, am bob diwrnod y bydd yn hwyr dros y cyfnod o 25 diwrnod calendr. Gwrthodir ceisiadau am hawliau BPS o'r Gronfa Genedlaethol sy'n cyrraedd ar ôl y cyfnod hwn.

### Enghreifftiau

- Mae SAF sy'n cynnwys cais am hawliau BPS yn cyrraedd ar 25 Mai 2024, 10 diwrnod calendr / 7 diwrnod gwaith yn hwyr ac mae hyn yn arwain at:

  ostyngiad o 1% am bob diwrnod gwaith yng ngwerth y taliad i'r ffermwr (gan gynnwys BPS) = 7%.

  gostyngiad o 3% am bob diwrnod gwaith yng ngwerth y taliad BPS i'r ffermwr = 21%.

- Mae SAF sy'n cyrraedd ar 11 Mehefin wedi cyrraedd ar ôl y dyddiad cau. Caiff yr hawliad cyfan ei wrthod.

## G4 Dogfennau ategol hwyr

**G4.1 Rhaid** i'r dystiolaeth ategol ar gyfer BPS ein cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2024. Ni chaiff unrhyw daliad (gan gynnwys Rhagdaliad BPS) ei wneud tan y bydd tystiolaeth wedi dod i law eich bod yn cynnal gweithgarwch amaethyddol yn 2024 (os bydd angen). Os na fydd tystiolaeth wedi cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2024, caiff eich hawliad ei wrthod.

**G4.2** Rhaid i bob tystiolaeth ddogfennol ar gyfer Cynlluniau Buddsoddi Gwledig, yn benodol y Cynllun Troi'n Organig a Chymorth Organig, ein cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2024. Bydd unrhyw dystiolaeth ddogfennol sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei gwrthod gan effeithio o bosibl ar daliadau'r cynllun.

## G5 Peidio â datgan yr holl tir amaethyddol sydd ar y daliad

**G5.1** Os na fyddwch wedi datgan yr holl dir amaethyddol y mae gennych reolaeth arno ar eich SAF (yr holl dir rydych yn berchen arno a'r tir rydych yn ei rentu i mewn), ac nid y tir rydych yn ceisio taliadau BPS, daliadau Cynllun Buddsoddi Gwledig neu Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig arno yn unig e.e. coetir/coedwigaeth, traciau, buarthau, wynebau caled ac ati, gallai taliadau gael eu lleihau.

**G5.2** Os oes gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sy'n cael ei ddatgan ar y SAF a chyfanswm y tir amaethyddol y dylai'r ffermwr fod wedi'i ddatgan, bydd taliadau'r cynlluniau yn cael eu gostwng fel a ganlyn:

| Gwahaniaeth | Gostyngiad |
|---|---|
| Hyd at 3% | Dim gostyngiad |
| Mwy na 3% a hyd at 20% | 1% o ostyngiad |
| Mwy na 20% a hyd at 50% | 2% o ostyngiad |
| Mwy na 50% | 3% o ostyngiad |

## G6 Anghysonderau o ran y tir sydd wedi'i ddatgan ar gyfer BPS, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig'

**G6.1** Os gwelir bod gwir arwynebedd grŵp cnydau yn fwy na'r hyn sydd wedi'i ddatgan ar y SAF, yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar y SAF fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfri'r taliad.

**G6.2** Dyma'r grwpiau cnydau:

- darnau tir sydd wedi'u datgan at ddiben hawlio'r BPS, y taliad Ailddosbarthu a'r taliad Ffermwr Ifanc
- darnau tir sy'n derbyn yr un faint o gymorth, o dan Gynlluniau Buddsoddi Gweldig
- darnau tir sy'n derbyn yr un faint o gymorth o dan Gynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig.

**G6.3** Ar gyfer hawlio BPS a'r Cynllun Creu Coetir a'r Cynllun Trosi Organig, bydd maint eich taliadau yn dibynnu ar yr arwynebeddau y byddwch wedi'u datgan ar eich SAF 2024. **Nid oes gofyn hawlio taliad ar gaeau unigol er mwyn cael taliad o dan Gynllun Cynefin Cymru, Cymorth Organig, y Cynllun Creu a Chynnal Coetir na'r Premiwm Creu Coetir**. Bydd eich hawliad yn seiliedig ar y parseli tir sydd wedi'u cynnwys yn eich contract, dyfarniad grant neu yn achos Cymorth Organig, eich Tystysgrif OCB a'r rhestr tir.

**G6.4** Ar gyfer BPS, fe all fod yn bosibl defnyddio swm sydd wedi'i orddatgan mewn un parsel i'w gyfrif mewn parsel arall sydd wedi'i danddatgan, ond dim ond ar ôl archwiliad.

**G6.5** Os gwelir bod arwynebedd grŵp cnydau yn llai na'r hyn sydd wedi'i ddatgan ar y SAF, caiff y taliad ei gyfrif ar sail yr arwynebedd lleiaf. Fodd bynnag, os yw'r gwahaniaeth yn yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar gyfer yr holl grwpiau cnydau yn llai na 0.10 hectar, bydd taliadau'n seiliedig ar yr arwynebedd a gafodd ei ddatgan.

## G7 Anghysonderau o Fewn Grwpiau Cnydau

### Cosbau BPS am Orddatgan

**G7.1** Os bydd y gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan a'r arwynebedd sydd wedi'i weld ar gyfer grŵp cnydau yn fwy na 3% neu 2 hectar o'r arwynebedd a welwyd, bydd yr arwynebedd sy'n gymwys am daliad yn cael ei leihau 1.5 gwaith y gwahaniaeth a welwyd.

**G7.2** Ni fydd y gosb yn fwy na 100% o'r symiau sy'n seiliedig ar yr arwynebedd gafodd ei ddatgan.

**Enghreifftiau:**

- Mae cwsmer yn datgan bod ganddo 100 hectar o dir BPS cymwys ond gwelir mewn archwiliad mai 98.5 hectar yw'r gwir arwynebedd. Ni chaiff y taliad ei leihau gan nad yw'r gwahaniaeth yn fwy na 3% neu 2 hectar ond bydd y taliad yn seiliedig ar 98.5 hectar
- Mae cwsmer yn datgan bod ganddo 100 hectar o dir BPS ond gwelir mewn archwiliad mai 90 hectar yw'r gwir arwynebedd. Gan fod 10 hectar o wahaniaeth, bydd taliad y BPS yn cael ei wneud ar 75 hectar, sef 90 hectar minws 15 hectar (10 hectar x 1.5).

**G7.3** Ond os bydd y gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan a'r arwynebedd sydd wedi'i weld ar gyfer grŵp cnydau yn fwy na 3% neu 2 hectar, o'r arwynebedd a welwyd, ond ddim mwy na 10% o'r arwynebedd a welwyd, caiff y gosb ei chyfrif yn unol â'r uchod a'i haneru. Rhoddir y gosb hon ar wahân ar bob cynllun – y BPS, Ailddosbarthu a Ffermwr Ifanc.

**Enghraifft:**

- Mae cwsmer yn datgan bod ganddo 100 hectar o dir BPS cymwys ond gwelir mai 88 hectar sydd ganddo. Gan fod yr arwynebedd sydd wedi'i orddatgan yn fwy na

10%, nid oes modd haneru'r arwynebedd sydd wedi'i orddatgan. Caiff y taliad BPS ei wneud ar 70 hectar, sef 88 hectar minws 18 hectar (12 hectar x 1.5)

- Mae cwsmer yn datgan bod ganddo 200 hectar o dir BPS cymwys ond gwelir mai 190 hectar sydd ganddo. Cyfrifir mai 10 hectar x 1.5 = 15 hectar yw'r gosb. Gan fod yr arwynebedd sydd wedi'i orddatgan yn llai na 10%, caiff y gosb BPS o 15 hectar ei haneru Caiff taliad BPS ei wneud ar 190 hectar – 7.5 hectar = 182.5 hectar.

## G8 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig

**G8.1** Os bydd y gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan a'r arwynebedd sydd wedi'i weld ar gyfer grŵp cnydau yn fwy na 3% neu 2 hectar o'r arwynebedd a welwyd, bydd yr arwynebedd sy'n gymwys am daliad yn cael ei leihau 1.5 gwaith y gwahaniaeth a welwyd.

**G8.2** Ni fydd y gosb yn fwy na 100% o'r symiau sy'n seiliedig ar yr arwynebedd gafodd ei ddatgan.

**Enghreifftiau:**

- Mae cwsmer yn datgan bod ganddo 100 hectar o dir Troi'n Organig cymwys ond gwelir mai 98.5 hectar sydd ganddo. Ni chaiff y taliad ei leihau gan nad yw'r gwahaniaeth yn fwy na 3% neu 2 hectar ond bydd y taliad yn seiliedig ar 98.5 hectar
- Mae cwsmer yn datgan bod ganddo 100 hectar o dir Troi'n Organig cymwys ond gwelir mai 90 hectar sydd ganddo. Gan fod 10 hectar o wahaniaeth, bydd y taliad yn cael ei wneud ar 75 hectar, sef 90 hectar minws 15 hectar (10 hectar x 1.5).

**G8.3** Ond os bydd y gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan a'r arwynebedd sydd wedi'i weld ar gyfer grŵp cnydau yn fwy na 3% neu 2 hectar, o'r arwynebedd a welwyd, ond ddim mwy na 10% o'r arwynebedd a welwyd, caiff y gosb ei chyfrif yn unol â'r uchod a'i haneru.

**Enghraifft:**

- Mae cwsmer yn datgan bod ganddo 100 hectar o dir Troi'n Organig cymwys ond gwelir mai 88 hectar sydd ganddo. Gan fod yr arwynebedd sydd wedi'i orddatgan yn fwy na 10%, nid oes modd haneru'r arwynebedd sydd wedi'i orddatgan. Caiff y taliad ei wneud ar 70 hectar, sef 88 hectar minws 18 hectar (12 hectar x 1.5)

- Mae cwsmer yn datgan bod ganddo 200 hectar o dir Troi'n Organig cymwys ond gwelir mai 190 hectar sydd ganddo. Cyfrifir mai 10 hectar x 1.5 = 15 hectar yw'r gosb. Gan fod yr arwynebedd sydd wedi'i orddatgan yn llai na 10%, caiff y gosb BPS o 15 hectar ei haneru Caiff taliad ei wneud ar 190 hectar – 7.5 hectar = 182.5 hectar.

## G9 Taliad Ffermwr Ifanc: Torri'r amodau cymhwysedd

**G9.1** Os byddwch yn torri'r amodau cymhwysedd, rhaid eich cosbi. Cynhelir archwiliadau gweinyddol neu archwiliadau ar y fferm i weld a ydych wedi torri rheolau ac os gwelir eich bod, cewch wybod hynny mewn llythyr.

**G9.2** Os nad yw'r ymgeisydd yn bodloni neu os gwelir nad yw'n bodloni'r amodau cymhwysedd a ddisgrifir ym mharagraffau B45 – B48 y llyfryn hwn, ni chaiff taliadau ffermwr ifanc eu talu neu bydd yn rhaid eu had-dalu'n llwyr.

**G9.3** Os gwelir bod tystiolaeth ffug wedi'i rhoi i brofi cymhwysedd, ni thelir y taliad Ffermwr Ifanc. Hefyd, bydd cosb ychwanegol, sy'n cyfateb i 20% o'r taliad Ffermwr Ifanc a fyddai wedi cael ei dalu, yn gorfod cael ei ad-dalu o daliadau yn y flwyddyn galendr nesaf. Os na fydd modd cymryd y swm llawn o'r taliadau yn y flwyddyn galendr nesaf, bydd y gweddill yn cael ei dynnu o daliadau a wneir yn y ddwy flynedd ganlynol, yn ôl yr angen. O ran gostwng y taliadau dros y tair blynedd ar ôl gorddatgan, gellir eu cymryd o daliadau BPS, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a thaliadau Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig.

## G10 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig: Torri amodau cynlluniau

**G10.1** Mae cyfraith a gymhathwyd a rheoliadau domestig yn nodi bod rhaid eich cosbi os byddwch yn torri meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynlluniau. Cynhelir gwiriadau gweinyddol neu archwiliadau ar y fferm i weld a ydych wedi torri rheolau, ac os gwelir eich bod wedi gwneud hynny, cewch wybod yn ysgrifenedig.

**G10.2** Bydd maint y gosb neu'r gwaharddiad yn dibynnu ar ba mor ddifrifol, mawr a pharhaol yw'r tramgwydd ac a yw'n digwydd mwy nag unwaith. O dan amgylchiadau penodol, caiff taliadau blynyddoedd cynt eu gostwng a'u gwahardd. O dan amgylchiadau difrifol iawn, gallai hyn olygu dod â'ch cytundeb i ben a'ch gwahardd rhag ymuno â chynllun Buddsoddi Gwledig arall am hyd at ddwy flynedd.

**G10.3** Mae Llywodraeth Cymru yn asesu tramgwyddau yn ôl safonau dilysadwy sy'n cyfateb i'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun. Mae matrics wedi'i lunio i benderfynu ar lefel y gosb. Mae'r matricsau cosbi a'r safonau dilysadwy i'w gweld ar [wefan Llywodraeth Cymru].

**G10.4** Os ydych yn hawlio taliadau nad ydynt yn seiliedig ar arwynebedd, er enghraifft, i wneud gwaith cyfalaf, ac os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu'ch bod yn hawlio costau anghymwys, ni chewch eich talu ar gyfer y rhai sy'n anghymwys. Os gwelir bod y costau anghymwys yn fwy na 10% o'r costau cymwys, tynnir swm o'ch taliad sy'n cyfateb i werth y costau anghymwys.

**G10.5** Os caiff cais ffug ei wneud, neu os na fydd y ffermwr wedi darparu'r wybodaeth angenrheidiol, bydd hynny'n arwain at wrthod taliadau ym mlwyddyn gweld y cais ffug a bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw arian a dalwyd yn y flwyddyn honno. Hefyd, efallai y cewch eich gwrthod rhag derbyn cymorth o dan Gynlluniau Buddsoddi Gwledig ym mlwyddyn gweld y cais ffug ac yn y flwyddyn galendr ganlynol.

**Enghraifft**: mae ffermwr yn hawlio £110 o gostau gwaith cyfalaf ond mae £13.20 yn anghymwys. Bydd gwerth y swm anghymwys (£13.20) yn cael ei dynnu o'r hawliad ynghyd â chosb o'r un swm (£13.20). Bydd y cwsmer felly yn cael hawlio £83.60, sef £26.40 yn llai na'r cais gwreiddiol.

## G11 Gostyngiadau am dorri rheolau Trawsgydymffurfio

**G11.1** Yn ôl rheoliadau, os na fyddwch yn dilyn y gofynion a'r safonau ar gyfer Trawsgydymffurfio, rhaid eich cosbi. Cynhelir archwiliadau gweinyddol neu archwiliadau ar y fferm i weld a ydych wedi cadw at y safonau ac os gwelir nad ydych, cewch wybod hynny mewn llythyr.

**G11.2** Os na fyddwch wedi bodloni'r Gofynion Rheoli Statudol (SMR) neu ofynion Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC), boed yn fwriadol neu drwy esgeulustod, gallech golli'ch taliad BPS, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig ar y tirneu taliadau Cynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig, neu ran o'r taliadau hynny. Wrth benderfynu ar faint y gostyngiad a'r gwaharddiad, byddwn yn ystyried pa mor fawr, difrifol, parhaol ac ailadroddus y bu'r achos o anghydymffurfio a phwy yn union sy'n gyfrifol amdano.

**G11.3** Os bydd ffermwr yn torri'r Rheolau ar Adnabod a Chofrestru gwartheg a/neu ddefaid/geifr, ceidwad yr anifeiliaid fel arfer fydd yn cael ei gosbi am dorri rheol. Ond os ydych yn gadael i anifeiliaid ffermwr arall bori ar eich tir, gofalwch fod y ceidwad wedi'i gofrestru yn ôl y gofyn, gan gynnwys rhoi gwybod i BCMS neu EID Cymru neu'r gwasanaeth AML2, fod anifeiliaid wedi'u symud ar eich tir ac oddi ar eich tir.

**G11.4** Os byddwch yn hawlio taliadau unrhyw gynllun sy'n dod o dan amodau Trawsgydymffurfio yn 2024, chi fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r holl ofynion Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr lawn. Os bydd tir yn cael ei drosglwyddo rhwng ffermwyr sy'n hawlio BPS, dim ond taliad yr hawliwr fu'n gyfrifol am dorri rheol fydd yn cael ei leihau neu ei atal. Fodd bynnag, yn achos taliadau Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig , taliadau'r ffermwr sy'n eu hawlio fydd yn cael eu lleihau neu eu hatal. Os ydych yn gosod tir neu'n gwerthu tir i ffermwyr eraill nad ydynt yn hawlio taliad arno am ran o'r flwyddyn ac os byddant yn torri amod Trawsgydymffurfio ar y tir hwnnw, bydd hyn yn effeithio ar eich taliad chi gan mai'ch cyfrifoldeb chi yw cadw at yr amodau Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr. Hefyd, gallai'r corff gorfodi arbenigol perthnasol eich erlyn am dorri SMR.

**G11.5** Cofiwch: rhaid cadw at y gofynion Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr lawn.

**G11.6** Os ydych yn trosglwyddo tir neu'n derbyn tir yn ystod y flwyddyn, mae'n bwysig eich bod yn ystyried amodau'r cytundeb rhyngoch chi a'r sawl sy'n trosglwyddo neu sy'n derbyn y tir. Gofalwch eich bod yn diogelu'ch buddiannau rhag ichi gael y bai am dramgwydd sy'n cael ei wneud gan y sawl sy'n trosglwyddo neu sy'n derbyn y tir.

**G11.7** Dylech gael gwybod gennym am unrhyw reol sydd wedi cael ei thorri o fewn tri mis ar ôl cynnal yr archwiliad. Ar gyfer profion TB hwyr, bydd hyn o fewn tri mis ar ôl i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion roi gwybod i Lywodraeth Cymru bod

prawf TB yn hwyr, nid y dyddiad pan roedd y prawf TB i fod i gael ei gynnal.

## G12 Bwriad

### Esgeulustod

**G12.1** Os byddwch yn torri un o'r rheolau Trawsgydymffurfio drwy esgeulustod, bydd eich holl daliadau uniongyrchol yn y flwyddyn galendr y gwelwyd bod y rheol wedi'i thorri yn cael eu lleihau. Fel arfer, bydd cyfanswm y taliad sy'n ddyledus yn cael ei ostwng 3%, ond gellid lleihau'r gostyngiad i 0% neu ei gynyddu i 5%, gan ddibynnu ar natur y tramgwydd.

**G12.2** Os byddwch yn torri mwy nag un rheol yn yr un maes Trawsgydymffurfio (e.e. iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion), byddant i gyd yn cael eu hystyried fel un achos o anghydymffurfio.

**G12.3** Mae tri maes Trawsgydymffurfio:

- Amgylchedd, newid yn yr hinsawdd a chyflwr Amaethyddol da y tir (SMR1-3 a GAEC 1-7)
- Iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion (SMR 4-10)
- Lles anifeiliaid (SMR 11-13).

**G12.4** Os byddwch yn torri rheolau mewn meysydd Trawsgydymffurfio gwahanol, byddwch yn cael eich cosbi am bob un ar wahân. Bydd y gostyngiadau canrannol yn cael eu cyfrif gyda'i gilydd ond ni fydd y gostyngiad yn fwy na 5% o gyfanswm y taliad os nad ydych torri'r rheol o'r blaen neu os nad yw'r rheol wedi'i thorri'n fwriadol. Mae tabl o daflenni ffeithiau Trawsgydymffurfio i'w weld yn Adran E y llyfryn hwn.

**G12.5** Os byddwch yn torri'r un rheol neu safon eto o fewn cyfnod o dair blynedd, bydd y gostyngiad a roddir am dorri'r rheol eto yn cael ei luosi â 3, cyn belled â'ch bod wedi cael gwybod ichi dorri'r rheol y tro cyntaf a'ch bod wedi cael amser i unioni unrhyw gam. Os byddwch yn torri'r un rheol eto wedi hynny, bydd y gostyngiad a gawsoch am dorri'r rheol y tro blaenorol yn parhau i gael ei luosi â 3 nes ei fod yn cyrraedd 15%. Dyna uchafswm y gosb am esgeulustod.

**G12.6** Unwaith y bydd cosb am esgeulustod yn cyrraedd yr uchafswm o 15%, os na fyddwch yn cadw at yr un safon neu ofyn unwaith eto o fewn cyfnod o dair blynedd, yna ystyrir eich bod wedi torri'r rheol yn fwriadol. Caiff y gosb am dorri'r rheol yn fwriadol ei chyfrif ar sail y gostyngiad diwethaf a gawsoch cyn cyrraedd y trothwy o 15%. Caiff ei luosi â 3. Bydd y rheolau ar dorri amodau'n fwriadol yn cael eu rhoi ar waith yn awr bob tro y byddwch yn torri'r amod. Mae cosb uwch o lawer am dorri safon yn fwriadol.

### Angydymffurfio bwriadol

**G12.7** Os ydych yn torri rheol yn fwriadol, caiff eich taliadau cyffredinol eu gostwng 20% ond gellid lleihau'r gostyngiad i 15% neu ei gynyddu i 100% gan ddibynnu ar bwysigrwydd y tramgwydd o'i fesur yn ôl ei faint, ei ddifrifoldeb, a yw'n barhaol neu a yw'n dramgwydd eildro.

**G12.8** Os gwelir ichi dorri rheol yn fwriadol mewn cysylltiad â chynllun penodol, cewch eich gwahardd o'r cynllun am y flwyddyn galendr honno.

## G13 Asesu cosbau

**G13.1** Mae Llywodraeth Cymru yn asesu unrhyw achos o dorri rheol trawsgydymffurfio ar sail y safonau dilysadwy. Mae matrics yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar lefel y gosb. Mae'r safonau dilysadwy a'r matrics cosbau i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

## G14 Crynhoi gostyngiadau

**G14.1** Ar gyfer y BPS, bydd gostyngiadau gwahanol yn effeithio ar rannau perthnasol y taliad, gan ddibynnu ai'r hawliau neu'r taliad Ailddosbarthu neu'r taliad Ffermwr Ifanc fydd yn cael eu gostwng. Felly, disgrifir pob un ar wahân. Bydd taliadau'n cael eu gostwng yn y drefn ganlynol a bydd pob gostyngiad dilynol yn seiliedig ar y swm sy'n weddill ar ôl y gostyngiad blaenorol:

**BPS (sy'n deillio o hawliau)**

- gorddatgan tir
- cyflwyno SAF yn hwyr, a chyflwyno cais am hawliau BPS a dogfennau ategol yn hwyr
- peidio â datgan arwynebedd
- capio; gostyngiadau llinellol er mwyn cadw at gyllideb BPS
- Trawsgydymffurfio.

**Taliad Ailddosbarthu**

- gorddatgan
- cyflwyno SAF yn hwyr a chyflwyno dogfennau ategol yn hwyr
- peidio â datgan arwynebedd
- gostyngiadau llinellol er mwyn cadw at gyllideb BPS
- Trawsgydymffurfio.

**Taliad Ffermwr Ifanc**

- gorddatgan tir a chosb Ffermwr Ifanc
- cyflwyno SAF yn hwyr a chyflwyno dogfennau ategol yn hwyr
- peidio â datgan arwynebedd

- gostyngiadau llinellol er mwyn cadw at derfyn y taliad i ffermwr ifanc
- gostyngiadau llinellol er mwyn cadw at gyllideb BPS
- Trawsgydymffurfio.

**G14.2** Ar gyfer Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig , bydd y taliadau'n cael eu gostwng yn y drefn ganlynol a bydd pob gostyngiad dilynol yn seiliedig ar y swm sy'n weddill ar ôl y gostyngiad blaenorol:

- gorddatgan arwynebedd
- torri amod ymuno â chynllun
- cais hwyr
- peidio â datgan arwynebedd
- Trawsgydymffurfio.

## G15 Amgylchiadau pan na chaiff taliadau eu lleihau na'u hatal

**G15.1** Bydd Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn y gallai force majeure neu amgylchiadau eithriadol rwystro ffermwr rhag cadw at ymrwymiadau penodol.  Os felly, bydd y ffermwr yn cadw ei hawl i gael cymorth ar gyfer y tir oedd ganddo ar y pryd pan ddigwyddodd y force majeure neu amgylchiadau eithriadol, ac mae'n bosib na roddir cosb na gofyn am ad-daliad.  Force majeure yw amgylchiadau anarferol y tu hwnt i reolaeth y ffermwr, na fyddai'r ffermwr er gwaethaf pob gofal wedi gallu osgoi eu canlyniadau heb aberth ormodol.  Dyma enghreifftiau o force majeure ac amgylchiadau eithriadol:

- marwolaeth y ffermwr/rheolwr tir
- cyflwr tymor hir sy'n rhwystro'r ffermwr/rheolwr tir rhag gweithio
- trychineb naturiol ddifrifol sy'n effeithio'n andwyol ar dir y daliad
- damwain sy'n dinistrio adeiladau da byw ar y daliad
- clefyd episootig neu glefyd planhigion sy'n effeithio ar dda byw neu ar gnydau'r ffermwr/rheolwr tir, neu ar rai ohonynt
- colli rhan fawr o'r daliad os nad oedd modd rhagweld hynny ar ddiwrnod cyflwyno'r cais.

**G15.2** Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y force majeure neu'r amgylchiad eithriadol trwy lythyr o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl ichi neu rywun ar eich rhan allu gwneud hynny.  Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.  Er mwyn i Lywodraeth Cymru allai ei bwyso a'i fesur, rhaid dangos tystiolaeth bendant bod y digwyddiad wedi digwydd.  Dylech wneud yn siŵr felly fod y cais yn cynnwys yr holl dystiolaeth berthnasol i gefnogi'ch achos a'i hanfon trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein neu i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

**G15.3** Ar gyfer BPS, bydd force majeure ac amgylchiadau eithriadol ar gael mewn cysylltiad â:

- chyflwyno cais yn hwyr
- yr hawl i daliad ar dir cymwys sydd wedi'i ddatgan ar y SAF ond nad yw ar gael ichi mwyach
- heb fodloni'r amod BPS bod y tir ar gael ichi ac o dan eich rheolaeth ar 15 Mai 2024
- dyraniad cyntaf o hawliau BPS, gan gynnwys y flwyddyn a ddefnyddiwyd i gyfrif gwerth hawliau BPS
- peidio â defnyddio hawliau BPS
- heb gydymffurfio â rhwymedigaethau Trawsgydymffurfio
- heb fodloni'r amod BPS bod y tir yn gymwys o dan y cynllun gydol y flwyddyn galendr.

**G15.4** Ar gyfer Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig, bydd force majeure ac amgylchiadau eithriadol ar gael mewn cysylltiad â:

- chyflwyno cais yn hwyr
- yr hawl i daliad ar dir cymwys sydd wedi'i ddatgan ar y SAF ond nad yw ar gael ichi mwyach oherwydd force majeure/amgylchiadau eithriadol
- heb gydymffurfio ag amodau Trawsgydymffurfio
- y gofyn i ad-dalu'r cymorth, neu ran ohono
- cosbau gweinyddol.

## G16 Camgymeriadau amlwg

**G16.1** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r amod hwn yn unol ag erthygl 4 Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 809/2014 (a ddargedwir yng nghyfraith domestig) a chaiff ond derbyn y camgymeriadau sydd i'w gweld yn amlwg wrth gynnal archwiliad gweinyddol o'r wybodaeth mewn ceisiadau am gymorth, ceisiadau am gefnogaeth, hawlio taliadau neu ddogfennau ategol.

**G16.2** Fel rheol gyffredinol, i gamgymeriad fod yn un amlwg, byddwn wedi gallu ei ddarganfod gan ddefnyddio'r wybodaeth yr oeddech wedi'i chyflwyno ar eich SAF h.y. bod archwiliad gweinyddol o'r dogfennau a'r wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais (yn enwedig y ffurflen gais, dogfennau ategol, datganiadau ac ati) yn datgelu camgymeriadau o'r fath.

## G17 Newid ac ychwanegu

**G17.1** Cyn belled â bod eich SAF yn cael ei chyflwyno erbyn canol nos 15 Mai 2024, mae gennych tan 31 Mai 2024, gan gynnwys y diwrnod hwnnw, i newid eich SAF heb gosb i:

- ychwanegu parseli o dir amaethyddol oedd o dan eich rheolaeth ar 15 Mai 2024
- newid defnydd parseli o dir, a/neu
- hawlio cynllun gwahanol ar barseli unigol o dir.

**G17.2** Os byddwch yn newid manylion parseli tir ar ôl 31 Mai 2024 bydd cosb o 1% am bob diwrnod gwaith yr oedd yn hwyr. Ni dderbynnir newidiadau ar ôl 10 Mehefin 2024.

**G17.3** Ond, os byddwn wedi rhoi gwybod ichi fod camgymeriad ar eich SAF neu fod archwiliad ar gael ei gynnal sydd wedyn yn datgelu camgymeriad, ni chewch gywiro'r camgymeriad na newid manylion eich parseli dan sylw.

## G18 Rhoi gwybod am gamgymeriad

**G18.1** Cewch roi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy lythyr unrhyw bryd os oes unrhyw ran o'ch SAF yn anghywir neu wedi dod yn anghywir ers cyflwyno'r cais. Bydd yr wybodaeth a rowch yn cael ei defnyddio i newid eich cais heb eich cosbi, er na fydd modd ichi gynyddu'ch hawliad trwy'r dull hwn. Ond, ni chewch gywiro camgymeriad os bydd Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi gwybod ichi am y camgymeriad neu fod archwiliad ar gael ei gynnal sydd wedyn yn datgelu camgymeriad. Enghraifft o hyn fyddai ffermwr sy'n dweud nad oedd cae a gafodd ei ddatgan ar gyfer y BPS ar gael iddo neu o dan ei reolaeth ar 15 Mai 2024.

**G18.2** Mae'r rheol rhoi gwybod am gamgymeriad ar gael ar gyfer Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig. Enghraifft o hyn fyddai pe baech yn rhoi gwybod am gae y gwnaethoch ei ddatgan ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru nad yw o dan eich rheolaeth mwyach.

**G18.3** Os gwelwch fod camgymeriad neu wybodaeth ar goll ar gofnodion y System Olrhain Gwartheg, rhowch wybod i BCMS ar unwaith. Gallech osgoi cosbau Trawsgydymffurfio os bydd y cronfeydd data canolog ar symud da byw yn cael eu cywiro cyn i unrhyw archwiliad Trawsgydymffurfio gychwyn neu eich bod yn bodloni'r gofynion o ran rhoi gwybod am gamgymeriadau.

## G19 Tynnu'r SAF yn ôl

**G19.1** Mae gennych yr hawl unrhyw bryd i dynnu'ch SAF yn ôl heb gosb, ond nid pan fyddwch wedi cael gwybod bod camgymeriadau arni neu fod archwiliad ar gael ei gynnal.

**G19.2** Rhaid ichi wneud cais i dynnu'r SAF yn ôl naill ai drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein neu drwy lythyr at y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Os byddwch yn tynnu'ch SAF yn ôl, cewch gyfle i gyflwyno cais arall yn y cyfnod cyflwyno. Bydd gofyn ichi ad-dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â thynnu'r cais yn ôl, ynghyd â llog.

# Adran H – Archwiliadau

## H1 Archwiliadau

**H1.1** Rhaid archwilio canran o ffermwyr bob blwyddyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cadw at reolau'r cynlluniau gwahanol, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol, Cynllun Ffermwr Ifanc, y Taliad Ailddosbarthu, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig, Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwlediga Thrawsgydymffurfio, yn ogystal ag archwiliadau eraill a wneir gan Adrannau eraill y Llywodraeth neu Gynlluniau Gwarant Ffermydd.

**H1.2** Os gwelir bod rheolau wedi'u torri, mae'n bosib y rhoddir cosbau ar daliadau BPS, Ffermwr Ifanc ac Ailddosbarthu a thaliadau Cynlluniau Buddsoddi Gwledig neu Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig  y byddwch yn eu cael.

## H2 Beth yw'r archwiliadau?

**H2.1** Rhaid i RPW gynnal archwiliadau rheoli ar y fferm bob blwyddyn i gadarnhau bod ffermwyr yn cadw at reoliadau ac amodau'r cynlluniau.  Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) ac Awdurdodau Rheoli Cymwys (CCA) eraill fydd yn cynnal yr archwiliadau hyn.

**H2.2** Mae'r ddeddfwriaethyn nodi'r nifer gofynnol o archwiliadau y mae'n rhaid eu cynnal bob blwyddyn, ac maent yn cael eu dewis trwy broses awtomatig sy'n cyfuno asesu risg a dewis ar hap.

**H2.3** Canran y ffermydd sy'n gorfod cael eu harchwilio:

- Cynllun y Taliad Sylfaenol (gan gynnwys Cynllun Ffermwr Ifanc a'r Taliad Ailddosbarthu) – 1% o'r holl fuddiolwyr
- Cynlluniau Buddsoddi Gwledig – 5% o'r holl fuddiolwyr
- Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig – 5% o'r holl fuddiolwyr
- Adnabod Gwartheg – 3% o'r ceidwaid/buddiolwyr
- Adnabod Defaid a Geifr – 3% o'r ceidwaid/buddiolwyr
- Trawsgydymffurfio – 1% o'r holl fuddiolwyr.

**H2.4** Mae'n bosibl y bydd angen cynyddu'r canrannau hyn, yn y flwyddyn galendr hon neu'r nesaf os bydd lefel y camgymeriadau a welir mewn archwiliadau yn fwy na'r lefelau a ganiateir yn y rheoliadau.  Mae'n bosibl y cynhelir archwiliadau ychwanegol os bydd aelod o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill yn cyfeirio achos.

**H2.5** Mae rheolau caeth iawn ynghylch rhoi rhybudd bod archwiliad ar fin cael ei gynnal ac mae rheoliadau'n nodi'r union amseriad.  Ni fyddwn fel arfer yn rhoi rhybudd ichi, ond o dan amgylchiadau arbennig, mae'n dderbyniol rhoi hyd at 48 awr o rybudd.  Fel rheol, un archwilydd fydd yn cynnal yr archwiliad ond ambell waith caiff ei gydweithwyr neu archwilwyr eraill (neu'r ddau) fod yn bresennol hefyd.

**H2.6** Gellir defnyddio lluniau lloeren hefyd er mwyn asesu cymhwystra tir, ac mae'n bosibl y cynhelir archwiliad ar y fferm lle nodir anghysonderau.

## H3 Pam mae angen ymweld â chi?

**H3.1** Bydd angen inni ymweld â chi i wneud yn siŵr:

- bod eich datganiadau a'ch hawliadau am daliad yn gywir
- eich bod yn bodloni gofynion y cynllun
- bod eich anifeiliaid wedi'u tagio a'u cofrestru'n gywir
- eich bod yn cadw at y safonau Trawsgydymffurfio.

## H4 Beth byddwn yn ei wneud?

**H4.1** Bydd yr archwilydd yn archwilio'ch fferm ac yn edrych, yn ôl y gofyn, ar eich tir, cnydau, da byw ar gofnodion y fferm a'r symudiadau sydd wedi'u hadrodd i BCMS ar gyfer gwartheg neu EID Cymru ar gyfer defaid.

**H4.2** Ar ôl cyrraedd eich fferm neu wrth drefnu apwyntiad, bydd yr archwilydd yn esbonio:

- pwrpas yr ymweliad
- y rheswm dros yr archwiliad
- beth fydd gofyn ichi ei wneud
- sut y caiff yr archwiliad ei gynnal
- am faint y bydd yr archwiliad yn para (er gallai hyn ddibynnu ar yr hyn a welir yn yr archwiliad).

## H5 Sut gallwch baratoi ar gyfer archwiliad?

**H5.1** Gallwch baratoi ar gyfer archwiliad drwy:

- sicrhau eich bod wedi ymateb i holl ohebiaeth Llywodraeth Cymru ac wedi ateb unrhyw ymholiadau ynghylch eich ceisiadau
- rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau yn eich ceisiadau, e.e. sut mae'r tir yn cael ei ddefnyddio, a hynny mewn da bryd
- cadw cofnodion diweddar sy'n gywir ac yn gyflawn.

**H5.2** Mae rhestr cyn archwiliad wedi'i darparu ar dudalen 78 y Llyfryn hwn i'ch helpu i baratoi ar gyfer archwiliad.

**H5.3** Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd yn y llyfryn 'Pan ddaw'r archwilydd: Canllaw defnyddiol i ffermwyr' sydd ar gael ar Achwiliadau fferm neu gan y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

## H6 Sut gallwch chi ein helpu ni?

**H6.1** Gallwch ein helpu drwy:

- lenwi'ch hawliadau a datganiadau yn gywir a'u cyflwyno'n brydlon
- cadw copïau o'ch hawliadau a datganiadau er mwyn ichi allu cyfeirio atyn nhw
- cadw'ch cofnodion yn unol â 'Pan ddaw'r archwilydd'
- gofalu bod eich cofnodion a'ch dogfennau'n gyfoes ac wrth law
- mynd gyda'r archwilydd yn ystod yr archwiliad, os medrwch.

## H7 Sut gallwn ni eich helpu chi?

**H7.1** Os ydych yn pryderu am y ffordd rydych yn cadw cofnodion neu'n cydymffurfio â'r Cynllun, mae Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) ar gael bob amser i'ch helpu. Cyn belled â'ch bod yn cysylltu â'r Gwasanaeth, gall edrych ar eich cofnodion i weld a ydych wedi cofnodi'r pethau iawn yn y drefn gywir. Bydd hynny'n tawelu unrhyw ofnau ac yn gwneud ein gwaith yn haws, os bydd yn rhaid inni ymweld. Rydym yn addo na fydd gofyn am gyngor o'r fath yn arwain at archwiliad.

**H7.2** Ni chaiff yr FLS eich helpu os bydd dyddiad archwiliad wedi'i gyhoeddi.

## H8 Cynlluniau Tir

### Pa gynlluniau fydd yn cael eu harchwilio?

**H8.1** Dyma'r cynlluniau sy'n cael archwiliadau tir:

- BPS (gan gynnwys y taliad i Ffermwyr Ifanc a'r Taliad Ailddosbarthu)
- Cynlluniau Buddsoddi Gwledig
- Cynlluniau Creu Coetir DG.

### Beth mae'r archwilydd yn ei wneud

**H8.2** Bydd yr archwilydd yn sicrhau nad yw'r tir a hawliwyd yn cynnwys tir anghymwys ar gyfer y cynllun a bod gofynion y cynllun yn cael eu bodloni. Bydd hynny'n golygu mesur caeau, gan gynnwys tir dan borfa neu gnydau âr, a heb gynnwys nodweddion fel heolydd, pyllau dŵr a thir â mwy na 100 o goed fesul hectar neu adeiladau ac ati.

**H8.3** Bydd yr archwilydd am weld dogfennau sy'n cefnogi'ch hawliad e.e. cytundebau rhentu ar dir pori tymhorol. Mae'n bosibl hefyd y bydd rhaid iddo gynnal archwiliadau pellach i brofi'ch bod yn bodloni'r diffiniad o ffermwr a'ch bod yn cyflawni gweithgareddau amaethyddol. Gallai hyn olygu edrych ar dderbynebau ac anfonebau.

**H8.4** Os ydych yn hawlio taliad y Ffermwr Ifanc, bydd yr archwilydd yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi'ch hawliad.

**H8.5**. Ar gyfer Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir DG byddwn yn cynnal archwiliad er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â holl ofynion y cynllun.

**H8.6** Byddwn yn cynnal rhai archwiliadau gyda chymorth delweddau lloeren Synhwyro o Bell. Rydym yn eu defnyddio nhw a lluniau o'r awyr i weld faint o dir cymwys sydd gennych heb orfod anfon archwilydd atoch. Os nad oes gennym gwestiynau, wnewch chi ddim clywed gennym. Os oes rhywbeth yn bod, byddwn yn anfon llythyr atoch ac yn gofyn ichi am esboniad neu fe allwn anfon archwilydd i'ch gweld.

**Am beth rydym yn chwilio?**

**H8.7** Bydd yr archwilydd yn edrych i weld:

- bod ffiniau pob cae yn gywir
- bod pob nodwedd anghymwys fel adeiladau, ffyrdd, traciau, rhedyn, prysg ac ati wedi cael ei datgan
- bod pob grŵp o goed a choetir anghymwys wedi cael ei dynnu o ran pori'r cae
- bod gwybodaeth, fel cytundebau rhentu, yn dangos mai chi sydd â'r hawl i ddefnyddio'r tir
- bod gwybodaeth, fel cytundebau rhentu, derbynebau, anfonebau yn dangos mai chi sydd â rheolaeth ar y tir
- bod y manylion yn y dyddiadur pori/gwaith (os oes angen ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru)
- eich bod wedi cydymffurfio â holl ofynion Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig.

**Sut gallwch chi ein helpu ni?**

**H8.8** Gallwch ein helpu drwy:

- sicrhau bod pob cae ar y SAF a gwneud yn siŵr bod yr arwynebedd rydych yn ei ddatgan yn gywir
- tynnu pob rhan o dir na ellir ei bori, fel coed, nentydd, adeiladau, rhedyn, prysg ac ati
- sicrhau bod y manylion yn eich dyddiadur pori/gwaith (os oes angen ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru)
- cysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm os oes angen help neu arweiniad arnoch gyda rheolau'r cynlluniau.

## H9 Archwiliadau Adnabod Gwartheg

### Beth mae'r archwilydd yn ei wneud

**H9.1** Bydd yr archwilydd yn rhifo'r anifeiliaid, yn darllen yr holl dagiau clust, yn archwilio pob pasbort ac yn eu cymharu â'r hyn sydd yng nghofnodion y fferm ac ar y System Olrhain Gwartheg (CTS).

### Am beth rydym yn chwilio?

**H9.2** Prif bwrpas yr archwiliad yw gwneud yn siŵr bod:

- gan y gwartheg ddau dag yn unol â'r rheoliadau presennol, a bod tagiau newydd yn cael eu harchebu a'u gosod yn lle rhai a gollwyd yn briodol
- y gwartheg wedi'u cofrestru'n gywir gyda BCMS
- bod genedigaethau, marwolaethau a symudiadau wedi'u cofnodi'n gywir
- bod y BCMS yn cael gwybod am symudiadau i ac o'r fferm o fewn 3 diwrnod calendr
- bod y BCMS yn cael gwybod am farwolaethau o fewn 7 niwrnod calendr.

### Sut gallwch chi ein helpu ni?

**H9.3** Gallwch ein helpu drwy:

- sicrhau bod gan yr anifeiliaid geidwad cofrestredig
- bod yn barod i grynhoi'r anifeiliaid a gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau ar gyfer trin da byw yn addas ac mewn cyflwr da (bydd hyn yn lleihau unrhyw risg i bobl sy'n trin y stoc ac i'r da byw a'r archwilwyr)
- cadw dogfennau adnabod a chofnodion yn gyfoes a chywir
- defnyddio CTS Online i gofrestru a chadarnhau'r wybodaeth sydd ar CTS.

## H10 Archwiliadau Adnabod Defaid a Geifr

### Beth mae'r archwilydd yn ei wneud

**H10.1** Bydd yr archwilydd yn cyfri'r anifeiliaid i gadarnhau bod eich cofnodion yn gywir ac yn cymharu nifer y defaid â'r nifer sydd ar eich cofnodion a'r wybodaeth a roddwyd ar y stocrestr flynyddol, y dogfennau symud a'r anfonebau prynu a gwerthu. Hefyd bydd yn archwilio sampl o'r tagiau clust i wneud yn siŵr bod y defaid wedi'u tagio'n gywir a bod y rhifau wedi'u cofnodi yn y cofnodion lle bo gofyn.

### Am beth rydym yn chwilio?

**H10.2** Bydd yr archwilydd yn cadarnhau:

- bod llyfr cofnod eich diadell yn gywir ac yn gyfoes

- bod cofnod o nifer yr anifeiliaid sydd ar eich fferm ar 1 Ionawr fel rhan o’r Stocrestr Flynyddol
- bod nifer yr anifeiliaid adeg yr archwiliad yn gyson â’r Stocrestr Flynyddol
- bod eich defaid a’ch geifr wedi’u tagio’n gywir
- eich bod wedi cofrestru’n briodol â’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- bod gennych drwyddedau symud cywir, sy’n cyfateb i symudiadau a chofnodion eich anifeiliaid
- eich bod wedi rhoi gwybod am bob symudiad i EID Cymru
- bod gennych gofnod o bob anifail sydd wedi marw
- bod gennych gofnod o bob anifail sydd wedi cael tagiau electronig cyfnewid a newydd.

**Sut gallwch chi ein helpu ni?**

**H10.3** Gallwch ein helpu trwy:

- sicrhau bod gan yr anifeiliaid geidwad cofrestredig
- bod yn barod i grynhoi’r anifeiliaid a gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau ar gyfer trin da byw yn addas ac mewn cyflwr da (bydd hyn yn lleihau unrhyw risg i bobl sy’n trin y stoc ac i’r da byw a’r archwilwyr)
- cadw dogfennau adnabod a chofnodion yn gyfoes a chywir
- sicrhau eich bod yn rhoi gwybod am bob symudiad i EID Cymru.

## H11 Archwiliadau Trawsgydymffurfio

**H11.1** Set o ofynion yw Trawsgydymffurfio y mae’n rhaid i bob cwsmer gydymffurfio â nhw er mwyn medru cael taliad llawn. O dorri’r amodau hyn, caiff eich taliadau eu cosbi.

**H11.2** Dyma'r cyfrifoldebau:

| Awdurdod Rheolwr Cymwys | Y Maes y mae'r yn gyfrifol amdano |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | SMRs 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10<br>GAECs 1, 2, 4, 5, 6 a 7 |
| Llywodraeth Cymru (Gyda Cyfoeth Naturiol Cymru) | SMR 1 a GAEC 3 |
| Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | SMRs 11, 12, 13 |
| Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (Archwiliadau gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion) | SMR 5 |

**H11.3** Caiff mwy nag un archwilydd gynnal archwiliad Trawsgydymffurfio a gallech gael eich archwilio fwy nag unwaith mewn blwyddyn, hynny efallai am fod yr Awdurdod Rheoli Cymwys wedi methu ag archwilio'r holl ofynion y mae'n gyfrifol amdanyn nhw mewn un archwiliad neu am fod mwy nag un Awdurdod wedi dewis archwilio'ch busnes.

**H11.4** Bydd pob Awdurdod yn dewis ac yn cynnal archwiliadau ar wahân, a bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio gwartheg a defaid ar wahân i'r prif archwiliadau trawsgydymffurfio. Ond, lle y bo'n bosibl o gwbl, byddwn yn ceisio cyfuno a chyd-drefnu archwiliadau.

**Yr hyn sydd angen ichi ei wneud cyn yr ymweliad**

**H11.5** Bydd y rhestr cyn archwiliad ar dudalen 78 y llyfryn hwn yn eich helpu.

**Beth byddwn yn ei archwilio**

**H11.6** Bydd y swyddog archwilio'n cadarnhau bod y SMR ac GAEC yn cael eu bodloni drwy:

- asesu'r tir yn weledol
- archwilio anifeiliaid yn gorfforol
- archwilio cofnodion.

**H11.7** Byddwn hefyd yn sicrhau bod profion TB Gwartheg yn unol ag SMR 4 (Cyfraith ar Fwyd a Phorthiant) yn cael eu cwblhau drwy edrych yn uniongyrchol ar gronfa ddata'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

**Sut gallwch chi ein helpu ni?**

**H11.8** Gallwch ein helpu drwy:

- Ddarllen y taflenni ffeithiau am Drawsgydymffurfio. Byddant yn dweud wrthych chi am y prif bwyntiau ar gyfer pob SMR a GAEC

- Gofyn i'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm am help os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud
- Sicrhau bod pob prawf TB wedi'i gynnal o fewn yr amser penodol ac erbyn dyddiadau cau yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

## H12 Cadw cofnodion

**H12.1** Rhaid ichi gadw, am hyd at 10 mlynedd, yr holl gofnodion a gwybodaeth angenrheidiol i ddangos eich bod wedi darparu gwybodaeth gyflawn a chywir ar eich SAF, a cheisiadau eraill, a'ch bod wedi gwneud yr hyn y mae angen ichi ei wneud.

**H12.2** Rhaid glynu at y gofynion penodol ar gyfer cofnodi da byw hefyd. Rhaid i'r cofnodion hyn fodloni'r rheoliadau presennol o ran cofrestru ac adnabod anifeiliaid, symud anifeiliaid a niferoedd anifeiliaid. Mae llyfrau cofnodi safonol ar gyfer gwartheg, defaid a geifr ar gael gan y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm.

**H12.3** Os hoffech i Lywodraeth Cymru fwrw golwg ar eich cofnodion i weld a ydynt yn bodloni'r safonau angenrheidiol, dylech gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid i drefnu apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm. Nid yw'r gwasanaeth yn cael dweud a yw'r cofnodion yn gywir ond fe fydd yn gallu dweud a yw'r fformat yn bodloni'r rheoliadau gofynnol. Cofiwch na all y gwasanaeth hwn gywiro camgymeriadau os oes archwiliad eisoes wedi'i gyhoeddi na chamgymeriadau sydd eisoes wedi'u gweld mewn archwiliad.

## H13 Beth sy'n digwydd ar ôl archwiliad?

**H13.1** Ar ddiwedd yr archwiliad corfforol, bydd yr archwilydd yn llenwi ffurflen a fydd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r archwiliad ac yn nodi manylion unrhyw amodau fydd wedi'u torri. **Cofiwch**, gallai archwiliad gweinyddol sy'n cael ei gynnal ar ôl yr archwiliad weld bod amodau eraill wedi'u torri.

**H13.2** Gofynnir ichi lofnodi'r ffurflen i gydnabod bod yr archwiliad wedi'i gynnal a'ch bod yn deall y prif ganfyddiadau.

**H13.3** Byddwch chi'n cadw copi uchaf y ffurflen a bydd yr archwilydd yn cadw'r copi isaf. Weithiau bydd ffurflenni eraill yn cael eu gadael gyda chi, i nodi'r canfyddiadau ychwanegol yn fanwl.

**H13.4** Os byddwn wedi cynnal archwiliad gwartheg ac wedi gweld camgymeriadau, byddwn yn gadael ffurflen arall ichi sy'n rhestru rhifau'r tagiau y gwelwyd camgymeriadau arnynt. Byddwn yn mynd ag unrhyw basbort sbâr ac yn rhoi derbynneb ichi amdano.

**H13.5** Os byddwn yn cynnal archwiliad o dda byw ac yn gweld bod rhywbeth yn bod ar lawer o dagiau clust neu'n methu â chael hyd i gofnod ar gyfer pob anifail ar y fferm, efallai y byddwn yn gosod gorchymyn ar y fferm i gyfyngu ar symudiadau anifeiliaid.

**H13.6** Os oes unrhyw beth ar y ffurflenni nad ydych yn ei ddeall, gofynnwch i'r archwilydd esbonio.

**H13.7** Yn achos pob archwiliad, mae’n bosibl y bydd angen cynnal archwiliadau gweinyddol ar ôl yr archwiliad cyn bod cyhoeddi’r manylion.

**H13.8** Pan fydd yr holl archwiliadau wedi’u cynnal, bydd y manylion yn cael eu rhoi yn ein cronfa ddata inni allu dilysu’ch hawliad. Byddwn yn anfon llythyr atoch i esbonio effaith unrhyw dramgwydd fydd wedi cael ei weld yn ystod yr archwiliadau.

**H13.9** Ni fydd buddiolwyr a cheidwaid anifeiliaid sydd wedi cydymffurfio yn cael llythyr.

## H14 Y camgymeriadau mwyaf cyffredin – sy’n arwain at gosbau ariannol

**H14.1** Dyma rai o’r camgymeriadau mwyaf cyffredin:

Pob archwiliad:

- heb gadw cofnodion cyfoes, cyflawn a digonol.

Da byw:

- heb sicrhau bod tagiau clust yn cael eu cynnal yn briodol.

Gwartheg:

- peidio â rhoi gwybod i’r BCMS am symudiadau gwartheg o fewn 3 diwrnod calendr
- peidio â rhoi gwybod i’r BCMS o fewn 7 diwrnod calendr am farwolaeth gwartheg

Cynlluniau Buddsoddi Gwledig:

- gwaith cyfalaf heb ei gwblhau’n llwyr o fewn yr amser a nodwyd neu at y safon briodol
- difrod i dir cynefin
- dim dyddiadur stocio na gwaith wedi’i gadw a/neu wybodaeth wedi’i chofnodi’n anghywir
- lefelau stocio neu ofynion gwahardd stoc ddim yn cael eu bodloni
- peidio â datgan newidiadau i dir a nodweddion anghymwys.

## H15 Rhestr i ffermwyr o bethau i'w gwneud cyn archwiliad

Fe welwch isod restr i'ch helpu i baratoi ar gyfer archwiliad ac i'ch atgoffa o rai o'r pethau y dylech gadw golwg reolaidd arnyn nhw. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a byddem yn eich cynghori i darllen y rhestr hon ar y cyd â'r set gyfan o ofynion.

| **Pob Archwiliad:** |
|---|
| Gwnewch yn siŵr bod eich holl gofnodion, cofrestrau a dyddiaduron yn gyfoes.<br>**Enghraifft:** gofalwch fod y cofnodion ar gyfer y canlynol yn gywir:<br>1 Trawsgydymffurfio (e.e. bod y gofrestr wartheg yn cynnwys dyddiadau geni, symudiadau a marwolaethau; eich bod yn cofnodi'r moddion a Chynnyrch Amddiffyn Planhigion).<br>2 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig (e.e. dyddiaduron stocio a gwaith). |
| **Archwilio Tir:** |
| Gwnewch yn siŵr bod yr holl dir sydd ar gael ichi wedi cael ei ddatgan yn gywir, gan gynnwys unrhyw newidiadau ers cyflwyno'r SAF. |
| Gwnewch yn siŵr bod ffin pob cae yn gywir a bod pob nodwedd anghymwys wedi'i thynnu o'r arwynebedd. |
| **Archwiliadau Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig:** |
| Edrychwch ar eich Contract a/neu Dyfarniad Grant i wneud yn siŵr eich bod wedi bodloni pob gofyn.. |
| **Archwiliadau Da Byw:** |
| Gwnewch yn siŵr bod yr holl gofnodion yn gyflawn ac yn gyfoes, ac yn cynnwys manylion pob genedigaeth, symudiad a marwolaeth. |
| Gwnewch yn siŵr nad yw'ch anifeiliaid wedi colli eu tagiau. Os oes tagiau ar goll, bydd angen archebu rhai yn eu lle ac aildagio'r anifeiliaid. |
| Gwnewch yn siŵr bod gennych basbortau ar gyfer yr holl wartheg ar eich daliad. Dychwelwch basbortau nad oes gennych anifeiliaid ar eu cyfer yn ôl i'r BCMS. |
| Gwnewch yn siŵr bod y BCMS yn gwybod am bob anifail sy'n marw neu sy'n cael ei werthu. |

| **Archwiliadau Da Byw (parhad):** |
|---|
| Os oes gennych dir mewn lle ar wahân i'r prif ddaliad neu stoc oddi cartref, holwch eich swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol a oes angen cadw cofnodion ar wahân a rhoi gwybod am symudiadau. |
| Gwnewch yn siŵr bod gennych gyfleusterau trin da byw yn ystod yr archwiliad e.e. craets ar gyfer gwartheg. |
| **Archwiliad Trawsgydymffurfio:** |
| Darllenwch y taflenni ffeithiau am Drawsgydymffurfio ar wefan Llywodraeth Cymru i fod yn siŵr eich bod yn bodloni'r Gofynion SMR ac GAEC. |
| **Ar ôl cwblhau'r Archwiliad:** |
| Gofynnwch am gael llofnodi ffurflen Crynodeb yr Archwiliad ac unrhyw ffurflenni eraill i gydnabod bod yr archwiliad wedi cael ei gynnal a'ch bod yn deall y prif ganfyddiadau. |
| Gwnewch yn siŵr bod unrhyw ofynion sydd ar restr Crynodeb yr Archwiliad yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen a nodir. |
| Ar gyfer archwiliadau gwartheg:<br>Cewch restr o rifau'r tagiau y gwelwyd camgymeriadau arnynt. Byddwn yn cymryd pasbortau nad oes gennych anifeiliaid ar eu cyfer ac yn rhoi derbynneb ichi ar eich cyfer. |

# Adran I – Y Drefn Apelio a Chwyno

## I1 Y drefn apelio

**I1.1** Mae'r 'Proses Apelio Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig' yn cynnig trefn apelio annibynnol ichi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau cynllun. Bydd y broses yn edrych ar benderfyniadau'n ymwneud â:

- BPS
- Cynllun Coetir Ffermydd, Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd
- Cynlluniau Buddsoddi Gwledig
- Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig.

**I1.2** Mae'r broses apelio wedi'i rhannu'n ddwy ran:

- Cam 1: RPW i adolygu'r achos
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os byddwch yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1).

**I1.3** Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, a fydd yn penderfynu'n derfynol ar y mater gan ddod â'r broses i ben.

**I1.4** Nid oes tâl am Gam 1 y broses ond codir tâl ar gyfer Cam 2 – £50 am wrandawiad ysgrifenedig a £100 am wrandawiad llafar. Bydd yr arian hwn yn cael ei dalu'n ôl yn llawn os bydd Cam 2 yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.

**I1.5** Rhaid i apêl, gan gynnwys y dystiolaeth ategol, gyrraedd o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

**I1.6** Mae croeso ichi ohebu â ni yn y Gymraeg a byddwn yn ateb unrhyw lythyr yn y Gymraeg os mai honno yw'r iaith sy'n well gennych ei defnyddio. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.

**I1.7** Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y drefn apelio ac am sut i gyflwyno apêl gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein cysylltwch â'ch Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ewch i: Apeliadau Grantiau a Thaliadau Gwledig: Canllaw.

## I2 Y drefn gwyno

**I2.1** Byddwn yn delio â chwynion yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud gan y Tîm Cynghori ar Gwynion:

Y Tîm Cynghori ar Gwynion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251378
E-bost: cwynion@llyw.cymru
Gwefan: Cwyn am Lywodraeth Cymru

**I2.2** Gallwch gysylltu hefyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

1 Ffordd yr Hen Gae,
Pen-coed,
CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203
Gwefan: Ombwdsmon

## Adran J – Datgelu Data

## J1 Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Preifatrwydd

**J1.1** Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar Ffurflen y Cais Sengl (SAF) neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â'ch cais am gymorth o dan Daliad Uniongyrchol, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig. Mae'n esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Rheolydd data'r wybodaeth a gyflwynir fel rhan o SAF 2024 yw **Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

Swyddog diogelu data yr wybodaeth honno yw'r **Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**
**E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru**

**J1.2** Bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn rheoli'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi iddi yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol (fel y'u cedwir gan Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (c.2) a Rheoliadau (DU) 2020/90 a 2020/91):

- Rheoliad y Cyngor Rhif 1305/2013
- Rheoliad y Cyngor Rhif 1306/2013
- Rheoliad y Cyngor Rhif 1307/2013
- Rheoliad y Comisiwn Rhif 640/2014
- Rheoliad y Comisiwn Rhif 807/2014
- Rheoliad y Comisiwn Rhif 808/2014
- Rheoliad y Comisiwn Rhif 809/2014
- Rheoliad y Comisiwn Rhif 907/2014
- Rheoliad y Comisiwn Rhif 908/2014
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol rhif 679/2016.

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu ac asesu'r SAF. Ond, caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Daliad Uniongyrchol, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig aChynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig a'i hymrwymiadau amgylcheddol statudol.

**J1.3** Sail cyfreithiol y prosesu yw bod ei angen i gyflawni tasg a gynhelir wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i Lywodraeth Cymru.

**J1.4** Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data personol er mwyn gallu nodi'ch lleoliad chi a busnes eich fferm. Nid yw Llywodraeth Cymru'n casglu data categori arbennig.

**J1.5** Prosesir y data trwy broses wedi'i hawtomeiddio o reolau busnes sy'n defnyddio Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) fel allwedd i fwyafrif yr adroddiadau.

**J1.6** Caiff eich gwybodaeth ei storio yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn rhif 908/2014, 'Cadwraeth wybodaeth ariannol'.

## J2 Rhesymau dros rannu data personol

**J2.1** Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r safonau Trawsgydymffurfio, ymhlith pethau eraill, cyn cael taliad. Dyma'r asiantaethau sy'n gyfrifol am sicrhau bod cwsmeriaid yn cydymffurfio â'r gofynion hyn ac y caiff Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth â nhw:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaeth eraill Llywodraeth y DU.

Yn benodol, defnyddir yr wybodaeth fel a ganlyn:

- croeswirio gwybodaeth a Thrawsgydymffurfio rhwng sefydliadau'r Llywodraeth er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau
- cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sydd wedi cael cyllid amaethyddol
- llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau a/neu grynodebau ystadegol, ar gyfer eu cyhoeddi
- llywio penderfyniadau sy'n gysylltiedig â newid polisi a chyllid gan gynnwys astudiaethau sy'n cael eu cynnal ar ran Llywodraeth Cymru i lywio gwaith Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Datblygu Gwledig
- medru cysylltu â thirfeddianwyr/defnyddwyr mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- diogelu budd ymgeiswyr mewn cadwraeth tir a materion a all godi yn sgil ymholiadau am ariannu

- caniatáu i bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol
- datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Tollau a Chyllid Ei Mawrhydi, Awdurdodau Lleol a'r Heddlu
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth. Am ragor o wybodaeth, gweler paragraffau J3.2 – J3.3 y llyfryn hwn.

## J3 Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

**J3.1** Caiff yr wybodaeth ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswyddau o dan y canlynol:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddfwriaeth Diogelu Data
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad y Comisiwn Rhif 908/2014.
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**J3.2** Gall aelod o'r cyhoedd ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o'r fath.

**J3.3** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyrcymorth gwledig. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â €1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi.

## J4 Hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

**J4.1** Mae'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Mae'r hawliau hynny'n cynnwys:

- yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn a chael copïau o'r data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru gadw peth data weithiau neu wrthod rhoi copïau
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro neu gyfyngu Llywodraeth Cymru rhag prosesu data personol
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir

- yr hawl o dan rai amgylchiadau i gael data wedi'u dileu (eu hanghofio).

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau GDPR hyn, cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

**J4.2** Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar y GDPR, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r GDPR.  Cysylltwch â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421. Ebost: cymru@ico.org.uk.
Gwefan: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

# Adran K – Ffurflen y Cais Sengl

## K1 Cyfarwyddyd a help i lenwi'ch SAF

**K1.1** Mae 'Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen y Cais Sengl (SAF) 2024' ar gael ichi ei ddarllen ar wefan Llywodraeth Cymru. Fe welwch gyfarwyddyd manwl ynddo ar sut i lenwi pob rhan o'r SAF.

**K1.2** Fe welwch gyfarwyddyd penodol o fewn y SAF ei hun:

- Os oes cyngor ar gael am y dudalen rydych chi'n ei llenwi ar hyn o bryd, fe welwch y botwm Help ar gyfer y Dudalen hon ar gornel dde ucha'r dudalen. Cliciwch ar y botwm i weld esboniad pellach ar bob cwestiwn ac eitem ar y dudalen.

- Bydd rhai cwestiynau ar y SAF yn cynnig help penodol ichi ar sut i ateb. Os oes help penodol ar gael ar gyfer y cwestiwn, fe welwch y botwm Help.

**K1.3** Os ydych yn ei chael yn anodd llenwi'ch SAF, cysylltwch â'ch Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am ragor o arweiniad (gweler Atodiad 7 am y manylion cysylltu). Bydd staff RPW yn gallu'ch helpu ac esbonio sut y dylech lenwi'r cais.

**K1.4 Mae ein Swyddfeydd Rhanbarthol ar agor i'r cyhoedd trwy apwyntiad yn unig.** Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, yn enwedig i lenwi'r SAF am y tro cyntaf, gall y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid eich helpu dros y ffôn. Gall y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid drefnu 'Cymorth Digidol' i chi mewn Swyddfa Ranbarthol gyda aelod o'r staff i'ch tywys trwy'r broses.

A fyddech cystal â gwneud trefniadau i lenwi eich SAF ar-lein cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r canllawiau a'r cymorth sydd wedi'u nodi uchod.

**K1.5** Gall staff yr RPW esbonio sut y dylech lenwi'r ffurflen, ond ni allant fod yn gyfrifol am yr hyn rydych yn ei hawlio neu ddim yn ei hawlio – eich cyfrifoldeb chi yw hynny.

## K2 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF

**K2.1** Rhaid i'ch SAF gyrraedd Llywodraeth Cymru ddim hwyrach na chanol nos dydd Llun, 15 Mai 2024. Bydd ceisiadau sy'n cyrraedd rhwng 16 Mai 2024 hyd at a chan gynnwys 10 Mehefin 2024 yn cael eu cosbi. Bydd ceisiadau a hawliadau sy'n cyrraedd ar ôl 10 Mehefin 2024 yn cael eu gwrthod.

Bydd neges ddarlledu sy'n atgoffa ynghylch cyflwyno SAF yn cael ei hanfon yr wythnos sy'n cychwyn ar 22 Ebrill, a'r wythnos sy'n cychwyn ar 6 Mai 2024 ac a'r wythnos sy'n cychwyn ar 3 Mehefin 2024 i'r cwsmeriaid hynny sydd heb gyflwyno eu cais eto.

**K2.2** Rhaid i holl ddogfennau ategol y BPS gyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2024. Ni chaiff unrhyw daliad (gan gynnwys Rhagdaliad BPS) ei wneud tan y bydd tystiolaeth wedi dod i law eich bod yn cynnal gweithgarwch amaethyddol yn 2024. Os na fydd tystiolaeth wedi cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2024, caiff eich hawliad ei wrthod.

**K2.3** Rhaid i bob dogfen ategol ar gyfer y Cynlluniau Buddsoddi Gwledig (y Cynllun Troi'n Organig a Chymorth Organig) ein cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2024. Os na fydd y dogfennau ategol wedi cyrraedd erbyn y dyddiad hwnnw, caiff eich hawliad ei wrthod.

**K2.4** O beidio â chyflwyno'ch dogfennau ategol, gallech golli'ch taliad neu ran ohono a gallem wrthod eich cais a'ch hawliadau. Gweler K8 am restr lawn o'r dogfennau ategol.

**K2.5** Darllenwch Adran G y llyfryn hwn am fanylion cosbau a gostyngiadau am gyflwyno'r SAF a dogfennau ategol yn hwyr.

## K3 Pwy sy'n cael cyflwyno'ch SAF?

**K3.1** Dim ond person sydd wedi cael caniatâd y busnes i gyflwyno ceisiadau ar ran y busnes fydd yn cael cyflwyno SAF Ar-lein.

**K3.2** Os ydych am i asiant neu drydydd parti gyflwyno cais ar ran y busnes ac nad ydych wedi rhoi'ch caniatâd iddyn nhw wneud hynny, dilynwch y cyfarwyddiadau ar RPW Ar-lein neu gysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid i ofyn am ffurflen 'Awdurdodi Asiant / Asiant Coetiroedd / Undeb Ffermio / Cymdeithas Ffermwyr Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein'.

## K4 Hawlio taliadau ar y SAF

**K4.1** Bydd gofyn ichi wneud yn siŵr eich bod wedi hawlio'r holl daliadau rydych am eu hawlio ar eich SAF. Y dudalen 'Hawlio' fydd y dudalen gyntaf a welwch pan fyddwch yn dechrau llenwi'ch SAF a dyma lle bydd yn rhaid ichi ddangos eich bod am hawlio BPS 2024, taliad o dan Cynlluniau Buddsoddi Gwledig, Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig a/neu geisio am Hawliau BPS o'r Gronfa Genedlaethol.

**K4.2** Bydd gofyn ichi ddangos hefyd y caeau rydych am eu defnyddio i gefnogi taliad o dan bob cynllun rydych yn ei hawlio. Rhaid gwneud hynny ar dudalen Data Caeau'r SAF. **Yn 2024, ni fydd gofyn ichi ddangos y caeau rydych am eu defnyddio i gefnogi taliad Cynlluniau Buddsoddi Gwledig – Cynllun Cynefin Cymru, Cynllun, Cynnal a Chadw Creu Coetir neu Bremiwm Creu Coetir.** Bydd eich cais yn seiliedig ar y parseli o dir sydd wedi'u cynnwys ar eich Dyfarniad Grant Cynllun Cynefin Cymru, Grant Creu Coetir neu Grantiau Bach – Contract Creu Coetir.

**K4.3** Bydd taliadau Cymorth Organig yn cael eu talu ar gaeau cyfan sydd wedi'u datgan ar eich SAF ac wedi'u hardystio fel rhai cwbl organig gyda Chorff Rheoli Organig (OCB) cydnabyddedig o 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024. Bydd eich taliad yn seiliedig ar y tir sydd wedi'i gynnwys yn y Rhestr Tir ddiweddaraf y byddwch wedi'i chael gan eich OCB. Rhaid hawlio ar o leiaf 0.10 hectar.

**K4.4** Ar gyfer y cynllun BPS, bydd gofyn ichi nodi'r hawliau pori tir comin rydych am eu defnyddio i hawlio taliad ar y dudalen Tir Comin.

**K4.5** Er mwyn helpu i wneud y SAF yn haws i'w gwblhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bydd eich SAF yn cael ei llenwi ymlaen llaw gyda thiciau hawlio cynllun yn y dudalen

'Hawliadau' ac ar y dudalen 'Data Caeau'. Bydd y dudalen 'Hawliadau' yn cael ei llenwi ymlaen llaw gyda thiciau hawlio cynllun lle mae ein cofnodion yn dangos bod gennych gontract a/neu dyfarniad grant ar gyfer y cynlluniau canlynol; Cynllun Cynefin Cymru, Cynllun Trosi Organig a Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig.

**K4.6** Bydd y dudalen 'Data Caeau' yn cael ei llenwi ymlaen llaw lle mae ein cofnodion yn dangos bod gennych gontract a/neu dyfarniad grant ar gyfer y cynlluniau canlynol; Cynlluniau Datblygu Gwledig Creu Coetir a'r Cynllun Trosi Organig. Ar gyfer BPS 2024 byddwch yn gallu dewis yr opsiwn i roi ticiau hawliadau ymlaen llaw os cawsoch daliad ar gyfer BPS 2023.

**K4.7** Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr wybodaeth fydd wedi'i llenwi ymlaen llaw ar eich SAF er mwyn ichi allu gwneud newidiadau i wneud yn siŵr eich bod yn hawlio taliad ar bob cynllun a darn o dir rydych am ei hawlio.

**K4.8** Os na fyddwch yn nodi'r cynlluniau rydych am hawlio'u taliad na'r caeau a hawliau pori tir comin rydych yn eu defnyddio i gefnogi'ch taliad, mae'n bosibl y bydd yn rhaid lleihau'ch taliad neu'ch cosbi neu hyd yn oed beidio â'ch talu o gwbl.

**K4.9** Gallwch ddefnyddio tudalen y Crynodeb ar y SAF i gadarnhau bod eich cais yn rhestru'r holl gynlluniau rydych am hawlio'u taliad. Gallwch fynd iddi unrhyw bryd wrth ichi lenwi'ch SAF.

## K5 Datgan tir ar y SAF

**K5.1** Rhaid ichi ddatgan ar y SAF yr holl dir amaethyddol sydd ar gael ichi ei ddefnyddio ar 15 Mai 2024, gan gynnwys yr holl dir sydd mewn Cynlluniau Buddsoddi Gwledig neu Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig.

**K5.2** Ni ddylech ddatgan tir rydych yn berchen arno ond yn ei rentu i ffermwr arall (gan nad yw'r tir hwn ar gael i chi a dim ond y ffermwr sy'n ei rentu ddylai ei ddatgan).

**K5.3** Byddwch yn gallu datgan y caeau sydd ar gael ichi eu defnyddio ar dudalen 'Data Caeau' eich SAF. Ar y dudalen hon, gofynnir ichi ddatgan yr holl fathau o dir a nodweddion sydd ym mhob cae. Darllenwch Atodiad 2 y Llyfryn hwn am restr lawn o'r codau cnydau y gallwch eu defnyddio i wneud hyn. Hefyd, yn Atodiad 3, cewch fwy o wybodaeth am y codau cnydau y dylech eu defnyddio i gefnogi Creu Coetir.

**K5.4** Hefyd, rhaid ichi ddatgan yn gywir yr holl nodweddion anghymwys a pharhaol ar y daliad a'r nodweddion anghymwys dros dro. Esbonnir y drefn yn Atodiad 1 y Llyfryn hwn.

**K5.5** Rhaid ichi ystyried hefyd unrhyw dir cymwys rydych wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu arno am gyfnod byr (e.e. ar gyfer gosod piblin).

**K5.6** I wneud y SAF yn haws ei llenwi, byddwn wedi nodi ar eich rhan y caeau sydd yn ôl ein cofnodion ni ar gael ichi eu defnyddio ar 15 Mai 2024. Mae'n bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr bod yr holl dir y mae angen ichi ei ddatgan wedi'i nodi ar eich SAF. Bydd angen ichi ychwanegu unrhyw gaeau sydd ar gael ichi ond nad ydym wedi eu nodi ar eich rhan, gan gynnwys tir sydd wedi'i

drosglwyddo a thir sydd ar rent tymor byr ar gyfer 2024. Bydd gofyn ichi ddileu caeau nad yn nhw ar gael ichi eu defnyddio mwyach ar 15 Mai 2024.

**K5.7** Lle medrwn, byddwn wedi rhoi'r codau cnydau a'r arwynebeddau ar eich SAF ar eich rhan, ar sail yr wybodaeth y gwnaethoch ei datgan yn 2023. Rhaid ichi gadarnhau bod yr wybodaeth yn gywir, a'i newid os oes angen i adlewyrchu'r sefyllfa fel y mae ar 15 Mai 2024. Os na fydd y colofnau 'Arwynebedd' a/neu 'Cnwd' yn adran Data Caeau eich SAF wedi'u llenwi ar eich rhan ar gyfer unrhyw gaeau, gwnewch yn siŵr eich bod chi yn llenwi'r blychau hyn. Gofalwch fod eich datganiad tir yn adlewyrchu'r sefyllfa fel y mae ar 15 Mai 2024.

## K6 Datgan Tir Comin ar y SAF

**K6.1** Defnyddiwch adran 'Tir Comin' eich SAF i ddatgan unrhyw hawliau pori tir comin sydd gennych. Os gwnaethoch chi ddatgan hawliau pori tir comin ar eich SAF 2023, byddwn wedi'u llenwi ar eich rhan ar eich SAF. Gofalwch eich bod yn datgan yr holl hawliau pori tir comin sydd ar gael ichi eu defnyddio a rhoi tic yn y blwch BPS i ddangos yr hawliau rydych am hawlio BPS arnyn nhw.

**K6.2** Os ydych wedi gwneud cais am rif adnabod cae newydd ar gyfer tir comin sy'n cael ei bori gan un porwr, byddwn wedi'i lenwi ar eich rhan yn yr adran Data Caeau ar eich SAF. Peidiwch â'i ddatgan yn yr adran Tir Comin os mai un porwr sy'n pori'r tir comin.

## K7 Gwybodaeth sydd wedi'i llenwi ar eich rhan ar eich SAF

**K7.1** Byddwn wedi llenwi gymaint o'ch SAF 2024 â phosibl, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gan yr RPW ac y gwnaethoch ei datgan yn 2023, fel y gwelwch isod.

| Adran y SAF | Gwybodaeth wedi'i nodi ar eich rhan |
|---|---|
| Hawlio | Tic i hawlio Cynllun Cynefin Cymru, Cynllun Troi'n Organig a Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig lle bo'n cofnodion yn dangos bod gennych Gontract a/neu Ddyfarniad Grant.<br><br>**Sylwer:** Ni fydd ticiau i hawlio yn cael eu llenwi ymlaen llaw ar gyfer Cymorth Organig, Cynnal Creu Coetir a Phremiwm Creu Coetir.<br><br>Wrth ddechrau'ch SAF, gallwch ganiatáu inni roi tic i hawlio BPS 2024 ar eich rhan. Ni allwn wneud hynny os na chawsoch daliad BPS 2023.<br><br>**Pwysig:** Os nad yw ticiau hawlio BPS 2024 wedi'u nodi ar eich rhan a'ch bod am hawlio taliad, gofalwch eich bod yn ticio BPS 2024 yn yr Adran Hawlio. |
| Hawliau BPS | Yr hawliau sydd gennych yn ôl ein cofnodion ni. Ond nid hawliau sydd wedi'u trosglwyddo a heb eu prosesu eto. |

| | |
|---|---|
| Trefniadaeth y Busnes | Nifer yr unigolion yn y busnes yn ôl ein cofnodion cyfredol. |
| Trawsgydymffurfio | Wrth ddechrau'ch SAF, gallwch ddewis ein bod yn rhoi'r un atebion ag a gawsom gennych yn 2023. |
| Tir Comin | Yr hawliau pori tir comin y gwnaethoch eu datgan llynedd.<br><br>Wrth ddechrau'ch SAF, gallwch ganiatáu inni roi tic wrth dir comin i hawlio BPS 2024. Ni allwn wneud hynny os na chawsoch daliad BPS 2023.<br><br>**Pwysig:** Os nad yw ticiau hawlio BPS 2024 wedi'u rhoi ar eich rhan a'ch bod am hawlio taliad, yna rhaid ichi sicrhau'ch bod yn ticio BPS 2024 ar gyfer pob comin rydych am gael taliad ar ei gyfer. |
| Data Caeau | Caeau sydd yn ôl ein cofnodion ar gael ichi eu defnyddio ar 15 Mai 2024. Lle medrir, cofnodir cnydau, nodweddion parhaol wedi'u mapio ac arwynebeddau.<br><br>Ticiau i hawlio Cynllun Troi'n Organig a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig ar gaeau sydd yn ôl ein cofnodion ni, o dan Gontract.<br><br>**Sylwer:** Nid oes rhaid hawlio taliad yn erbyn caeau ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru, Cymorth Organig, Cynnal Creu Coetir a Phremiwm Creu Coetir. Bydd eich cais yn seiliedig ar parseli o dir sydd wedi'u cynnwys ar eich ddyfarniad grant Cynllun Cynefin Cymru, Grant Creu Coetir neu Grantiau Bach – contract Creu Coetir.<br><br>Bydd eich cais am Gymorth Organig yn seiliedig ar y parseli a restrir ar eich Tysysgrif OCB a Rhestr Tir.<br><br>Wrth ddechrau'ch SAF, gallwch ganiatáu inni roi tic wrth gnydau cymwys i hawlio BPS 2024. Ni allwn wneud hynny os na chawsoch daliad BPS 2023.<br><br>**Pwysig:** Os nad yw ticiau hawlio BPS 2024 wedi'u rhoi ar eich rhan a'ch bod am hawlio taliad, yna rhaid ichi sicrhau'ch bod yn ticio BPS 2024 ar gyfer pob cnwd parhaol rydych am gael taliad ar ei gyfer.<br><br>Rhaid i chi gadarnhau bod y manylion rydym wedi'u llenwi ymlaen llaw ar gyfer eich parseli yn gywir, gan gynnwys y dyddiadau rhentu, a'u newid lle bo angen. |

**K7.2** Gofalwch eich bod yn darllen yr wybodaeth fydd wedi'i llenwi ymlaen llaw ar eich SAF er mwyn ichi allu ei newid a chyflwyno datganiad cywir ar gyfer 2024.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr wybodaeth, gan gynnwys yr wybodaeth gafodd ei llenwi ar eich rhan, yn gywir.

## K8 Dogfennau ategol

**K8.1** Bydd gofyn ichi gyflwyno'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y Cynlluniau Buddsoddi Gwledig – y Cynllun Troi'n Organig a Chymorth Organig, gan gynnwys y rhai i ddangos eich bod yn cynnal gweithgaredd amaethyddol, cyn y dyddiad cau o 31 Rhagfyr 2024.

Rhaid cyflwyno dogfennau ategol BPS erbyn 31 Rhagfyr 2024.

<table>
<tr><th colspan="2">BPS, Cynllun Troi'n Organig a Chymorth Organig – Gweithgarwch Amaethyddol</th></tr>
<tr><td>Os nad ydych yn datgan manylion eich da byw yn yr adran Lefelau Stocio neu os nad ydych yn datgan y cnydau Âr neu Barhaol yn yr adran Data Caea, rhaid ichi roi tystiolaeth eich bod yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol.</td><td>Mae'r busnes yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol. Gallai tystiolaeth gynnwys:<ul><li>Cofnodion diadell neu fuches</li><li>Derbynebau hadau glaswellt / cnydau âr</li><li>Cofnodion llaeth</li><li>Derbynebau gwerthu</li><li>Tystiolaeth filfeddygol</li><li>Adroddiad gan agronomegydd</li><li>Derbynebau ffensys</li><li>Derbynebau perthi</li><li>Derbynebau gwrtaith</li><li>Derbynebau plaladdwyr</li><li>Derbynebau silwair, gwywair a gwair.</li></ul>Mae'r busnes yn cadw'r tir mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer ei bori a'i drin.  Gallai tystiolaeth gynnwys:<ul><li>Copïau o anfonebau a ddefnyddiwyd i reoli chwyn goresgynnol estron a phrysgwydd e.e. plaladdwyr</li><li>Copïau o gofnodion fferm sy'n dangos gwaith rheoli chwyn goresgynnol estron a phrysgwydd e.e. tocio, llyfnu, rholio, torri, plaladdwyr</li><li>Copïau o gontractau neu gofnodion fferm ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar ffiniau cadw stoc e.e. ffensys, plannu/torri perthi.</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">BPS – Ffermwr Ifanc (Cronfa Genedlaethol a Thaliad)</th></tr>
<tr><td>Tystiolaeth ffotograffig i gadarnhau’ch dyddiad geni (os nad ydych eisoes wedi’i rhoi).</td><td><ul><li>Pasbort</li><li>Trwydded yrru</li><li>Trwydded dryll.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth eich bod yn bennaeth y daliad (os nad ydych eisoes wedi’i rhoi).</td><td><ul><li>Tystysgrif Cyfrifydd neu Gyfreithiwr i gadarnhau statws y Ffermwr Ifanc – mae ffurflen ar gael gyda’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid</li></ul>neu<ul><li>Cytundeb partneriaeth sy’n dangos y partneriaid a chanran eu cyfrannau/pleidleisiau ac os bu newid, y gwahaniaeth rhyngddo â’r ddogfen bartneriaeth flaenorol gan ddangos y newidiadau i’r ddogfen wreiddiol</li><li>Cytundeb sy’n rhwymo’n gyfreithiol sy’n dangos cyfrannau’r busnes</li><li>Cyfrifon y bartneriaeth os ydyn nhw’n dangos cyfrannau’r busnes</li><li>Cyfrifon banc/llythyr gan gyfrifydd i gadarnhau sut y rhennir yr elw</li><li>Cyfrifon blynyddol sy’n enwi’r ymgeiswyr a nifer eu cyfrannau/pleidleisiau</li><li>Unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall allai fod yn briodol.</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">BPS – Newydd-ddyfodiaid – Y Gronfa Genedlaethol</th></tr>
<tr><td>Tystiolaeth bod y Newydd-Ddyfodiad yn gymwys.</td><td><ul><li>Tystysgrif Cyfrifydd neu Gyfreithiwr i gadarnhau statws y Newydd-ddyfodiad – mae ffurflen ar gael gyda’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid</li></ul>neu<ul><li>Cadarnhau dyddiad cofrestru'r daliad</li><li>Cofrestru gyda BCMS/AMLS</li><li>Cofnodion anifeiliaid</li><li>Cofnodion Plaladdwyr</li><li>Tystiolaeth ddogfennol arall i brofi’ch bod yn gymwys.</li></ul></td></tr>
</table>

| BPS - Gorchmynion Cadw Coed (TPO) | |
|---|---|
| Coed sydd â Gorchymyn Cadw Coed i'w hamddiffyn. | • Copi o'r Gorchymyn Cadw Coed ar gyfer y coed rydych yn hawlio BPS arnyn nhw<br>• Llythyr oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n dweud bod y coed rydych yn hawlio BPS arnyn nhw yn destun Gorchymyn Cadw Coed. |

| Cynllun Troi'n Organig | |
|---|---|
| Tystiolaeth os oes gennych Gontract Cynllun Troi'n Organig. | • Tystiolaeth o weithgarwch amaethyddol, os oes angen<br>• Copi o Dystysgrif a Rhestr Tir diweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB).<br>• |

| Cymorth Organig | |
|---|---|
| Tystiolaeth os oes angen, os ydych yn hawlio Cymorth Organig | • Tystiolaeth o weithgarwch amaethyddol a gynhyrchydd sylfaenol, os oes angen<br>• Copi o Dystysgrif ddiweddaraf oddi wrth eich Corff Rheoli Organig (OCB) a Rhestr Tir diweddaraf<br>• Os ydych yn hawlio ar gyfer Garddwriaeth, tystiolaeth o werthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant<br>• Os ydych chi'n hawlio ar gyfer llaeth, tystiolaeth o werthu llaeth organig neu gynhyrchion sy'n deillio o laeth<br>• Tystiolaeth i ddangos dros 550 o oriau llafur safonol. |

**K8.2** Os ydych yn cyflwyno'ch dogfennau ategol trwy'r post, yn hytrach na thrwy RPW Ar-lein, gofalwch eich bod yn eu postio mewn da bryd a'ch bod yn rhoi digon o stampiau. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n gallu cymryd post heb ddigon o stampiau. Gallai hynny olygu na fydd modd derbyn eich dogfennau na rhoi derbynneb ar eu cyfer.

**K8.3** Rydym yn eich cynghori i ddefnyddio post cofnodedig (*recorded delivery)* ond cofiwch nad yw hyn yn warant y bydd eich dogfennau yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn y dyddiadau cau a nodwyd uchod. Nid oes gwahaniaeth pa drefniadau postio a ddefnyddir, na beth yw'r rhesymau dros unrhyw oedi (h.y. dim digon o stampiau), bydd ceisiadau hwyr yn cael eu cosbi neu'n cael eu gwrthod a gallech golli taliadau.

## K9 Cyflwyno'ch SAF

**K9.1** Fe welwch Grynodeb sy'n dod gyda'r SAF tuag at ddiwedd y cais.  Mae hwn yn crynhoi'ch datganiad a gallwch ei ddefnyddio i wneud yn siŵr eich bod wedi hawlio'r holl gynlluniau ac wedi cynnwys yr holl dir sydd ei angen.

**K9.2** Adran Cyflwyno'r SAF yw rhan ola'r cais.  Mae hon yn cynnwys y dudalen 'Gwallau a Gwybodaeth' fydd yn dangos neu â dolen i'r holl negeseuon gwybodaeth a gwall sy'n dal yn ymddangos ar eich cais.  Bydd angen ichi gywiro'r gwallau cyn cyflwyno'ch SAF.  Os oes yna negeseuon gwybodaeth yn dal yn y golwg, dylech edrych arnynt ac ystyried a oes angen ichi newid eich datganiad.

**K9.3** Cyn cyflwyno'ch SAF, byddwn yn gofyn ichi dicio blwch i gadarnhau'ch bod wedi darllen y 'Datganiadau a'r Ymrwymiadau' a'ch bod yn cytuno â nhw.  Trwy dicio'r blwch hwn ar eich SAF, rydych yn cadarnhau'ch bod yn cydymffurfio â:

- rheolau cynlluniau'r SAF
- y 'Datganiad a'r Ymrwymiadau' ar y SAF
- 'Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2024'
- Y 'Taflenni Ffeithiau Trawsgydymffurfio i Ffermwyr' diweddaraf.

**K9.4** Trwy gytuno â'r "Datganiadau a'r Ymrwymiadau', rydych yn derbyn mai'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr wybodaeth rydych chi'n ei datgan ar eich SAF yn gywir.  Gellid erlyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug neu sydd ddim yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth gafodd ei rhoi ar y SAF.  Gallai datganiad ffug, anghywir neu anghyflawn neu fethiant i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth gafodd ei rhoi ar y SAF arwain at golli'r hawl i daliad a/neu adennill taliadau sydd wedi'u gwneud.

**K9.5** Byddwch yn cael cadarnhad ar-lein gennym yn syth ar ôl cyflwyno'ch SAF.  Gallwch ei brintio ar gyfer eich ffeiliau.  Os na fyddwch wedi cael cadarnhad ar-lein, anfonwch neges ar-lein trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein neu cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

**K9.6** O fewn diwrnod wedi ichi gyflwyno'ch SAF, dylech gael copi o'ch cais terfynol yn adran 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein.  Yn ogystal â chopi o'r ffurflen, bydd y neges yn cynnwys copi o unrhyw frasfapiau rydych wedi'u cyflwyno a chopi o'r Crynodeb.  Os na fyddwch wedi cael y neges hon, rhowch wybod inni trwy anfon neges ar-lein atom o'ch cyfrif RPW Ar-lein neu cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

**K9.7** Rydym yn eich cynghori i ddefnyddio'r copi o'r SAF a gawsoch yn adran 'negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein i wneud yn siŵr eich bod wedi nodi'r holl gynlluniau a'r tir rydych am eu hawlio.  Rhaid rhoi gwybod i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am unrhyw ddata sy'n eisiau neu wallau sydd angen eu cywiro erbyn 10 Mehefin 2024 er mwyn i'ch cais allu cael ei newid, ond os bydd eich newidiadau'n cyrraedd o 3 Mehefin 2024 tan a chan gynnwys 10 Mehefin 2024, cewch gosb am hawlio'n hwyr.

## K10 Ymateb i ymholiadau

**K10.1** Dylech ymateb i unrhyw ymholiadau gan Lywodraeth Cymru am eich SAF cyn gynted ag y bo modd. O beidio â gwneud, gallai arwain at oedi o ran taliadau, gostyngiadau ac atal taliadau.

**K10.2** Mae croeso ichi ohebu â ni yn y Gymraeg a byddwn yn ateb unrhyw lythyr yn y Gymraeg os mai honno yw'r iaith sy'n well gennych ei defnyddio. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi wrth brosesu'ch SAF.

# Atodiad 1: Datgan a Thynnu Nodweddion Anghymwys

## AN1.1 Cyflwyniad

**AN1.1.1** Nodweddion anghymwys yw'r rhannau hynny o gae nad oes modd tyfu porfa na chnydau arnynt.  Maen nhw'n cynnwys rhannau a wnaed gan ddyn, fel adeiladau, arwynebau caled, traciau na ellir eu pori a nodweddion dŵr a rhannau naturiol, fel creigiau, sgri (mannau moel), prysgwydd, rhedyn a grwpiau o goed.

**AN1.1.2** Dylech ddatgan darnau anamaethyddol o dir, fel gerddi, paneli solar, parciau carafanau a chylchoedd marchogaeth ar eich SAF fel nodweddion anghymwys gan ddefnyddio'r cod cnydau cywir (NO1) gan eu bod yn anghymwys.

**AN1.1.3** Rhaid datgan y nodweddion anghymwys hyn ar eich SAF gan defnyddio'r cod cywir a thynnu'r arwynebedd anghymwys o arwynebedd cyfan y cae.  Fe welwch restr lawn o'r holl nodweddion anghymwys yn Atodiad 2 y llyfryn hwn.

## AN1.2 Gwybodaeth bwysig am dynnu coed/coetir

**AN1.2.1** Mae'r rheolau bellach yn gofyn am drefn lymach ar gyfer caeau â choed a nodweddion gwasgaredig anghymwys.

**AN1.2.2** Os oes grŵp o goed, caiff y darn tir cyfan o dan goed ei dynnu o arwynebedd cymwys y cae (nid dim ond arwynebedd y boncyffion).  Gallai hynny olygu leihad yn eich arwynebedd cymwys.

**AN1.2.3** Os oes mwy na 100 o goed yn tyfu fesul hectar o'r arwynebedd cymwys mwyaf, ni chewch daliad BPS ar y cae hwnnw.

**AN1.2.4** Os oes 100 neu lai o goed yn tyfu yn wasgaredig fesul hectar o'r arwynebedd cymwys mwyaf, bydd angen ichi dynnu arwynebedd boncyffion y coed a'r gwreiddiau sydd yn y golwg i weld faint o'r cae y gellir ei bori.

## AN1.3 Beth yw'r Arwynebedd Cymwys Mwyaf?

**AN1.3.1** Arwynebedd Cymwys Mwyaf cae yw'r arwynebedd sydd ar ôl wedi tynnu'r holl nodweddion anghymwys o arwynebedd y cae cyfan.

**AN1.3.2** I gyfrif Arwynebedd Cymwys Mwyaf eich cae ac i fesur arwynebedd y darn gwasgaredig o goed, tynnwch yr holl nodweddion anghymwys o arwynebedd y cae cyfan yn y drefn ganlynol:

1. tynnwch arwynebedd y nodweddion anghymwys a wnaed gan ddyn gan gynnwys pyllau dŵr artiffisial
2. tynnwch arwynebedd nodweddion dŵr: afonydd (100m² a mwy), nentydd (100m² a mwy) a phyllau naturiol (dros 0.10 hectar)
3. tynnwch arwynebedd grwpiau o ddarnau moel naturiol o dir, fel creigiau/sgri sydd 100m² a mwy
4. tynnwch arwynebedd grwpiau o brysgwydd/rhedyn sydd 100m² a mwy
5. tynnwch arwynebedd grwpiau o goed sydd 100m² a mwy

6 cynhaliwch asesiad o nodweddion naturiol gwasgaredig sydd lai na 100m²:

a. darnau moel naturiol o dir (creigiau/sgri)

b. prysgwydd/rhedyn.

**AN1.4 Cyfrif 100 coeden yr hectar (100 coeden/hectar)**

**AN1.4.1** Ar ôl cyfri'r Arwynebedd Cymwys Mwyaf, bydd angen asesu a oes 100 o goed yr hectar yn yr Arwynebedd Cymwys Mwyaf, gan gynnwys grwpiau gwasgaredig o lai na 100m²

- Os oes mwy na 100 coeden/hectar, ni chewch daliad BPS o gwbl ar y cae hwnnw. Gweler enghraifft (a) yn AN1.4.2 isod.
- Os oes 100 coeden/hectar neu lai, mae'r cae'n gymwys am BPS ond rhaid tynnu'r arwynebedd sydd o dan goed. Gweler enghraifft (b) yn AN1.4.2 isod.

**Enghraifft:**

Cyfanswm maint cae yw 5.50 hectar.

Cyfanswm arwynebedd y nodweddion a wnaed gan ddyn, y nodweddion dŵr a'r nodweddion naturiol anghymwys sy'n fwy na 100m² (gweler camau 1-5 yn AN1.3.2 uchod) yw 1.25 hectar.

Cynhelir asesiad pellach o'r creigiau a'r rhedyn gwasgaredig (camau 6a – 6b yn AN1.3.2 uchod) a gwelir bod ganddynt arwynebedd anghymwys o 0.25 hectar. Yr Arwynebedd Cymwys Mwyaf felly yw:

| | |
|---|---|
| Maint y Cae | = 5.50 hectar |
| Tynnu'r Arwynebedd Anghymwys | = 1.25 hectar (Swm cam 1-5 uchod) |
| Tynnu'r asesiad o nodweddion gwasgaredig | = 0.25 hectar (Swm cam 6a-b uchod) |
| Arwynebedd Cymwys Mwyaf | = 4.00 hectar |

**AN1.4.2 Enghreifftiau o 100 coeden/hectar**

(a) 4.00 hectar yw Arwynebedd Cymwys Mwyaf y cae hwn ac mae mwy na 400 o goed yn tyfu arno. **Nid yw'r cae cyfan felly'n gymwys am BPS.**

(b) 4.00 hectar yw Arwynebedd Cymwys Mwyaf y cae hwn a dim ond 50 o goed gwasgaredig sy'n tyfu arno. Mae'r cae yn gymwys am y BPS, ond **dylech gynnal asesiad i fesur arwynebedd y coed gwasgaredig a dylech dynnu'r arwynebedd hwn o Arwynebedd Cymwys Mwyaf y cae:**

| | |
|---|---|
| Arwynebedd Cymwys Mwyaf | = 4.00 ha |
| Tynnu'r Asesiad | = 0.25 ha (o goed gwasgaredig) |
| Arwynebedd Cymwys y Cae | = 3.75 ha |

**AN1.5 Sut mae nodi'r Nodweddion Anghymwys a'u cyfrif?**

**AN1.5.1** Rhaid ichi gael hyd a nodi'r holl nodweddion anghymwys ym mhob cae rydych yn ei ddatgan yn eich SAF a'u mesur mewn hectarau.

**AN1.5.2** I fesur arwynebedd nodwedd mewn hectarau, dylech fesur ei hyd a'i lled mewn metrau, eu lluosi a rhannu'r canlyniad â 10,000m² (arwynebedd 1 hectar). Er enghraifft: adeilad sy'n 10m x 10m = 100m², ac yna ei rannu â 10,000m² = 0.01 hectar.

**AN1.5.3** Rhaid datgan arwynebedd hyd at 2 bwynt degol, dylech felly ei dalgrynnu i'r rhif agosaf; er enghraifft, dylech dalgrynnu 0.005 hectar i 0.01 hectar, a dylech dalgrynnu 0.014 hectar i 0.01 hectar.

**AN1.6 Mapiau Rhyngweithiol SAF 2024**

**AN1.6.1** Ar RPW Ar-lein, cewch ddefnyddio'r erfyn mapio rhyngweithiol a lluniau o'r awyr i'ch helpu i ddangos a mesur nodweddion anghymwys yn eich cae.

**AN1.6.2** Mae'r cyngor sy'n dilyn yn esbonio sut i nodi, mesur a datgan pob math o nodweddion anghymwys ym mhob cae.

**Nodweddion a wnaed gan ddyn**

**AN1.7 Beth yw nodwedd a wnaed gan ddyn?**

**AN1.7.1** Adeiladwaith sydd wedi'i adeiladu, fel adeiladau, arwynebau caled, traciau na ellir eu pori, ffyrdd a phyllau dŵr, yn hytrach na rhywbeth sy'n bod yn naturiol yw nodwedd a wnaed gan ddyn. Fe welwch restr lawn o'r nodweddion o waith dyn yn Atodiad 2 y Llyfryn hwn.

**AN1.7.2 Sut mae mesur arwynebedd nodweddion a wnaed gan ddyn a nodweddion anamaethyddol?**

- Nodwch y nodwedd a wnaed gan ddyn yn y parsel tir
- mesurwch hyd a lled y nodwedd.

**Enghraifft**: mae adeilad 20m wrth 10m yn 200m² o faint – dylech ei ddatgan fel 0.02 hectar; mae trac 100m wrth 3m yn 300m² o faint – dylech ei ddatgan fel 0.03 hectar.

- Os oes mwy nag un o'r un math o nodweddion yn y cae, dylech adio arwynebedd pob un.

**Enghraifft**: mae dau adeilad mewn cae, un yn 0.01 hectar a'r llall yn 0.02 hectar. Adiwch nhw at ei gilydd a chyfanswm arwynebedd yr adeiladau felly yw 0.03 hectar (0.01 hectar + 0.02 hectar).

- Os ydy arwynebedd nodwedd unigol yn 0.01 hectar neu fwy, dewiswch y cod priodol yn Atodiad 2 y Llyfryn a datgan arwynebedd y nodwedd wrth y cae ar y ffurflen
- dylech ddatgan yr arwynebedd a'i dynnu o arwynebedd y cae cyfan yn y drefn a nodir yn AN1.3.2 uchod.

## ATODIAD 1: DATGAN A THYNNU NODWEDDION ANGHYMWYS

**Beth os yw arwynebedd y nodwedd unigol a wnaed gan ddyn yn llai na 0.01ha?**

**AN1.7.3** Os yw arwynebedd nodwedd a waith dyn yn llai na 0.01 hectar ac os nad oes nodweddion eraill a wnaed gan ddyn yn y cae, yna ystyrir bod y nodwedd yn un ddi-nod ac nad oes angen ei datgan.

**AN1.7.4** Fodd bynnag, os oes mwy nag un o'r un nodwedd yn y cae, e.e. tylcau, yna dylid cynnal asesiad o'r cae cyfan ac adio arwynebedd pob un o'r nodweddion unigol hyn. Fe welwch gyfarwyddiadau sut i gynnal asesiad yn AN1.12 y Llyfryn hwn.

**AN1.7.5** Os oes mwy nag un math o nodwedd anghymwys yn y cae, ac os yw eu harwynebedd o'u hadio at ei gilydd yn 0.01 hectar neu fwy, yna dylech ddatgan cyfanswm arwynebedd yr holl nodweddion hyn ar y SAF wrth y brif nodwedd.

**Enghraifft**: mae adeilad 0.004 hectar o faint, arwyneb galed 0.004 hectar o faint a thrac 0.003ha yn y cae. Cyfanswm arwynebedd y tri yw 0.01 hectar (0.004 hectar + 0.004 hectar + 0.003 hectar = 0.011 hectar). Dylech ei ddatgan wrth y cod ZZ89.

**Pryd mae pwll a wnaed gan ddyn yn gymwys?**

**AN1.7.6** Rhaid datgan pob pwll o waith dyn fel nodwedd; ond mae pyllau sydd wedi eu hadeiladu o ganlyniad i gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 yr UE – 2020 ac sy'n llai na 0.10 hectar yn gymwys am BPS. Gweler y codau cnydau ar gyfer pyllau dŵr yn Atodiad 2 y Llyfryn hwn.

**Nodweddion dŵr**

**AN1.8 Beth yw nodwedd dŵr?**

**AN1.8.1** Mae nodweddion dŵr yn cynnwys nentydd, afonydd a phyllau naturiol (mwy na 0.01 hectar). Fe welwch restr lawn o'r holl nodweddion dŵr yn Atodiad 2 y Llyfryn hwn.

**AN1.8.2 Sut mae mesur arwynebedd nodweddion dŵr?**

- Nodwch yr holl nodweddion dŵr yn y cae; afonydd a nentydd a phyllau (0.01 hectar neu fwy)
- mesurwch eu hyd a'u lled.

**Enghraifft**: mae afon 55 m o hyd wrth gyfartaledd o 6 m yn 330 m² – dylech ei datgan yn afon/nant 0.03 hectar.

- Os oes mwy nag un o'r nodweddion hyn yn y cae, rhaid adio pob un.

**Enghraifft**: mae dwy afon mewn cae, mae un yn 0.01 hectar a'r llall yn 0.02 hectar. Dylech adio arwynebedd y ddwy afon. Cyfanswm arwynebedd y ddwy gyda'i gilydd yw 0.03 hectar (0.01ha + 0.2ha).

- Os ydy arwynebedd nodwedd unigol yn 0.01 hectar neu fwy, dewiswch y cod priodol yn Atodiad 2 y Llyfryn hwn (ZZ30 ar gyfer pyllau, ZZ31 ar gyfer afonydd/nentydd) a datgan arwynebedd y nodwedd wrth y cae ar y ffurflen

- dylech ddatgan yr arwynebedd a'i dynnu o arwynebedd y cae cyfan yn y drefn a nodir yn AN1.3.2 uchod.

**Beth os yw arwynebedd y nodwedd dŵr unigol yn llai na 0.01ha?**

**AN1.8.3** Os yw arwynebedd nodwedd dŵr yn llai na 0.01 hectar ac os nad oes nodweddion dŵr eraill yn y cae, yna ystyrir bod y nodwedd yn un ddi-nod ac nad oes angen ei datgan.

**AN1.8.4** Fodd bynnag, os oes mwy nag un o'r un nodwedd dŵr yn y cae, e.e. nifer o nentydd ac afon, dylid cynnal asesiad o'r cae cyfan ac adio arwynebedd pob un o'r nodweddion unigol hyn. Fe welwch gyfarwyddiadau sut i gynnal asesiad yn AN1.12 y Llyfryn hwn.

**Pryd bydd pwll yn gymwys?**

**AN1.8.5** O dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, mae pyllau naturiol a phyllau a grëwyd o dan gynllun Datblygu Gwledig yr UE sydd hyd at 0.10 hectar o faint yn gymwys am y BPS. Gweler y cod cymwys yn Atodiad 2 y Llyfryn hwn.

**Tir moel naturiol**

**AN1.9 Beth yw Tir Moel Naturiol?**

**AN1.9.1** Mae tir moel naturiol sy'n 100 m² neu fwy, yn cynnwys sgri, creigiau, meini, cnycau a thywod, hynny yw tir nad yw ar gael i dda byw ei bori.

**AN1.9.2** Darllenwch y tabl sy'n disgrifio'r cyfrannau o sgri, meini a chreigiau ym mharagraff AN1.14 y Llyfryn hwn.

**AN1.9.3** Sut mae mesur arwynebedd tir moel naturiol anghymwys?

- Nodwch y darnau moel o dir anghymwys yn y cae sy'n 100m² neu fwy
- mesurwch arwynebedd y nodweddion ar wahân
- os oes mwy nag un o'r nodweddion hyn yn y cae, rhaid ichi adio pob un o'r nodweddion sy'n 100m² neu fwy at ei gilydd.

**Enghraifft**: mae dau glwt mawr o sgri a meini mewn cae. Mae'r sgri yn 0.92 hectar o faint ac arwynebedd y meini yw 0.47 hectar. Arwynebedd y sgri a'r meini gyda'i gilydd felly yw 1.39 hectar (0.92 hectar + 0.47 hectar) o dan sgri/cnycau/meini/tywod.

- Sewiswch y cod priodol yn Atodiad 2 y Llyfryn hwn a datgan arwynebedd y nodwedd wrth y cae ar y ffurflen
- dylech ddatgan yr arwynebedd a'i dynnu o arwynebedd y cae cyfan yn y drefn a nodir yn AN1.3.2 uchod.

**Beth os yw arwynebedd y grwpiau unigol yn llai na 100m²?**

**AN1.9.4** Os yw arwynebedd y grŵp unigol yn llai na 0.01 hectar ac os nad oes darnau eraill o dir moel yn y cae, ystyrir bod y nodwedd yn un ddi-nod ac nad oes angen ei datgan.

**AN1.9.5** Fodd bynnag, os oes mwy nag un o'r darnau moel yn y cae, e.e. nifer o grwpiau ar wahân ar wasgar yn y cae neu nodweddion nad ydyn nhw'n gwbl anghymwys (gweler y tabl sy'n disgrifio cyfrannau'r nodweddion anghymwys yn AN1.14 y Llyfryn hwn), dylech gynnal asesiad o'r tir moel naturiol ar lefel y cae.

**AN1.9.6** Fe welwch y manylion sut i gynnal asesiad yn AN1.14 y Llyfryn hwn.

**Grwpiau o brysgwydd a rhedyn**

**AN1.10 Beth yw prysgwydd a rhedyn?**

**AN1.10.1** Clystyrau o lwyni yw prysgwydd, yn ddigon trwchus naill ai i gadw anifeiliaid allan neu i gadw'r borfa rhag tyfu (e.e. Eithin, Llwyni, Drain Gwynion, Mieri). Mae rhedyn yn blanhigyn tal â ffrondiau llabedog bras sy'n tyfu'n drwch, yn enwedig ar fryniau ac mewn coedwigoedd.

- Grŵp o Brysgwydd – Darn 100m² neu fwy sy'n rhy drwchus i dda byw allu mynd iddo, heb arwydd bod llwybrau trwyddo.
- Grŵp o Redyn – Darn 100m² neu fwy sy'n rhy drwchus i dda byw allu mynd iddo, heb dystiolaeth bod llwybrau trwyddo. Hefyd, bydd trwch o ddail marw wedi crynhoi'n haen organig oddi tano yn lle pridd, i gadarnhau eu bod wedi ymgasglu dros flynyddoedd.

**AN1.10.2** Mae'r tabl yn AN1.14 y Llyfryn hwn yn disgrifio'r cyfrannau posibl o brysgwydd a rhedyn.

**AN1.10.3** Sut mae mesur arwynebedd grŵp anghymwys o brysgwydd neu redyn?

- Nodwch y nodweddion cwbl anghymwys yn y cae sy'n 100m² neu fwy
- mesurwch arwynebedd y nodweddion ar wahân
- os oes mwy nag un o'r nodweddion hyn yn y cae, rhaid ichi adio pob un o'r nodweddion sy'n 100m² neu fwy at ei gilydd.

**Enghraifft**: mae dau ddarn mawr o brysgwydd mewn cae, y naill yn 0.25 hectar a'r llall yn 0.56 hectar. Dylech adio'r ddau ddarn o brysgwydd a chyfanswm arwynebedd y prysgwydd fydd 0.81 hectar (0.25 hectar + 0.56 hectar).

- Dewiswch y cod priodol yn Atodiad 2 y Llyfryn hwn a datgan arwynebedd y nodwedd wrth y cae ar y ffurflen.

**AN1.10.4** Mae angen datganiad ar wahân ar gyfer grwpiau o brysgwydd a grwpiau o redyn a dylech ddatgan eu harwynebedd a'u tynnu o arwynebedd y cae cyfan yn y drefn a nodir yn AN1.3.2 uchod.

**Beth os yw arwynebedd y grwpiau unigol yn llai na 100m²?**

**AN1.10.5** Os yw arwynebedd grŵp unigol yn llai na 0.01 hectar ac os nad oes nodweddion eraill yn y cae, yna ystyrir bod y nodwedd yn un ddi-nod ac nad oes angen ei datgan.

**AN1.10.6** Fodd bynnag, os oes mwy nag un o'r un nodweddion yn y cae, e.e. nifer o grwpiau ar wahân ar wasgar yn y cae neu nodweddion nad ydyn nhw'n gwbl anghymwys (gweler y disgrifiad o gyfrannau'r nodwedd anghymwys yn y tabl yn AN1.14 y Llyfryn hwn), dylech gynnal asesiad o'r prysgwydd a'r rhedyn ar lefel y cae.

**AN1.10.7** Fe welwch y manylion sut i gynnal asesiad yn AN1.12 y Llyfryn hwn.

**Grwpiau o goed**

**AN1.11 Beth yw grŵp o goed?**

**AN1.11.1** Ystyr grŵp o goed yw tair coeden neu fwy (nad ydyn nhw'n rhan o ffin draddodiadol) sy'n tyfu'n agos at ei gilydd ac sy'n creu canopi o ganghennau sy'n ffurfio gorchudd dros y llawr o 100m² neu fwy (10m x 10m).

**AN1.11.2** Yr arwynebedd o dan y canopi ac nid yr hyn sydd o dan y boncyffion ddylai gael ei ddefnyddio i gyfrif yr arwynebedd anghymwys sydd o dan grŵp o goed. Er enghraifft, bydd gan grŵp o 5 coeden yng nghanol cae, gyda chanopi o ryw 25m x 25m, arwynebedd anghymwys o 625m², sef 0.06 hectar.

**AN1.11.3** Planhigyn prennaidd lluosflwydd yw coeden, fel arfer ag un coesyn neu fonyn sy'n gallu tyfu'n eithriadol o dal (fel arfer dros 1.3m) gyda changhennau'n tyfu o'r bonyn ychydig bellter o'r llawr. Mae gan rai coed fwy nag un coesyn/bonyn yn tyfu o'r bôn, ond un goeden ydynt serch hynny.

**AN1.11.4** Mae un llinell o ddwy goeden neu fwy o fewn perth (gwrych) neu ffin draddodiadol sy'n cael ei hystyried o dan y GAEC yn nodwedd ar y dirwedd, yn gymwys. Nid oes angen tynnu arwynebedd.

**AN1.11.5** Rhaid gwahaniaethu rhwng coed collddail a choed conwydd. Fe welwch restr lawn o godau ar gyfer coed anghymwys yn Atodiad 2 y Llyfryn hwn.

**AN1.11.6** Mae perllannau, coedlannau cylchdro byr a choed sydd o dan Orchymyn Cadw Coed yn gymwys am daliadau'r BPS ac ni ddylech eu defnyddio i gyfrif grwpiau anghymwys o goed. Dylech fesur arwynebedd y coed hyn a'i ddatgan ar y SAF gan ddefnyddio'r codau cnydau priodol yn Atodiad 2 y llyfryn hwn.

**AN1.11.7 Sut mae mesur arwynebedd grŵp anghymwys o goed?**

- Nodwch y grŵp o goed a'u math, sy'n 100m² neu fwy yn y cae
- mesurwch arwynebedd y grwpiau a'r mathau gwahanol o goed
- os oes mwy nag un o'r grwpiau hyn yn y cae, rhaid ichi adio arwynebedd pob grŵp o goed sy'n 100m² neu fwy.

**Enghraifft**: mae tri grŵp o goed llydanddail mewn cae, mae un yn 0.30 hectar, yr ail yn 0.25 hectar a'r trydydd yn 0.56 hectar. O'u hadio at ei gilydd, cyfanswm arwynebedd y grŵp o goed collddail yw 1.11 hectar (0.30 hectar + 0.25 hectar + 0.56 hectar).

- Dewiswch y cod priodol yn Atodiad 2 y llyfryn hwn a datgan arwynebedd y math hwn o goeden wrth y cae ar y ffurflen
- mae angen datganiad ar wahân ar gyfer pob math o grŵp o goed a'i dynnu o arwynebedd y cae cyfan yn y drefn a nodir yn AN1.3.2 uchod.

**Beth os yw'r cae cyfan o dan y canopi?**

**AN1.11.8** Os yw canopi'r coed yn gorchuddio'r cae cyfan, yna dylech ddatgan y cae cyfan naill ai yn goetir conwydd di-stoc neu'n goetir llydanddail di-stoc.

**AN1.11.9** Mewn sefyllfa o'r fath, bydd angen datgan a thynnu arwynebedd anghymwys nodweddion a wnaed gan ddyn, nodweddion dŵr a darnau moel o dir ond ni fydd angen mesur a oes 100 coeden/hectar.

**Beth os yw arwynebedd y grŵp unigol o goed yn llai na 100m² neu os mai dim ond coed unigol sydd yn y cae?**

**AN1.11.10** Os yw arwynebedd grŵp unigol o goed yn llai na 100m² (0.01 hectar) neu os oes coed unigol yn tyfu ar wasgar ar y cae, rhaid cynnal asesiad i weld a oes 100 coeden/hectar yn y cae.

**AN1.11.11** Cewch fanylion sut i asesu a oes 100 coeden/ha yn AN1.13 y Llyfryn hwn.

**Asesiad ar gyfer nodweddion anghymwys gan gynnwys y rheini sy'n llai na 100m²**

**AN1.12 Beth yw Asesiad?**

**AN1.12.1** Amcangyfrif yw asesiad o faint o dir y cae cyfan sy'n anghymwys oherwydd nodweddion gwasgaredig (tir moel naturiol, prysgwydd a rhedyn) ac y bydd yn rhaid ichi ei ddatgan ar eich SAF a'i dynnu o arwynebedd cyfan eich cae.

**AN1.12.2** Bydd angen asesiad:

- os oes modd pori peth o'r gyfran sydd o dan y nodwedd ac nad yw felly'n gwbl anghymwys

  a/neu

- os yw arwynebedd y nodweddion cwbl anghymwys yn llai na 100m².

**AN1.12.3** Cyfrifir yr asesiad technegol trwy luosi arwynebedd y nodwedd wasgaredig â'r ganran sydd o dan y nodwedd anghymwys yn ôl y cyfrannau a ddisgrifir yn y tabl yn AN1.14 y Llyfryn hwn.

**Enghraifft**: Mae darn 5 hectar o dir o dan redyn gwasgaredig, mae 30% ohono'n anghymwys. Mae'r asesiad yn dangos felly bod 5 hectar x 30% = 1.50 hectar o arwynebedd y rhedyn gwasgaredig yn anghymwys.

**Sut mae dweud pa nodweddion gwasgaredig y mae angen cynnal asesiad ohonynt?**

**AN1.12.4** Dylid cynnal yr asesiad ar lefel y parsel tir os yw'r nodweddion gwasgaredig yn gorchuddio'r cae cyfan e.e. rhedyn neu'n gorchuddio un neu fwy o rannau penodol y cae e.e. sgri/meini.

**AN1.12.5** Darllenwch y tabl sy'n disgrifio'r cyfrannau o dir moel naturiol, prysgwydd a rhedyn yn AN1.14 y llyfryn hwn i ddewis y disgrifiad sy'n cyfateb orau i'r nodweddion gwasgaredig ar y cae.

**AN1.12.6** Os mai dim ond un math o nodwedd wasgaredig sydd yn y cae e.e. rhedyn a bod y nodwedd yn gorchuddio'r cae cyfan yn drwch cyson, gellir cynnal asesiad o'r nodwedd wasgaredig honno ar lefel y cae cyfan.

**AN1.12.7** Fodd bynnag, os oes mwy nag un math o nodwedd wasgaredig yn y cae e.e. rhedyn a sgri, ac os ydyn nhw'n gorchuddio cyfrannau gwahanol neu os nad ydyn nhw'n gorchuddio'r cae cyfan, bydd angen cynnal asesiad o'r rhannau penodol hynny lle ceir nodweddion gwasgaredig yn y cae.

**Sut mae dweud pa gyfran o dir sydd o dan nodwedd anghymwys a pha ganran o ostyngiad sydd ei angen?**

**AN1.12.8** Ar sail y disgrifiad o wahanol gyfrannau o dir moel naturiol, prysgwydd a rhedyn yn y tabl yn AN1.14 yn y llyfryn hwn dylech ddewis disgrifiad sy'n cyfateb orau i'ch nodweddion gwasgaredig. Mae gan bob disgrifiad ystod gynrychioliadol o ganrannau ar gyfer pob nodwedd. Nid yw'r canrannau hyn yn rhai pendant a dylid eu defnyddio fel canllaw wrth benderfynu pa gyfran i'w defnyddio i gyfrif arwynebedd terfynol y nodweddion gwasgaredig yn y cae, ac sydd felly'n anghymwys. Byddwch yn ofalus wrth wneud hyn ac os nad ydych yn siŵr, datganwch yr arwynebedd cymwys isaf.

**Asesiad ar lefel y parsel**

**AN1.12.9** Os mai dim ond un math o nodwedd wasgaredig e.e. rhedyn sydd mewn cae, a'i bod o'r un trwch dros y parsel cyfan, gallwch gynnal asesiad ar lefel y parsel cyfan.

- Cynhelir yr asesiad o'r cae cyfan heb y darnau sydd wedi'u tynnu eisoes o arwynebedd y cae cyfan ar gyfer nodweddion a wnaed gan ddyn, nodweddion dŵr, grwpiau o nodweddion anghymwys sydd 100m² neu fwy

- dewiswch y ganran i'w thynnu o'r ystod yn Atodiad AN1.14 y Llyfryn hwn

- lluoswch yr arwynebedd yr ydych yn cynnal asesiad ohono â'r ganran o ostyngiad rydych wedi'i dewis, i fesur arwynebedd y nodweddion gwasgaredig sy'n anghymwys

- dyma'r arwynebedd y dylech ei ddatgan a'i dynnu o gyfanswm maint y cae (yn y drefn a nodir yn AN1.3.2 uchod).

**Enghraifft:** cyfanswm arwynebedd parsel yw 10.20 hectar:

- Rydych wedi cyfrif bod 0.70 hectar ohono'n nodweddion o waith dyn, yn nodweddion dŵr, yn grwpiau o nodweddion anghymwys sy'n 100m² neu fwy ac wedi'i dynnu, gan adael arwynebedd o 9.50 hectar i gynnal asesiad ohono

- rydych yn amcangyfrif gostyngiad o 5% ar sail y disgrifiad yn y tabl yn AN1.14 y Llyfryn hwn: 'Cyfran fwy yn glytiau o redyn trwchus, ond stoc yn dal yn gallu mynd iddynt yn ddirwystr. Ychydig o ddeiliach marw ar y llawr ond gyda phorfa'n tyfu trwyddo' Ystod 3 – 9%

- mae'r asesiad wedi cyfrif bod gennych 0.48 hectar (9.50 hectar x 5% yn anghymwys) o redyn anghymwys

- datganwch yr arwynebedd hwn o 0.48 hectar wrth y cae hwn ar eich SAF gan ddefnyddio'r cod YY21

- Arwynebedd Cymwys Mwyaf y cae hwn nawr yw 9.02 hectar (9.50ha – 0.48ha ar gyfer rhedyn gwasgaredig) a dyna'r arwynebedd sydd ar gael ar gyfer cynnal y rheol 100 coeden/hectar.

**Asesiad ar gyfer darn penodol o fewn parsel**

**AN1.12.10** Os oes un nodwedd mewn parsel ond bod ei chyfran anghymwys yn amrywio mewn rhannau gwahanol o'r cae neu os oes mwy nag un math o nodwedd wasgaredig e.e. rhedyn a sgri, gellir cynnal asesiad o rannau ar wahân a phenodol o nodweddion gwasgaredig cyn belled â bod yr holl arwynebeddau anghymwys yn cael eu hadio i roi un arwynebedd anghymwys ar gyfer y nodwedd wasgaredig a nodir ar eich SAF.

- Mesurwch arwynebedd y rhannau rydych yn cynnal asesiad ohonynt

- dewiswch y ganran i'w thynnu o'r ystod yn Atodiad AN1.14 y Llyfryn hwn

- lluoswch yr arwynebedd yr ydych yn cynnal asesiad ohono â'r ganran o ostyngiad rydych wedi'i dewis, i fesur arwynebedd y nodweddion gwasgaredig sy'n anghymwys o fewn y rhan benodol honno

- adiwch yr holl arwynebeddau anghymwys o'r asesiadau ar gyfer pob math o nodwedd

- dewiswch y cod priodol o Atodiad 2 y llyfryn hwn a datgan yr arwynebedd sydd wedi'i gyfrif ar gyfer y nodwedd wrth y cae

- bydd angen datganiadau gwahanol ar gyfer tir moel naturiol (sgri/meini/creigiau/tywod), Prysgwydd a Rhedyn a dylech dynnu eu harwynebedd o gyfanswm maint y cae yn y drefn yn AN1.3.2 uchod.

## ATODIAD 1: DATGAN A THYNNU NODWEDDION ANGHYMWYS

**Enghraifft**: cyfanswm arwynebedd parsel yw 10.20 hectar:

- rydych yn nodi bod darnau ar wahân o redyn gwasgaredig, yn mesur rhyngddynt 5.00 hectar a dau ddarn gwahanol o sgri gwasgaredig, y naill yn mesur 2.30 hectar a'r llall yn mesur 1.50 hectar

- rydych yn amcangyfrif faint o ganran i'w thynnu ar gyfer pob darn gwahanol:

  a. 5% ar gyfer rhedyn, ar sail y disgrifiad yn y tabl yn AN1.14 y Llyfryn hwn 'Cyfran fwy yn glytiau o redyn trwchus, ond stoc yn dal yn gallu mynd iddynt yn ddirwystr. Ychydig o ddeiliach marw ar y llawr ond gyda phorfa'n tyfu trwyddo'. Ystod 3 – 9%

  b. 15% ar gyfer y darn sgri mwyaf, ar sail y disgrifiad yn y tabl yn AN1.14 y llyfryn hwn 'Creigiau a meini gwasgaredig yn ffurfio darnau mân o dir lle ceir ond ychydig o borfa'. Ystod 15 – 19%

  c. 40% ar gyfer y darn arall o sgri, ar sail y disgrifiad yn y tabl yn AN1.14 y Llyfryn hwn 'Creigiau a meini moel yn ffurfio darnau mwy o dir lle ceir ond ychydig o borfa'. Ystod 20 – 50%

- cyfrifir eich asesiad o'r nodweddion gwasgaredig fel a ganlyn:

  a. cyfrifir bod gennych 0.25 hectar o redyn gwasgaredig anghymwys (5.00 hectar x 5% yn anghymwys)

  b. cyfrifir bod gennych 0.35 hectar o sgri/creigiau anghymwys (2.30 hectar x 15% yn anghymwys)

  c. cyfrifir bod gennych 0.60 hectar o sgri/creigiau anghymwys (1.50 hectar x 40% yn anghymwys)

- ar lefel y parsel, mae'r asesiad wedi cyfrif bod 0.25 hectar o redyn gwasgaredig a bod 0.95 hectar (0.35 hectar + 0.60 hectar) o sgri/craig

- byddwch yn datgan yr 0.25 hectar a 0.95 hectar wrth y cae ar eich SAF gan ddefnyddio'r cod YY21 ar gyfer y cyntaf a'r cod YY41 ar gyfer yr ail.

Arwynebedd Cymwys Mwyaf y cae hwn nawr yw 9.00 hectar (10.20 hectar – 1.20 hectar ar gyfer rhedyn a sgri gwasgaredig) a dyma'r arwynebedd sydd ar gael ar gyfer cynnal y rheol 100 coeden/ha.

### AN1.13 Trwch coed (100 o goed yr hectar)

**AN1.13.1** O 2015 ymlaen, os oes mwy na 100 o goed yn tyfu ar wasgar fesul hectar o arwynebedd cymwys mwyaf y cae, ni chewch daliad BPS ar y cae hwnnw – bydd y cae cyfan yn anghymwys o ran y BPS.

**AN1.13.2** Ar y llaw arall, os oes 100 neu lai o goed yn tyfu fesul hectar o arwynebedd cymwys mwyaf y cae, bydd angen ichi gyfrif yr arwynebedd o dan y coed a'i dynnu o arwynebedd y cae y gellir ei bori.

**AN1.13.3** Planhigyn prennaidd lluosflwydd yw coeden, fel arfer ag un coesyn neu fonyn, sy'n gallu tyfu'n eithriadol o dal (fel arfer dros 1.3m) gyda changhennau'n tyfu o'r bonyn ychydig bellter o'r llawr. Mae gan rai coed fwy nag un coesyn/bonyn yn tyfu o'r bôn, ond un goeden ydynt serch hynny.

**AN1.13.4** Mae un llinell o ddwy goeden neu fwy o fewn perth (gwrych) neu ffin draddodiadol sy'n cael ei hystyried o dan y GAEC yn nodwedd ar y tirlun, yn gymwys. Nid oes angen tynnu arwynebedd.

**Beth yw'r diffiniad o goed gwasgaredig?**

**AN1.13.5** At bwrpas cyfrif a oes 100 coeden/hectar, diffinnir coed gwasgaredig fel a ganlyn:

- coed unigol lle nad yw eu canopi yn cyffwrdd â choed eraill
- un llinell o ddwy neu fwy o goed yn tyfu'n agos iawn at ei gilydd gan greu canopi o fewn cae ond heb fod yn rhan o ffin draddodiadol
- grwpiau o goed ag arwynebedd anghymwys o lai na 100m².

**Sut mae cyfrif a oes gennyf 100 coeden/hectar?**

**AN1.13.6** Gellir meddwl am 100 coeden/hectar fel 100 o goed ar arwynebedd o 10,000m². Mae hynny'n golygu mai arwynebedd coeden unigol ar gyfartaledd yw 100m² neu ei bod yn gorchuddio darn 10m x 10m o dir. Felly byddai gorchudd o goed gwasgaredig â llai na 10m o fwlch rhwng pob un mewn unrhyw gyfeiriad yn croesi'r trothwy o 100 coeden/hectar. Rhagwelir felly y byddai coed â llai na 10m o fwlch rhyngddynt yn cael eu hystyried yn grŵp o goed ac y dylid eu tynnu o'r cyfanswm yn ôl y gofyn. Gweler AN1.11 uchod.

**AN1.13.7** Ar gyfer y datganiad ar eich SAF, gellir cyfrif trwch y coed trwy luosi'r Arwynebedd Cymwys Mwyaf â 100 i weld beth yw cyfanswm y coed yn y cae. Os gwelir bod 100 coeden/hectar neu fwy, mae'r cae yn anghymwys ar gyfer y BPS a dylech ei ddatgan gan ddefnyddio'r cod cnydau priodol (YY15 neu YY14).

**Enghraifft***:* Cyfrifwyd mai 9.50 hectar yw Arwynebedd Cymwys Mwyaf cae (maint y cae cyfan 10.20 hectar, llai 0.70 hectar ar gyfer nodweddion cwbl anghymwys. Y nifer mwyaf o goed ar gyfer yr arwynebedd hwnnw yw 950 o goed (9.50ha x 100 coeden/ha). Amcangyfrifir/cyfrifir bod 950 o goed yn Arwynebedd Cymwys Mwyaf y cae. Y mae felly yn anghymwys ar gyfer y BPS.

- dylech ddatgan yr arwynebedd cymwys mwyaf ar eich SAF â'r cod cnydau priodol – YY14 ar gyfer coed conwydd neu YY15 ar gyfer coed collddail.

**Beth os oes llai na 100 coeden/hectar?**

**AN1.13.8** Os oes llai na 100 o goed yr hectar, mae arwynebedd cymwys mwyaf y cae yn gymwys am y BPS, ond rhaid cynnal asesiad i gyfrif faint sydd i'w dynnu ar gyfer yr arwynebedd o dan foncyffion y coed.

**AN1.13.9** Unwaith eto, gallwch gynnal yr asesiad naill ai ar yr arwynebedd cymwys mwyaf neu ar ddarn(au) penodol o fewn yr arwynebedd cymwys mwyaf os ceir darnau amlwg eu ffiniau o goed gwasgaredig. Dylech ei gynnal fel a ganlyn:

- Cadarnhau'r arwynebedd o goed rydych am gynnal asesiad ohono (arwynebedd cymwys mwyaf neu ddarn amlwg ei ffiniau)
- cadarnhau'r ganran i'w thynnu o'r tabl yn AN1.14 yn y Llyfryn hwn
- lluoswch yr arwynebedd rydych yn cynnal asesiad ohono â'r ganran o ostyngiad rydych wedi'i dewis, i fesur arwynebedd anghymwys y boncyffion coed
- yna dylech ddatgan yr arwynebedd gan ddefnyddio cod YY16 Boncyffion (Trwch o lai na 100 o goed yr hectar) a'i dynnu o gyfanswm maint y cae yn y drefn a nodir yn AN1.3.2 uchod.

**AN1.14 Disgrifiadau o gyfrannau'r nodweddion sy'n anghymwys**

**AN1.14.1** Mae'r asesiad yn mesur trwch pedwar math o nodwedd y mae'n rhaid eu datgan ar eich SAF:

| Disgrifiad o'r Cnwd | Cod Cnydau |
|---|---|
| Boncyffion (Llai na 100 o goed yr hectar) | YY16 |
| Rhedyn | YY21 |
| Prysgwydd gan gynnwys eithin a mieri | YY23 |
| Sgri/cnycau/meini/tywod | YY41 |

**AN1.14.2** Dylech ddefnyddio'r tabl canlynol i benderfynu ar gyfran y nodwedd anghymwys a'r ganran o ostyngiad ar gyfer y nodwedd anghymwys.

- Mae pob nodwedd wedi'i rhannu'n gategorïau gydag ystod o ostyngiad ar gyfer pob categori, wedi'i fynegi ar ffurf canran. Dewiswch y categori sy'n disgrifio'r nodwedd wasgaredig orau
- mae gan bob disgrifiad ystod gynrychioliadol o ganrannau ar gyfer pob nodwedd
- nid yw'r canrannau hyn yn rhai pendant a dylid eu defnyddio fel canllaw wrth benderfynu pa gyfran i'w defnyddio i gyfrif arwynebedd terfynol y nodweddion gwasgaredig yn y cae, ac sydd felly'n anghymwys
- dyma'r disgrifiadau y bydd Arolygiaeth Wledig Cymru yn eu defnyddio ac ar gyfer archwiliadau synhwyro o bell.

**AN1.14.3** Tabl cyfrannau nodweddion sy'n anghymwys

| Tabl Cyfrannau Nodweddion sy'n Anghymwys | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel y gyfran** | **Sgri/Cnycau/ Craig/Meini/ Tywod (YY41)** | **Prysgwydd gan gynnwys eithin a mieri (YY23)** | **Rhedyn (YY21)** | **Boncyffion (Llai na 100 o goed/ha) (YY16)** |
| **Disgrifiad Lefel 1** | Craig foel wasgaredig o fewn cae sy'n cael ei bori. | Llawer o lwyni unigol (e.e, Eithin, Drain Gwynion) lle bo tir ar gael i'w bori. | Peth tystiolaeth o redyn i'w gweld yn y lluniau o'r awyr. | Coed unigol gwasgaredig lle na fyddai arwynebedd y boncyffion a'r coed o'u cyfuno yn 100m$^2$ (0.01ha). |
| **Ystod % anghymwys lefel 1** | **1 – 4%** | **1 – 4%** | **1 – 2%** | **0%** |
| **Disgrifiad Lefel 2** | Creigiau a meini gwasgaredig yn ffurfio darnau mân o dir lle ceir ond ychydig o borfa. | Llawer o lwyni gwasgaredig yn bresennol gan ffurfio clystyrau mewn rhai mannau. Porfa ar gael oddi tanynt a rhyngddynt. | Cyfran fwy yn glytiau o redyn trwchus, ond stoc yn dal yn gallu mynd iddynt yn ddirwystr. Ychydig o ddeiliach marw ar y llawr ond gyda phorfa'n tyfu trwyddo. | Coed niferus gwasgaredig gyda phorfa oddi tanynt a rhyngddynt. Coetir agored (e.e. deri, llarwydd) lle nad yw'r canopi'n gysgod ac nad yw'r deiliach yn rhwystro tyfiant porfa oddi tanynt. |
| **Ystod % anghymwys lefel 2** | **5 – 19%** | **5 – 9%** | **3 – 9%** | **1 – 9%** |
| **Disgrifiad Lefel 3** | Creigiau a meini moel yn ffurfio darnau mwy o dir lle ceir ond ychydig o borfa. | Modd pori'r rhan fwyaf ond llawer clwstwr o lwyni, bob un yn ddigon trwchus naill ai i gadw stoc allan neu i rwystro porfa rhag tyfu. | Y rhan fwyaf yn rhedyn trwchus, ond stoc yn dal yn gallu mynd iddo. Rhedyn yn pydru'n gorchuddio llawr y safle ond heb fod o drwch mawr. Porfa'n tyfu trwy'r deiliach. | Amh |
| **Ystod % anghymwys lefel 3** | **20 – 49%** | **10 – 39%** | **10 – 39%** | **Amh** |

## ATODIAD 1: DATGAN A THYNNU NODWEDDION ANGHYMWYS

| Tabl cyfrannau nodweddion sy'n anghymwys | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel y gyfran** | **Sgri/Cnycau/ Craig/Meini/ Tywod (YY41)** | **Prysgwydd gan gynnwys eithin a mieri (YY23)** | **Rhedyn (YY21)** | **Boncyffion (Llai na 100 o goed/ha) (YY16)** |
| **Disgrifiad Lefel 4** | Nid yw'n bosibl pori dros hanner y cae oherwydd craig foel, rwbel chwareli ac ati. | Darnau o lwyni trwchus, gydag ond ychydig o borfa oddi tanynt – rhaid wrth lwybrau i fynd atynt. Mieri'n bresennol. Gellïoedd ar lethrau serth ar lan nentydd, ychydig iawn o oleuni, ychydig iawn o borfa – rhaid wrth lwybrau i fynd atynt. | Rhedyn tal a thrwchus sy'n cyfyngu symudiadau stoc i lwybrau. Trwch o ddeiliach ar lawr. | Amh |
| **Ystod % anghymwys lefel 4** | **50 – 99%** | **40 – 99%** | **40 – 99%** | **Amh** |
| **Disgrifiad Lefel 5** | Darnau o graig, graean a sbwriel cloddio a chwareli, lle nad oes tir pori ar gael. | Ardal drwchus o brysgwydd neu eithin, amhosibl i stoc fynd iddi. Dim arwydd o lwybrau. | Rhedyn trwchus amhosibl mynd trwyddo. Da byw yn cadw draw oddi wrtho y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Trwch o ddeiliach ar lawr, wedi crynhoi'n haen organig yn lle pridd, i gadarnhau ei fod wedi bod yn casglu dros flynyddoedd. | Grŵp(iau) o dair neu fwy o goed (nad ydynt yn rhan o ffin draddodiadol) yn tyfu'n agos iawn i'w gilydd gan greu canopi o ganghennau sy'n ffurfio gorchudd di-dor uwchben). |
| **Ystod % anghymwys lefel 5** | **100% yn anghymwys**<br><br>Dylid datgan darnau sydd fwy na 100m² yn grŵp anghymwys a'u tynnu o arwynebedd y cae. | **100% yn anghymwys**<br><br>Dylid datgan darnau sydd fwy na 100m² yn grŵp anghymwys a'u tynnu o arwynebedd y cae. | **100% yn anghymwys**<br><br>Dylid datgan darnau sydd fwy na 100m² yn grŵp anghymwys a'u tynnu o arwynebedd y cae. | **100% yn anghymwys**<br><br>Dylid datgan darnau sydd fwy na 100m² yn grŵp anghymwys a'u tynnu o arwynebedd y cae. |

# ATODIAD 1: DATGAN A THYNNU NODWEDDION ANGHYMWYS

Mae'r tabl isod yn nodi'r holl godau cnydau ar gyfer tir a nodweddion a allai fod yn bresennol yn y cae. Rhaid ichi ystyried y codau hyn a'u cofnodi yn adran Data Caeau'ch SAF i ddatgan yr arwynebeddau a'r nodweddion yn y caeau sydd ar gael ichi eu defnyddio. Rhaid ichi ddarllen hefyd unrhyw godau sydd wedi'u cofnodi ar eich rhan a'u newid yn ôl y gofyn.

**Pwysig:** Rhaid datgan nodweddion/cnwd/tir gwahanol mewn cae ar linellau ar wahân ar eich SAF wrth rif y cae.

**Enghraifft:** Ar gae o 5.00 hectar, mae 4.95 hectar o borfa barhaol (GR2), 0.02 hectar o wyneb galed (ZZ92) a 0.03 hectar o drac heb ei bori (ZZ97). Rhaid datgan pob rhan ar linellau ar wahân o dan rif y cae.

Mae'r tabl isod hefyd yn nodi a yw'r cnwd yn gymwys am daliad dan Taliad Sylfaenol (BPS), Cynlluniau Buddsoddi Gwledig neu Cynlluniau Creu Coetir DG.

**Esbonnir y rheolau ar gyfer datgan nodweddion y dirwedd a thir anghymwys ar eich daliad yn Atodiad 1 y llyfryn hwn. Mae'n bwysig asesu'r tiroedd hyn ar eich daliad. Gallai peidio â gwneud arwain at orddatgan arwynebedd cymwys a gallai hynny arwain at leihau'ch taliad a chosbau.**

**Codau cnydau ar gyfer Coetir**

Mae grwpiau o goed a darnau tir â mwy na 100 o goed gwasgaredig yr hectar yn cael eu hystyried yn anghymwys am BPS.

Mae Atodiad 1 y Llyfryn hwn yn esbonio sut i asesu'r tiroedd hyn er mwyn ichi allu eu datgan ar eich SAF, gan ddefnyddio'r codau cnydau canlynol:

ZZ10 – Coetir – conwydd – grŵp (ddim yn gymwys am BPS)

ZZ11 – Coetir – llydanddail – grŵp (ddim yn gymwys am BPS)

YY14 – Coetir – conwydd – gwasgaredig â mwy na 100 o goed yr hectar (ddim yn gymwys am BPS)

YY15 – Coetir – llyndanddail – gwasgaredig â mwy na 100 o goed yr hectar (ddim yn gymwys am BPS).

**Mae caeau â 100 o goed gwasgaredig neu lai yr hectar yn gymwys am BPS.** Ar gyfer y tir hwnnw, defnyddiwch y cod cnydau sy'n briodol ar gyfer y math o dir, e.e. GR2 (porfa barhaol – dros 5 oed). Dylech hefyd ddatgan YY16 (Coed – boncyffion unigol – ddim yn gymwys am y BPS) lle bydd cyfanswm yr arwynebedd o dan foncyffion yn y cae yn fwy na 50m².

**Gweithgareddau heb fod yn rhai Amaethyddol**

Mae paragraffau B23 y llyfryn hwn yn rhestru gweithgareddau anamaethyddol ar gyfer BPS. Rhaid defnyddio Cod NO1 pan gynhelir y gweithgareddau hyn ar y tir.

# ATODIAD 1: DATGAN A THYNNU NODWEDDION ANGHYMWYS

**Defnyddio Codau Cnydau/Defnyddio Tir ar gyfer Porfa**

Mae tir sydd wedi bod o dan borfa am 5 mlynedd neu fwy’n cael ei ystyried yn dir pori parhaol felly defnyddiwch y cod GR2.

Ar gyfer tir sydd wedi bod o dan borfa am lai na 5 mlynedd ar ôl tyfu cnwd âr, defnyddiwch GR1. Dim ond os cafwyd cylchdro cnydau âr ar y tir yn y 5 mlynedd diwethaf y gallwch newid y categori o GR2 i GR1.

Os yw tir pori parhaol wedi bod o dan borfa am fwy na 5 mlynedd ac wedi’i ail-hau â phorfa yn y 12 mis diwethaf, dylech ddefnyddio’r cod GR8.

# Atodiad 2 – Codau Datgan a Defnydd Tir

### Tabl 1: Codau Cnydau i ddatgan cnydau yn yr adran Data Caeau

Mae'n rhaid i Gynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig, Cynnal Creu Coetir a Phremiwm Creu Coetir gyfeirio at Atodiad 3 i gael arweiniad ar ba godau cnydau i'w datgan i gefnogi eu hawliad.

**Nodwch:** Lle mae cnwd gwanwyn (HS08 Planhigion Tir Âr) yn cael ei sefydlu yn 2024 ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru, **rhaid** ceisio cymeradwyaeth drwy eich cyfrif RPW Ar-lein ar gyfer pob cnwd ac eithrio Haidd, Ceirch, Rhyg, Rhygwenith a Gwenith.

| Atodiad 2: Tabl 1: Disgrifiad o'r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS /OS | OS Cyfradd Dalu 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Afalau | AP4 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Artisiog | AR2 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Bambŵ | BA2 | Cnwd Parhaol | Na | Ydy | Ydy | Na |
| Basil | BA6 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Berwr dŵr | CR5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Berwr - salad | CR4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Berwr y Gerddi (rocet) | RO2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Betys/Mangolds | BT1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Bresych a brassica eraill – wedi'u hau yn y gwanwyn | CA21 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Bresych a brassica eraill – wedi'u hau yn y gaeaf | CA22 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Brwyn | RU1 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Bysedd y blaidd pêr | LU1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Camelina | CA18 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ceirch – wedi'i hau yn y gwanwyn | OA5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ceirch – wedi'i hau yn y gaeaf | OA4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |

# ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

| Atodiad 2: Tabl 1: Disgrifiad o’r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS /OS | OS Cyfradd Dalu 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cennin pedr | DA1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Chili | CI1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Chili - Goeden | CT1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Ciwcymbrau | CU1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Cnau castan | NU2 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Cnau cyll / cob | NU5 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Cnau Ffrengig | NU4 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Cnau pistasio | PI1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Cnydau Âr – cymysg | MC3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Cnydau cloi nitrogen – cymysg | MN1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Coed â gorchymyn cadw coed | TP8 | Arall | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Coedlan cylchdro byr | CO4 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Coetir conwydd – pori | CG1 | Porfa Barhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Coetir llydanddail – pori | BG1 | Porfa Barhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Corbys | LE1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Coridor glan nant | SC2 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Coridor glan nant – heb fod yn BPS | SC3 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Coridor glan nant (Glastir yn Flaenorol) | GC1 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Corneli caeau neu ymylon coetir di-stoc | GC3 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Cors / gwely cyrs di-stoc | RE3 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Crambe | CR2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

## ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

| Atodiad 2: Tabl 1: Disgrifiad o'r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS /OS | OS Cyfradd Dalu 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyrs | RE1 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Cywarch | HE2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Dil | DL1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Eirin/Eirin Gwyrdd/Ceirios/Almonau | PL2 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Eirin Mair/Cyrens coch/Cyrens duon/Cyrens gwyn | BS3 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Erfin | SW4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Gellyg | PE10 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Ffa gwyrdd | BN2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ffa maes – wedi'i hau yn y gwanwyn | BN4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ffa maes – wedi'i hau yn y gaeaf | BN5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ffa mwng | BE11 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ffa soia | BN3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ffawlys | SF1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ffenigl | FE2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Ffenigrig | FE1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Garddwriaeth cynnyrch cymysg | MP1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Grawnwin | GR7 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Grug | HE9 | Porfa Barhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Gwenith – wedi'i hau yn y gaeaf | WT1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Gwenith – wedi'i hau yn y gwanwyn | WT2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Gwenith y Gors | BU1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |

# ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

| Atodiad 2: Tabl 1: Disgrifiad o’r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS /OS | OS Cyfradd Dalu 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwenith yr almaen – wedi'i hau yn y gwanwyn | SP8 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Gwenith yr almaen – wedi'i hau yn y gaeaf | SP9 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Gweundir di-stoc | HE6 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Gweundir pori | HE7 | Porfa Barhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Gwyndwn – aildyfiant naturiol | FA3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Gwyndwn – gorchudd bywyd gwyllt wedi'i hau | FA5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Gwyndwn – Porfa wedi'i hau | FA4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Had Blodau’r Haul | SU2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Had Llin – wedi'i hau yn y gwanwyn | LI4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Had Llin – wedi'i hau yn y gaeaf | LI5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Had Pefrwellt/pefrwellt | CY1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Had porthiant glas | HE8 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Haidd – wedi'i hau yn y gwanwyn | BA5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Haidd – wedi'i hau yn y gaeaf | BA4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Helyg gwiail | OS1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Hopys | HO1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Iam | YA1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Indrawn | MA6 | Âr | Ydy | Na | Ydy | Na |
| Lafant | LA1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Letys | LE3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Liwsérn | LU2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |

## ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

| Atodiad 2: Tabl 1: Disgrifiad o’r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS /OS | OS Cyfradd Dalu 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llain clustogi pwll (Glastir yn Flaenorol) | GC2 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Llus / Llygaeron | BS2 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Llyriad | PL3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Llysiau’r Cwlwm | CO5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Llysiau'r lliw | WO1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Madarch | MU2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Maglys Du | ME6 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Maip/Teiffon/Colza | TU5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Maro/Pwmpenni/Sgwash/Courget | MA5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Mefus | ST1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Meillion | CL4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Meillion – pys y ceirw | TR9 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Meillion melys | CL3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Meithrinfa – coed | NU11 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Melonau | ME3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Melonau dŵr | ME5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Melyn yr hwyr | EV1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Merllys | AS1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Miled | MI1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Miscanthus | MI5 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Morfa Heli di-stoc | SM1 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Morfa Heli – i’w phori | SM2 | Porfa Barhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Moron | CA20 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

# ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

| Atodiad 2: Tabl 1: Disgrifiad o'r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS /OS | OS Cyfradd Dalu 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwstard | MU3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Mwstard brown | MU5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Mwyar duon/Mwyar logan/Mafon | BS1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Oregano | OR2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Pannas | PA2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Perllan – cymysg | OR3 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Persli | PA1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Planhigyn wy | AU1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Porfa barhaol – dros 5 oed | GR2 | Porfa Barhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Porfa barhaol – wedi'i hailhau yn y 12 mis diwethaf | GR8 | Porfa Barhaol | Ydy | Na | Ydy | Na |
| Porfa di-stoc | GR9 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Porfa dros-dro – llai na 5 oed | GR1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Prysgwydd/eithin/mieri di-stoc heb fod yn BPS (Glastir yn Flaenorol) | GS1 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Prysgwydd/Eithin/Mieri – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | GS2 | Arall | Na | Ydy | Na | Na |
| Pupur | PP1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Pupys | VE3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Pwmpen - Siam | SP7 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Pyllau - cymwys am BPS (darllenwch baragraff B17) | PD1 | | Ydy | Na | Na | Na |
| Pŷs - ffacbys | PE3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

## ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

| Atodiad 2: Tabl 1: Disgrifiad o’r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS /OS | OS Cyfradd Dalu 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pŷs (dringo ac eraill) – wedi'u hau yn y gwanwyn | PS2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Pŷs (dringo ac eraill) – wedi'u hau yn y gaeaf | PS3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Pŷs-y-Ceirw | TR5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Radis | RA2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Rêp had olew – wedi'i hau yn y gwanwyn | RA8 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Rêp had olew – wedi'i hau yn y gaeaf | RA7 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Rêp Porthiant | RA9 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Riwbob | RH1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Rhosynnau | RO1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Rhuddygl | RA4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Rhyg – (gan gynnwys Meslin) – wedi'i hau yn y gwanwyn | RY4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Rhyg – (gan gynnwys Meslin) – wedi'i hau yn y gaeaf | RY5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Rhygwenith – wedi'i hau yn y gaeaf | TC3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Rhygwenith – wedi'i hau yn y gwanwyn | TC4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Saets | SA9 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Saffrwm | SA1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Salsiffi | SA3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

## ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

| Atodiad 2: Tabl 1: Disgrifiad o'r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS /OS | OS Cyfradd Dalu 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sbinaets | SP3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Scorzonera | SC1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Seleriac | CE2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Sgwash – Banana | SQ1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Sgwash - Cnau menyn | SQ2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Sgwash - Japan | SQ3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Sicori | CH5 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Sorgwm | SO3 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Tafod yr ŷch | BO1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Tatws | PO1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Tatws melys | PO2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Tir nad oes modd ei ddefnyddio – dros dro | TT99 | Arall | Na | Na | Na | Na |
| Tiwlipau | TU4 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Tomatos | TO2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Traciau pori | GT1 | Porfa Barhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Twyni tywod | SD1 | Porfa Barhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Tybaco | TO1 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Winwns/Cennin/Sialóts/Garlleg | ON2 | Âr | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| Ymylon caeau | FM1 | Arall | Ydy | Ydy | Ydy | Na |
| Ysgall bwyta | TH1 | Cnwd Parhaol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

# ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

**Atodiad 2: Tabl 2:**

Codau Cnydau i ddatgan tir yn yr adran Data Caeau, sydd dan gontract a/neu ddyfarniad grant creu coetir Cynllun Creu Coetir DG a/neu Gynllun Buddsoddi Gwledig **ac sy’n gymwys am gynllun y taliad sylfaenol dan amodau penodol** (gweler paragraffau B20 am arweiniad) h.y. ystyrir eu bod wedi’i coedwigo o dan gynllun creu coetir.

**Nodwch,** unwaith y bydd eich ymrwymiad Cynllun Creu Coetir DG neu gontract a/neu ddyfarniad grant creu coetir Cynllun Buddsoddi Gwledig yn dod i ben mae unrhyw ymrwymiad coedwigo cysylltiedig hefyd yn dod i ben. Rhaid cyhoeddi'r tir hwn wedyn gyda chod defnydd tir priodol a restrir yn Nhabl 1 a/neu Tabl 3. Os byddwch yn datgan tir fel neilltir ar ôl i gontract a/neu grant ddod i ben, mae’n bosibl y caiff eich hawliadau eu lleihau ac y byddwch yn cael eich cosbi am orddatgan.

**Sylwch** nad oes ymrwymiad i neilltuo nac i wahardd stoc o dir o dan gytundeb Cynllun Cynefin Cymru. O'r herwydd, ni fydd unrhyw dir a oedd wedi'i neilltuo yn flaenorol o dan gontract Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 ac y tybir eu bod yn gymwys ar gyfer BPS mewn blynyddoedd blaenorol bellach yn gymwys. Rhaid datgan y tir hwn wedyn gyda chod defnydd tir priodol a restrir yn Nhabl 1 a/neu Tabl 3.

| Atodiad 2: Tabl 2: Disgrifiad o’r Cnwd / Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS/OS |
|---|---|---|---|---|---|
| Coetir conwydd – di-stoc – yn gymwys am BPS | CW1 | Arall | Ydy | Ydy | Na |
| Coetir llydanddail – di-stoc – yn gymwys am BPS | BW1 | Arall | Ydy | Ydy | Na |

# ATODIAD 2: CODAU DATGAN A DEFNYDD TIR

**Atodiad 2: Tabl 3:**

Nodweddion parhaol nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol a rhai contractau a/neu ddyfarniadau grant creu coetir Cynllun Creu Coetir DG a Cynllun Buddsoddi Gwledig.

| Atodiad 2: Tabl 3: Disgrifiad o'r Cnwd/Gorchudd Tir | Cod y Cnwd | Categori Gorchudd Tir | Cymwys am BPS | Cymwys am Cynefin Cymru | Taliad OCS/OS |
|---|---|---|---|---|---|
| Coetir – conwydd – grŵp | ZZ10 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Coetir – llydanddail – grŵp | ZZ11 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Coetir – conwydd – gwasgaredig | YY14 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Coetir – llydanddail – gwasgaredig | YY15 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Coetir – boncyffion | YY16 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Coetir – conwydd – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | TR2 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Coetir – llydanddail – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | WS1 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Rhedyn – grŵp | ZZ20 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Rhedyn – gwasgaredig | YY21 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Prysgwydd/eithin/mieri – grŵp | ZZ22 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Prysgwydd/eithin/mieri – gwasgaredig | YY23 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Pyllau – anghymwys | ZZ30 | Arall | Na | Na | Na |
| Afonydd a Nentydd | ZZ31 | Arall | Na | Na | Na |
| Sgri/creigiau/cnycau/tywod – grŵp | ZZ40 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Sgri/creigiau/cnycau/tywod – gwasgaredig | YY41 | Arall | Na | Ydy | Na |
| Adeiladau a Buarthau | ZZ89 | Arall | Na | Na | Na |
| Arwynebau caled | ZZ92 | Arall | Na | Na | Na |
| Heolydd | ZZ94 | Arall | Na | Na | Na |
| Traciau heb eu pori | ZZ97 | Arall | Na | Na | Na |
| Gweithgareddau anamaethyddol | NO1 | Arall | Na | Na | Na |

## Atodiad 3 – Cynlluniau Coedwigo a Chytundebau Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

### Ar gyfer tir sy'n rhan o gynllun coedwigo cymwys:

Ar gyfer tir sy'n rhan o gynllun coedwigo cymwys, os cawsoch daliad SPS ar y tir hwnnw yn 2008 a'i fod yn gymwys am yr SPS neu'r BPS pan gafodd ei blannu y tro cyntaf, gellid ystyried ei fod yn gymwys am y BPS tra bydd gofyn iddo fodloni amodau a thelerau'ch Contract.

<table>
<tr><th>Cynllun Coedwigo</th><th colspan="2">Opsiynau Rheoli Cymwys</th></tr>
<tr><td rowspan="7">Cynllun Grant Coetir (WGS 3)</td><td>LEAP</td><td>Coetir lle mae stoc wedi'i wahardd</td></tr>
<tr><td>NB</td><td>Plannu newydd â chyfraniad Tir Gwell</td></tr>
<tr><td>NC</td><td>Plannu coedlan newydd</td></tr>
<tr><td>NK</td><td>Plannu coedlan newydd gyda chyfraniad tir gwell</td></tr>
<tr><td>NP</td><td>Plannu newydd</td></tr>
<tr><td>NS</td><td>Plannu newydd sy'n gymwys fel neilltir</td></tr>
<tr><td>NZ</td><td>Plannu newydd trwy aildyfiant naturiol (neilltir)</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Cynllun Premiwm Coetir Fferm (FWPS) *</td><td colspan="2">Tir Âr – tu allan i'r ALFf</td></tr>
<tr><td colspan="2">Tir Âr – Dan Anfantais</td></tr>
<tr><td colspan="2">Tir Âr – Dan Anfantais Fawr</td></tr>
<tr><td>Glastir – Creu Coetir<br><br>Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP)</td><td>PLTD</td><td>Coetir newydd</td></tr>
<tr><td>Glastir – Creu Coetir<br><br>Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP)<br><br>Cynnal Creu Coetir Glastir (GCM)</td><td>PLTD</td><td>Coetir newydd, wedi'i blannu ers 2015</td></tr>
<tr><td>Grant Creu Coetir<br><br>Grantiau Bach – Creu Coetir<br><br>Premiwm Creu Coetir (WCP)<br><br>Cynnal Creu Coetir (WCM)</td><td>PLTD</td><td>Coetir newydd</td></tr>
</table>

## ATODIAD 3 - CYNLLUNIAU COEDWIGO A CHYTUNDEBAU RHEOLI CYFOETH NATURIOL CYMRU(CNC)

*Ar gyfer y Cynllun Premiwm Coetir Fferm, gallai'ch Contract gynnwys y cyfnod ar ôl ichi gael eich taliadau blynyddol pan na fydd hawl gennych dorri coed.

Ar dir y plannwyd coed arno o dan un o'r contractau coedwigo uchod, rhaid defnyddio un o'r codau canlynol:

- BW1 – Coetir Llydanddail di-stoc – I'w ddefnyddio os cawsoch daliad SPS ar y tir yn 2008 a bod opsiwn rheoli cymwys yn cael ei gynnal ar y tir sydd o dan Gontract.

- CW1 – Coetir Conwydd di-stoc – I'w ddefnyddio os cawsoch daliad SPS ar y tir yn 2008 a bod opsiwn rheoli cymwys yn cael ei gynnal ar y tir sydd o dan Gontract.

- WS1 – Coetir Llydanddail di-stoc – I'w ddefnyddio os na chawsoch daliad SPS ar y tir yn 2008 neu nad oes opsiwn rheoli cymwys yn cael ei gynnal ar y tir sydd o dan Gontract.

- TR2 – Coetir Conwydd di-stoc – I'w ddefnyddio os na chawsoch daliad SPS ar y tir yn 2008 neu nad oes opsiwn rheoli cymwys yn cael ei gynnal ar y tir sydd o dan Gontract.

Dim ond tir y cynhelir gwaith 'plannu newydd' arno sy'n gymwys am BPS o dan y cynlluniau coedwigo hyn. Os ydych wedi arwyddo un o'r cytundebau hyn, edrychwch a yw'ch Contract yn cynnwys un o'r opsiynau 'plannu newydd' ar gyfer y tir hwnnw.

Os ydych yn datgan tir fel BW1/CW1 a'n bod yn gweld nad yw'ch Contract a/neu Ddyfarniad Grant yn cynnwys opsiwn cymwys, ni fydd y tir yn gymwys am daliad BPS a chewch eich cosbi am orddatgan.

Unwaith y byddwch wedi cyflawni'ch ymrwymiad coedwigo, ni chewch barhau i ddatgan y tir ar gyfer BPS a rhaid ichi ddatgan y tir fel WS1 neu god coetir arall.

**Tir sy'n rhan o Gytundeb Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

Efallai bod Cyfoeth Naturiol Cymru (neu ei ragflaenydd) wedi dynodi peth o'ch tir, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Bydd y polisi rheoli y cytunwyd arno yn esbonio pam ac yn cynnwys trefniadau rheoli penodol y bydd yn rhaid ichi gadw atynt. Gallai hynny, ambell dro, gynnwys cadw stoc allan o ardaloedd pori.

Gan y gellir ystyried bod tir yn gymwys am y BPS os cynhelir y gweithgarwch amaethyddol lleiaf sy'n ofynnol arno, gan gynnwys cadw tir mewn cyflwr addas ar gyfer ei bori a'i drin (gweler Adran B), bydd tir sydd o dan gytundeb rheoli'r CNC yn gorfod bodloni'r un amodau o ran y BPS.

Dylech ddatgan y gorchudd tir sy'n disgrifio cyflwr eich tir orau, fel y mae ar 15 Mai bob blwyddyn e.e. GR2 ar gyfer porfa barhaol neu ZZ11 ar gyfer grwpiau o goed llydanddail.

## ATODIAD 3 - CYNLLUNIAU COEDWIGO A CHYTUNDEBAU RHEOLI CYFOETH NATURIOL CYMRU(CNC)

Ni ddylech ddatgan coetir fel BW1/CW1 os ydy'r tir hwnnw yn rhan o gytundeb rheoli CNC gan y cewch eich cosbi am orddatgan pan fydd ein harchwiliadau'n dangos nad yw'r cytundeb rheoli'n rhwystro'r tir rhag bod yn gymwys am y BPS.

## Atodiad 4: Dyddiadau Pwysig

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| 1 Ionawr 2024 | Dechrau blwyddyn y BPS. |
| 1 Ionawr 2024 | Trawsgydymffurfio’n dechrau ar gyfer 2024. |
| 4 Mawrth 2024 | SAF 2024 ar gael. |
| 22 Ebrill 2024 | Bydd neges ddarlledu sy’n atgoffa ynghylch cyflwyno SAF yn cael ei hanfon yr wythnos sy’n cychwyn ar 22 Ebrill 2024. |
| 6 Mai 2024 | Bydd neges ddarlledu sy’n atgoffa ynghylch cyflwyno SAF yn cael ei hanfon yr wythnos sy’n cychwyn ar 6 Mai 2024. |
| 15 Mai 2024 | Cyfnod Trosglwyddo a Lesio Hawliau BPS 2024 yn cau. |
| 15 Mai 2024 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn SAF 2024 heb gosb. |
| 31 Mai 2024 | Y diwrnod olaf ar gyfer newid manylion y tir ar eich SAF 2024 (heb gael cosb) ar ffurflenni a gyflwynwyd erbyn 15 Mai 2024. |
| 3 Mehefin 2024 | Bydd neges ddarlledu sy’n atgoffa ynghylch cyflwyno SAF yn cael ei hanfon yr wythnos sy’n cychwyn ar 3 Mehefin 2024. |
| 10 Mehefin 2024 | Y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno SAF 2024 (er y bydd cosbau am ei chyflwyno hyd at hynny). Gwrthodir pob SAF fydd yn cyrraedd ar ôl 10 Mehefin. |
| 19 Mehefin 2024 | Y diwrnod olaf i ymateb i’r llythyr ‘Archwiliadau Cychwynnol: Nodweddion Parhaol a Chaeau Dwbl’ i osgoi cosb. |
| 30 Mehefin 2024 | Os ydych yn hau cywarch ar ôl 15 Mai, rhaid cyflwyno labeli had erbyn 30 Mehefin fan bellaf. |
| 14 Hydref 2024 | Bydd Rhagdaliad BPS yn dechrau. |
| 12 Rhagfyr 2024 | Bydd Taliadau Olaf BPS yn dechrau. |
| 31 Rhagfyr 2024 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Dogfennau Ategol BPS.<br>Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Dogfennau Ategol y Cynllun Troi’n Organig.<br>Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Dogfennau Ategol Chymorth Organig. |
| 31 Ionawr 2025 | Cynllun Buddsoddi Gwledig a Chynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig yn dechrau. |

# Atodiad 5: Rhestr Termau

| Acronymau a Thermau | Esboniad |
|---|---|
| Arwynebedd wedi'i gadarnhau (mewn archwiliad) | • Ar gyfer cynlluniau arwynebedd, arwynebedd y tir lle mae'r ffermwr/rheolwr tir wedi bodloni'r amodau a'r ymrwymiadau ar gyfer cael cymorth, waeth faint o hawliau i daliad sydd ar gael at ddefnydd ffermwr/rheolwr tir;<br>• ar gyfer mesurau cymorth ar sail arwynebedd, arwynebedd y clytiau neu'r caeau sydd wedi'u cadarnhau trwy archwiliadau gweinyddol ac ar y fferm. |
| BACS | Bankers Automated Clearing System. |
| Buddiolwr | Ffermwr fel y'i diffinnir uchod sy'n ffermwr actif, sy'n bodloni'r amodau Trawsgydmffurfio ac sy'n derbyn taliadau uniongyrchol neu ffermwr/rheolwr tir sy'n derbyn cymorth datblygu cefn gwlad. |
| Ceidwad | Gweler y diffiniad yn Llawlyfr Gwartheg y BCMS a'r Llawlyfr Defaid a Geifr. |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Cnydau Parhaol | Cnydau heblaw am dir pori barhaol, nad ydynt yn rhan o gylchdro, sy'n tyfu am bum mlynedd neu fwy ac sy'n cael eu cynaeafu dro ar ôl tro. Yn cynnwys meithrinfeydd a choedlannau cylchdro byr. |
| Coedlan cylchdro byr | Coedlan sydd wedi'i phlannu â choed i gynhyrchu cnydau pren lluosflwydd lle mae'r gwreiddgyff a'r boncyffion yn cael eu gadael yn y pridd ar ôl cynaeafu'r pren ac yn blaguro yn y tymor canlynol a lle mae'r cylch cynaeafu hiraf yn 20 mlynedd. |
| CPH | Rhif y Sir, Plwyf, Daliad. Cyfeirir ato fel Rhif y Daliad. Yn dangos lleoliad y daliad. Efallai y bydd gan ffermwyr fwy nag un CPH ond bydd pob CPH wedi'i gysylltu ag un CRN. |
| Creu amodau artiffisial | Ffermwyr sy'n creu amodau artiffisial i gael mantais o unrhyw rai o'r rheolau sy'n ymwneud â thalu'r BPS, gan gynnwys i osgoi cael eu capio, hynny drwy ddatgan/peidio â datgan tir sydd ar gael iddynt ei ddefnyddio ac ati. Byddwn yn ymchwilio i'r mater ac mae'n bosibl y gallwn gadw taliadau'n ôl, gwrthod eu talu neu ofyn am eu had-dalu. Mae hyn yn cynnwys y Taliad Ffermwyr Ifanc a hawliau o'r Gronfa Genedlaethol. |

# ATODIAD 5: RHESTR TERMAU

| Acronymau a Thermau | Esboniad |
|---|---|
| CRN | Cyfeirnod y Ffermwr. Rhif unigryw i adnabod y busnes sy'n dilyn y fformat A0098765. |
| Cynllun Cynefin Cymru Dosbarthiadau Cynefinoedd | Ardaloedd o dir lle mae dyfarniad grant Cynllun Cynefin Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r tir gael ei reoli mewn ffordd benodol. Bydd y gofynion rheoli yn wahanol yn dibynnu ar y Dosbarthiad Cynefin sydd wedi'i gynnwys yn y dyfarniad grant rydych wedi'i dderbyn. |
| Daliad | Yr holl unedau a ddefnyddir ar gyfer cynnal gweithgareddau amaethyddol ac sy'n cael eu rheoli gan ffermwr (yn cynnwys y tir y mae'r ffermwr yn berchen arno a thir y mae'n ei rentu). |
| ESPG | Ardaloedd a ddynodwyd fel Porfeydd Parhaol Amgylcheddol Sensitif ac sydd wedi'u diogelu o dan Trawsgydymffurfio GAEC 7. Dyma'r ardaloedd:-<br>• Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)<br>• Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)<br>• ac ardaloedd mewn 'Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) biolegol (nid y rheini sydd wedi'u dynodi oherwydd eu nodweddion daearegol/gwyddor daear). |
| Ffermwr | Person naturiol neu Berson Cyfreithiol neu grŵp o bobl naturiol neu Gyfreithiol sy'n cynnal gweithgarwch amaethyddol. Gweler Adran B4. |
| GAEC | Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da. |
| Gweithgarwch amaethyddol | • Cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion amaethyddol. Mae hynny'n cynnwys cynaeafu cnydau neu cadw anifeiliaid ar gyfer eu godro, eu bridio neu at bwrpas amaethyddol arall.<br>• Cadw tir amaethyddol mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer ei bori neu ei drin ond heb ei baratoi yn fwy na thrwy ddulliau neu beiriannau amaethyddol arferol. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu rheoli chwyn estron goresgynnol a phrysgwydd.<br>• Cynnal gweithgarwch sy'n bodloni gofynion sylfaenol ar dir amaethyddol sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei pori neu ei drin. Yng Nghymru, morfeydd heli a thwyni tywod yw'r tir hwnnw. Rhaid ichi o leiaf bori gydag o leiaf 0.01 i 0.05 uned da byw yr hectar y flwyddyn ar gyfartaledd ar y tir hwn, neu reoli chwyn estron goresgynnol a phrysgwydd. |

## ATODIAD 5: RHESTR TERMAU

| Acronymau a Thermau | Esboniad |
|---|---|
| Gwerthu | Yn golygu gwerthu neu drosglwyddo tir neu hawliau i berchennog arall. Nid yw'n cynnwys gwerthu tir os yw hynny'n golygu trosglwyddo tir i awdurdod cyhoeddus neu i'w ddefnyddio er budd y cyhoedd a lle bo'r trosglwyddiad yn digwydd at ddiben anamaethyddol. |
| Gwlad – e-gylchgrawn | Cylchgrawn sy'n cael ei gyhoeddi ar-lein gan Lywodraeth Cymru i ffermwyr ac aelodau eraill cymunedau cefn gwlad. |
| IACS | System Integredig Gweinyddu a Rheoli. Dyma'r system y ar gyfer rheoli Taliad Uniongyrchol, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig ar y tir a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig. |
| Les | Cytundeb rhentu neu drefniant dros dro tebyg. |
| LU | Unedau Da Byw. |
| Meithrinfeydd | Tir lle mae'r planhigion prennaidd ifanc canlynol yn cael eu tyfu yn yr awyr agored er mwyn eu trawsblannu'n ddiweddarach. Maent yn cynnwys:<br>• meithrinfeydd gwreiddgyff a chyffion gwinwydd<br>• meithrinfeydd coed ffrwythau ac aeron<br>• meithrinfeydd coed addurnol<br>• meithrinfeydd coed coedwig heb gynnwys y rheini sy'n cael eu tyfu o fewn coedlannau i'w plannu ar y daliad<br>• meithrinfeydd coed a llwyni i'w plannu mewn gerddi, parciau, ar ymyl ffyrdd ac ar gloddiau (e.e. coed perthi, coed rhosod a llwyni addurnol eraill, coed conwydd addurnol) gan gynnwys gwreiddgyff a glasbrennau. |
| Porfa barhaol / Tir pori parhaol / Glaswelltir parhaol | Tir sy'n cael ei defnyddio i dyfu porfa a phorthiant glas arall arno trwy aildyfiant naturiol (ei hau ei hun) neu drwy ei drin a'i hau ac nad yw wedi bod yn rhan o gylchdro cnydau'r daliad am bum mlynedd neu fwy. |
| Porthiant glas | Unrhyw blanhigyn glaswelltog a geir yn draddodiadol ar dir pori naturiol neu sy'n cael ei gynnwys fel arfer mewn cymysgeddau o hadau i'w hau ar dir pori neu ddolydd. Gall y cymysgeddau hyn gynnwys liwsern, ffawlys, pupys porthi a meillion. |

## ATODIAD 5: RHESTR TERMAU

| Acronymau a Thermau | Esboniad |
|---|---|
| RPW Ar-lein | Taliadau Gwledig Cymru ar-lein - System ar-lein Llywodraeth Cymru. Gall ffermwyr a'u Hasiantwyr/Undebau Amaethyddol gofrestru ar y system er mwyn cyflwyno ceisiadau, gweld gohebiaeth, taliadau, mapiau ac ati ac i gysylltu ag RPW. |
| SAF | Ffurflen y Cais Sengl. |
| SMR | Gofynion Rheoli Statudol. |
| Tir amaethyddol | Unrhyw dir sy'n dir âr, yn borfa barhaol neu'n dir pori barhaol, neu'n gnydau parhaol. |
| Tir âr | Tir sy'n cael ei drin i gynhyrchu cnydau a thir sydd ar gael ar gyfer tyfu cnydau arno ond sydd yn awr yn wyndwn, gan gynnwys tir sydd wedi'u neilltuo'n segur. |
| Trawsgydymffurfio | Y Gofynion Rheoli Statudol a chadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da. |
| Trosglwyddo | Lesio neu werthu tir neu hawliau taliad neu eu hetifeddu'n wirioneddol neu ragweld eu hetifeddu neu unrhyw drosglwyddiad diffiniol arall ohonynt; nid yw'n cynnwys dychwelyd hawliau pan ddaw les i ben. |

## Atodiad 6: Rhestr o Ddogfennau Cyfeirio

Isod, fe welwch restr o ddogfennau sydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru.  Mae llawer o wybodaeth a chyngor am amrywiaeth o agweddau ar y cynlluniau sy'n rhan o Ffurflen y Cais Sengl wedi'u cyhoeddi hefyd yn e-gylchlythyr Gwlad a'u rhoi ar wefan Llywodraeth Cymru.

| Dogfen | Am beth mae'n sôn |
|---|---|
| Taflen Ffeithiau i Ffermwyr: Trawsgydymffurfio | Gwybodaeth fanwl i helpu ffermwyr i fodloni'r Gofynion Rheoli Statudol (SMRs) a'r safonau ar gyfer cadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC), hefyd ble i fynd am ragor o wybodaeth. |
| Canllaw'r SAF | 'Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2024.<br><br>'Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2024'. |
| Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) – Trosglwyddo Hawliau | Canllaw ar broses trosglwyddo Hawliau BPS. |

## Atodiad 7: Manylion Cysylltu

Mae gwefan Llywodraeth Cymru a'r e-gylchgrawn Gwlad yn cynnwys gwybodaeth allweddol am y BPS a chynlluniau eraill sydd yn y SAF.

**RPW Ar-lein**

Ewch i'r gwasanaeth RPW Ar-lein trwy wefan Llywodraeth Cymru. I ofyn am gael mynd ar RPW Ar-lein neu os oes gennych gwestiynau am ddefnyddio'r system ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

**Ymholiadau gan Ffermwyr – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**

Y lle cyntaf i'w ffonio neu ei e-bostio os oes gennych gwestiwn yw'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein i holi'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004
Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost: Taliadau Gwledig Cymru, Blwch Post 251, Caernarfon, LL55 9DA

Bydd amserau agor y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn cael ei estyn yn ystod y ffenest ymgeisio fel a ganlyn:

- 1 o Fawrth i 26 o Ebrill 2024 (ac eithrio Gwyliau Banc):
  Llun i Gwener: 9:00am i 4:00pm

- 29 o Ebrilli 15 o Fai 2024 (ac eithrio Gwyliau Banc):
  Llun i Iau: 9:00am i 5:00pm
  Gwener: 9:00am i 4:00pm

**Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal**

**Mae ein Swyddfeydd Rhanbarthol ar agor trwy apwyntiad yn unig.**

Swyddfa Ranbarthol Caernarfon
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd LL55 1TH

Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
Caerfyrddin SA31 3BT

Swyddfa Ranbarthol Llandrindod
Llywodraeth Cymru
Neuadd y Sir
Spa Road East
Llandrindod LD1 5LG

Swyddfa Ranbarthol Aberystwyth
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

**Mynediad at Swyddfeydd RPW i bobl ag anableddau neu anghenion ychwanegol**

Os oes gennych anghenion ychwanegol a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb eich gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

**Gwefan Llywodraeth Cymru**

Am yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru a chofrestru am e-gylchlythyr Materion Gwledig fydd yn cael ei e-bostio atoch.

Am yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru a chofrestru am e-gylchlythyr Materion Gwledig fydd yn cael ei e-bostio atoch.

**Gwlad**

E-gylchlythyr Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru i ffermwyr, busnesau coedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn ffermio ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, cyngor a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. I sicrhau eich bod yn clywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn e-gylchlythyr Gwlad trwy fynd i: Cofrestrwch ar gyfer newyddion amaethyddiaeth a choedydwigaeth (Gwlad).